Senedd Cymru
**Biliau Aelod**

# Y Bil Bwyd (Cymru): Memorandwm Esboniadol

Rhagfyr 2022

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio gan Peter Fox AS ac yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru.

## Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Bil Bwyd (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 12 Rhagfyr 2022, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Peter Fox AS

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

12 Rhagfyr 2022

# Cynnwys

**Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol ............................. i**

**Rhan 1: Memorandwm Esboniadol .............................................. 1**

**1. Cyflwyniad ............................................................ 1**

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ............................................. 1**

**3. Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael ...................... 2**

Yr amcanion polisi arfaethedig ............................................ 2

Pam y mae angen y Bil ..................................................... 3

Beth sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU? ............................. 29

Cysylltiadau â deddfwriaeth arall ......................................... 31

**4. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham ................................. 41**

Nodau bwyd a thargedau bwyd ............................................... 41

Comisiwn Bwyd Cymru ....................................................... 47

Strategaeth fwyd genedlaethol ............................................. 53

Cynlluniau bwyd lleol ..................................................... 55

Ystyr cyrff cyhoeddus ..................................................... 58

**5. Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus .......................... 59**

Cefnogaeth gyffredinol i'r Bil ............................................ 59

Yr ymgynghoriad cychwynnol ar amcanion polisi'r Bil ........................ 59

Ymgynghoriad ar y Bil drafft .............................................. 63

Sut y mae'r fersiwn derfynol o'r Bil yn wahanol i'r Bil drafft ............ 64

**6. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ........................................ 66**

**Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol ...................................... 70**

**7. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ............................. 71**

Costau ac anfanteision heb eu meintioli ................................... 73

Manteision ... 73

Tystiolaeth , rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol ... 74

**8. Opsiwn 1: parhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol ... 75**

**9. Opsiwn 2: cyflwyno Bil ... 79**

Manteision y Bil Bwyd (Cymru) ... 99

**10. Asesiadau Effaith Penodol ... 105**

A) Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder (Rheol Sefydlog 26.6 (xi)) ... 105

B) Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ... 107

C) Effaith ar y Gymraeg ... 111

D) Asesiadau effaith eraill ... 112

**11. Rhan 3: NODIADAU ESBONIADOL ... 113**

Cyflwyniad ... 113

Sylwadau ar yr adrannau ... 113

**12. Atodiad: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog ... 118**

# Rhan 1: Memorandwm Esboniadol

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 22 Medi 2021, llwyddodd Peter Fox AS yn y bleidlais a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 y Senedd ar gyfer yr hawl i gael caniatâd i gyflwyno Bil Aelod.

**2.** Ar 17 Tachwedd 2021, cynhaliwyd dadl 'caniatâd i fwrw ymlaen' a chytunodd y Senedd y gallai Peter Fox gyflwyno Bil o fewn 13 mis i ddyddiad y ddadl er mwyn rhoi effaith i'r cynnig a ddewiswyd yn y bleidlais gynharach.

**3.** Y cynnig oedd y byddai'r Bil yn sefydlu system fwyd mwy cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogeledd bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Dylai'r Bil ddarparu fframwaith sy'n galluogi dull trawslywodraethol sy'n gydlynol, yn gyson ac yn strategol ar gyfer ymdrin â pholisi ac arfer ar bob agwedd ar y system fwyd.

**4.** Datblygwyd y Bil gyda'r amcanion polisi sylfaenol hynny fel ei egwyddorion allweddol ac, yn dilyn trafod ac ymgynghori â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allweddol, a'r cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Mae'n nodi cefndir darpariaethau a chwmpas Bil, ac yn rhoi rhagor o fanylion am y broses ar gyfer datblygu'r Bil a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd.

## 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

**5.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn darparu bod Biliau i'w cyflwyno gan Aelodau unigol o'r Senedd, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd, mewn meysydd lle y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol.

**6.** Mae adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Senedd wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, sef Deddfau gan Senedd Cymru. Mae adran 108A yn darparu nad yw Deddf gan y Senedd yn gyfraith i'r graddau bod unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**7.** Mae darpariaethau'r Bil Bwyd (Cymru) ("y Bil") o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

# 3. Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o amcanion polisi'r Bil, yn nodi pam y mae angen y Bil ac yn gosod y Bil yng nghyd-destun deddfwriaeth berthnasol arall a datblygiadau mewn mannau eraill yn y DU.

## Yr amcanion polisi arfaethedig

**8.** Mae'r Bil yn darparu fframwaith sy'n galluogi dull trawslywodraethol sy'n gydlynol, yn gyson ac yn strategol ar gyfer ymdrin â pholisi ac arfer ar bob agwedd ar y system fwyd.

**9.** Diben y Bil yw sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru. Mae hyn yn golygu cryfhau ein diogeledd bwyd drwy gadwyn gyflenwi gydnerth, cefnogi datblygiad ein diwydiant bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a chynyddu dewis defnyddwyr. Bydd ystyriaethau amgylcheddol hefyd yn ganolog i'r system fwyd y mae'r Bil yn ceisio ei sefydlu, megis: diogelu ac adfer natur; mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd a'u lliniaru; a lleihau ôl troed amgylcheddol byd-eang Cymru.

**10.** Y nod bwyd sylfaenol a nodir yn y Bil yw darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol i bobl Cymru. Mae'r nod hwn yn darparu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru, yn ogystal â gweithredu fel man angori y bydd polisi sy'n cael ei greu drwy'r Bil yn ceisio ei gyflawni.

**11.** Mae'r system fwyd yn ganolog i ffyniant economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Er bod cynhyrchu a bwyta bwyd yn rhan gynhenid o systemau ehangach y DU a systemau byd-eang, mae gan y sector yng Nghymru rôl sylfaenol wrth helpu i greu Cymru fwy cyfartal, iachach a gwyrddach.

**12.** Mae rhai o'r problemau mwyaf y mae Cymru yn eu hwynebu – megis tlodi ac anghydraddoldeb, gordewdra a diffyg maeth, dirywiad natur a newid hinsawdd – wedi gwaethygu yn sgil pandemig COVID-19, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Mae materion parhaus yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am system fwyd fwy cydnerth, am fod materion o'r fath yn cyfyngu ar ddewis defnyddwyr ac

yn creu risg go iawn prinder bwyd. Mae'r materion hyn yn rhoi straen sylweddol ar Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus, busnes a chymunedau.

**13.** Felly, mae'r Bil yn ceisio datblygu fframwaith cyfannol, cydlynol ar gyfer datblygu polisi bwyd yn y dyfodol drwy ddileu'r polisi seilos presennol. Bydd yn llwyfan ar gyfer cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus a llunwyr polisi, yn ogystal â dod â chynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr at ei gilydd. Wrth wneud hynny, mae'r Bil hefyd yn ceisio sicrhau bod polisïau'n ystyried sut y gall y system fwyd ymateb i rai o heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol Cymru.

**14.** Bydd y Bil hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i gyflawni eu dyletswyddau fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd nodau darpariaethau yn y Bil yn canolbwyntio ar gyflawni'r saith nod llesiant, a byddant yn defnyddio'r Ddeddf i hwyluso dull mwy cydlynol o ddatblygu polisi bwyd yng Nghymru. Yn ei **ymateb i'r ymgynghoriad**, mae Cyngor Abertawe yn ysgrifennu'r canlynol:

> *Nod y ddeddfwriaeth yw gorfodi'r saith nod lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy osod dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus drwy'r 'Nodau Bwyd' sylfaenol ac eilaidd newydd. Bydd yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran cyflawni'r nodau hynny, drwy oruchwyliaeth gan Gomisiwn Bwyd Cymru, sydd i'w groesawu.*

**15.** Mae nodau'r Bil yn gyson â chanfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn eu hadroddiad yn 2016, sef **Polisi Bwyd fel Polisi Cyhoeddus** ar gyfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, daeth yr Athro Terry Marsden a'r Athro Kevin Morgan i'r casgliad bod angen datblygu gweledigaeth a strategaeth ffres a chlir ar gyfer y system fwyd yng Nghymru ar frys. Ymhlith pethau eraill, gwnaethant argymell y dylai deietau cynaliadwy fod wrth wraidd y polisi hwn ac y dylid cefnogi ffermwyr i gynhyrchu cynhyrchion llai dwys, mwy cynaliadwy, ac ansawdd bwyd uwch drwy setiau mwy amrywiol o gadwyni cyflenwi. At hynny, gwnaethant argymell trefniadau monitro effeithiol yn unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Pam y mae angen y Bil

**16.** Mae'r adran hon yn nodi'r ystod eang o feysydd polisi sy'n cynnwys y system fwyd yng Nghymru. Mae'n amlinellu sut y mae'r Bil yn gweddu i'r dirwedd bolisi a deddfwriaethol bresennol yng Nghymru, ac yn esbonio pam y mae angen llwyfan statudol

cryfach ar gyfer system fwyd Cymru i'w helpu i ddiwallu'n well yr anghenion a'r heriau y mae cymunedau ar draws y wlad yn eu hwynebu.

## Yr angen am ddull cyfannol

**17.** Nid yw polisi presennol Llywodraeth Cymru o ran bwyd yn gydgysylltiedig, sy'n arwain at anghydlyniaeth polisi a chanlyniadau anfwriadol. Mae angen un dull cyfannol cyffredinol o ymdrin â'r system fwyd gyfan yng Nghymru i sicrhau'r ystod eang o fanteision y gall system fwyd gydgysylltiedig, gydnerth a chynaliadwy eu cynnig.

**18.** Mae trafodaethau â rhanddeiliaid dros fisoedd lawer wedi tynnu sylw at y ffaith bod diffyg gwaith craffu cyffredinol ar bolisïau sy'n gysylltiedig â'r system fwyd ehangach yng Nghymru. Hynny yw, mae polisi bwyd yn cael ei ystyried yn rhy aml mewn cyd-destunau penodol, gydag adrannau Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dulliau gwahanol o ymdrin â pholisi bwyd, sy'n arwain at nodau polisi sy'n mynd yn groes i'w gilydd.

**19.** At hynny, er gwaethaf pwysigrwydd bwyd, a'r system fwyd ehangach, o safbwynt iechyd a llesiant, yr amgylchedd a datblygiad economaidd-gymdeithasol ymhlith pethau eraill, canfuwyd bod gan gyrff cyhoeddus agweddau gwahanol ac anghyson iawn tuag at bolisi bwyd yn eu cylchoedd gwaith eu hunain. Er bod rhai'n rhagweithiol yn y maes hwn, nid yw eraill yn gwneud fawr ddim, gyda phwysau a diffyg adnoddau wedi'u nodi'n aml fel rhesymau pam mae rhai cyrff cyhoeddus yn rhoi polisi bwyd y tu ôl i gyfrifoldebau eraill.

**20.** Mae'r clytwaith hwn o ymatebion polisi ar draws Cymru yn golygu mai prin y manteisir ar allu'r system fwyd i ymateb i rai o'r heriau y mae cymunedau'n eu hwynebu, felly nid yw rhai o'r heriau hyn yn cael eu datrys. Fel y dywed Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ei **ymateb i'r ymgynghoriad**:

> *In the absence of regulation, there has been inconsistency in terms of how our food environments (including those within the public sector) enable healthy behaviours. Often the easiest or lowest cost choice/option prevails which can result in the normalisation of cheap unhealthy foodstuffs.*
>
> *…Choice rests not with communities but with retailers and creates in effect 'food deserts' (defined as limited or no access to affordable and nutritious food) often for our most vulnerable communities who suffer with the greatest ill-health burden.*

**21.** Mae digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw at y ffaith bod cadwyni cyflenwi yn fwy agored i ergydion allanol nag a gredwyd yn gyffredinol. Er bod bwyd yn her fyd-eang yn ei hanfod – mae sioc i'r system yn golygu bod y rhai nad oes ganddynt system fwyd leol gydnerth ar waith yn aml yn agored i faterion cyflenwi bwyd.

**22.** Mae'r Bil, felly, yn bwriadu creu system lywodraethu fwy cadarn i oruchwylio'r system fwyd yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn fwy rhagweithiol wrth fonitro iechyd a hygyrchedd y system fwyd yng Nghymru, a'r modd y mae system fwyd Cymru yn rhyngweithio â systemau gwledydd eraill. Mae'r materion hyn yn bwysig yn ein cymunedau.

**23.** Er y derbynnir y gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ymateb i rai o'r heriau hyn heb fod angen deddfwriaeth, un o'r materion sy'n codi'n aml yw'r ffaith nad yw cynlluniau a strategaethau'n aml yn cynnwys llawer o fecanweithiau craffu ac atebolrwydd. Felly maent yn aml yn cael eu hanwybyddu gan gyrff, neu eu gweithredu i raddau cyfyngedig, sy'n golygu bod diffyg data a thystiolaeth ynghylch pa mor llwyddiannus y mae cynlluniau a strategaethau blaenorol wedi bod.

**24.** Ar ben hynny, nid yw iteriadau newydd o'r cynlluniau hyn yn gyson yn eu dull gweithredu, sy'n golygu bod cynlluniau gwahanol yn canolbwyntio ar bethau gwahanol, gan arwain at ddryswch rhwng nodau polisi. Mae ffocws cynlluniau diweddar hefyd wedi bod yn fwy cyfyng yn eu cwmpas, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar dwf economaidd a hyrwyddo allforion, yn hytrach na defnyddio'r system fwyd i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach. Er enghraifft, mae cynlluniau diweddar Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- **Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020** a oedd, pan gyhoeddwyd yn 2010, yn ceisio gosod gweledigaeth dymor hwy, gyffredinol ar gyfer system fwyd Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y dull calonogol a fabwysiadwyd yn y strategaeth – a derbyn yr angen i ymgysylltu â'r system fwyd ehangach wrth wynebu heriau cymdeithasol ehangach – ni sefydlodd system o dargedau. Roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd dadansoddi pa mor llwyddiannus oedd y strategaeth o ran cyflawni ei nodau cyffredinol.

- Roedd **Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020** yn gorgyffwrdd â'r cynllun uchod, a sefydlodd Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Fodd bynnag, roedd gan y cynllun hwn fwy o ffocws ar dwf economaidd ac ehangu'r sector bwyd a diod

yng Nghymru, gan gynnwys ymrwymiad i sicrhau cynnydd 30 y cant mewn trosiant i £7 biliwn erbyn 2020. Nod y Bwrdd Diwydiant oedd cefnogi arloesi yn y diwydiant a gwella'r sylfaen sgiliau ymhlith y gweithlu i wireddu'r uchelgais hon.

- Adeiladodd **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021** ar strategaeth 2014, gan ganolbwyntio eto ar weithgynhyrchu a phrosesu bwyd, gwreiddio ymhellach y newid tuag at dwf economaidd fel prif faes ffocws y diwydiant. Fodd bynnag, cydnabu'r strategaeth rai materion amgylcheddol a chymdeithasol fel newid hinsawdd a'r angen am waith teg, ac mae'n rhestru nifer o strategaethau eraill a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â bwyd o dan y pennawd "Mae popeth yn gysylltiedig". Dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn gwireddu'r weledigaeth drwy weithio'n "ddi-dor ar draws yr agendâu polisi ehangach fel iechyd cyhoeddus, cymunedau, cynaliadwyedd, yr economi gylchol, datgarboneiddio, masnach, sgiliau a thwristiaeth."

**25.** Mae'r mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn credu nad yw strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â bwyd yn ddigon cydgysylltiedig. Nid yw 63 y cant yn credu bod y strategaethau'n ddigon cydgysylltiedig ac ni fynegwyd barn glir gan 37 y cant. Nid atebodd unrhyw un o'r ymatebwyr 'ydw' i'r cwestiwn hwn, felly roedd 100 y cant o'r rhai a fynegodd farn glir yn credu nad oedd y strategaethau'n ddigon cydgysylltiedig.

**26.** Yn ei **hymateb i'r ymgynghoriad**, mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn nodi enghreifftiau o anghydlyniaeth polisi yng Nghymru:

> *A key reason why this Bill is important is because to date policy incoherence has often led to mixed messages, missed opportunities and contradictory approaches. For example the strategic direction of growth and industrialisation of the food manufacturing sector versus a clear policy direction of 'sustainable agriculture'; Minimum alcohol pricing as part of the Public Health (Wales) Act vs Welsh Government's Drink Strategy; planning policies that allow farms to pollute water courses whilst assets key to building food security (whether land or infrastructure) held in public ownership are lost to other sectors; and missed opportunities to connect Welsh Government's Food and Drink Retail Plan with opportunities within the Healthy Weight Healthy Wales*

> *(obesity strategy) - in particular around ambitions for a Healthy Food Environment.*

**27.** Mewn **tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd** ar 27 Hydref 2022, yn ystod sesiwn dystiolaeth ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), dywedodd Simon Wright, Cyfarwyddwr Wright's Food Emporium a Chyfarwyddwr Bwyd ac Economi Wledig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, y canlynol:

> *… We don't have a clear vision of the direction of travel and where we want to end up, and this is causing us difficulties, even when we're discussing things like the Agriculture Bill. Because we don't have that vision, we tend to get divisions that I don't think would be there otherwise. We've talked about all the considerations and the goals and how we need to bring them together, but do we actually have a vision for how we're going to do that?*
>
> *We've got to remember here we're talking about supply chains, the global food system, the nature of the global food economy. If we've learned anything from the past three or four years it's that it's almost impossible to predict how that is going to look in six months' time, let alone 10 years' time. But we do know that it's becoming increasingly unstable. For me, therefore, the key objective has to be resilience. We need to visualise what the Welsh food system should look like. In my view, we need to bring control of it home as far as we possibly can, because that is the safest and most resilient thing to do. …*

**28.** Nid peth newydd yw galw am un dull cyffredinol. Cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd ymchwiliad manwl i'r system fwyd yng Nghymru dan y teitl '**Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru**' yn 2018 a 2019.

**29.** Daeth y **Pwyllgor i'r casgliad** bod angen strategaeth newydd sy'n adlewyrchu dull system gyfan ac yn cysylltu meysydd polisi gwahanol, megis iechyd, llesiant a chynaliadwyedd a thwf economaidd. Dywedodd y Pwyllgor y dylai amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn sail i hyn, ac y dylai targedau gyd-fynd ag ef.

**30.** Fodd bynnag, nid oes dull cyffredinol o hyd ar gyfer y system fwyd yn ei chyfanrwydd a fyddai'n tynnu'r holl feysydd polisi hyn ynghyd ac mae angen integreiddio a chydweithredu ar draws portffolios Gweinidogol.

**31.** Mae'r Bil hwn, felly, yn cyflwyno fframwaith sy'n ceisio symleiddio natur gymhleth polisi bwyd drwy sefydlu dull system gyfan - gan gydnabod yr angen am amcanion adrannau llywodraeth, cyrff cyhoeddus, a chysoni'r system fwyd yn ei chyfanrwydd er mwyn sicrhau manteision i gymunedau, yn ogystal â'r diwydiant bwyd a diod. Mae'n cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut y gallant ddatblygu polisïau sy'n creu cyfleoedd i fod yn fwy cyson â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer y system fwyd, gan feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau.

**32.** Fel y dywed Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ei **ymateb i'r ymgynghoriad**:

> *Overall we believe that the Food (Wales) Bill would significantly strengthen the work which is already being developed at a local and regional level to create a better Welsh food system. It would ensure that local initiatives are aligned with national commitments and vice versa, avoid duplication, increase efficiency and add value to our community wealth.*

## Strategaeth Bwyd Cymunedol

**33.** Yn y **Rhaglen Lywodraethu**, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno Strategaeth Bwyd Cymunedol. Dywed y bydd yn "datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru" fel rhan o ymgorffori ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wna.

**34.** Nid yw manylion y strategaeth arfaethedig wedi'u cyhoeddi eto na'u darparu i'r Senedd er mwyn iddi graffu arnynt. Nid yw ychwaith yn glir eto pryd y mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r strategaeth.

**35.** Fodd bynnag, **dywedodd y Gweinidog ym mis Mawrth 2022** fod Llywodraeth Cymru am ymgorffori rhai o agweddau'r Bil yn y Strategaeth Bwyd Cymunedol.

**36.** Ym mis Mehefin 2022, taflodd **papur y Gweinidog** i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd i gostau byw oleuni ar yr hyn y gall ac na all y strategaeth ei wneud:

> *Welsh Government policy is to develop local networks and supply chain clusters where doing so is sustainable in the long term. We are already doing this with food manufacturers. The Community Food Strategy is an opportunity to further this work and facilitate grass roots activity also. There is evident interest and energy in communities about food related projects with myriad initiatives throughout Wales. Often the benefits are things other than the produce itself, and could contribute to a range of Future Generation Well-being goals. The government's intention is to assist these initiatives and we have been engaged in extensive one to one conversations with organisations active in this space to understand challenges and opportunities. It is conceivable public bodies might focus more on some of the structural barriers which exist for community projects such as availability of land, or they might consider how local suppliers can meet their procurement needs. However, it is not the government's goal these community projects can ever take the place of the mainstream agri-food system. We must be realistic about what is achievable. Alternative, food production and supply initiatives are rarely cost competitive and they are also seasonal.*

**37.** O hyn, mae'n amlwg bod cwmpas y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn canolbwyntio'n benodol ar brosiectau bwyd cymunedol. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwysig wrth helpu i fyrhau cadwyni cyflenwi a darparu bwyd lleol hygyrch. Maent hefyd yn bwysig o ran ennyn cyfranogiad cymunedol a chefnogi llesiant meddyliol cyfranogwyr.

**38.** Mae'n ymddangos bod cwmpas y Strategaeth Bwyd Cymunedol uchod yn gyson ag amcanion y Bil Bwyd hwn. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth yn cymryd lle nodau ehangach y Bil Bwyd o ran cyflawni fframwaith cyffredinol ar gyfer hyrwyddo system fwyd gyfannol a chynaliadwy yng Nghymru.

## Cynhyrchu bwyd

**39.** Mae cynhyrchu bwyd yn agwedd bwysig ar ddiwylliant Cymru sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i weithgaredd penodol tyfu a phrosesu bwyd. Mae ein ffermydd yn bennaf yn eiddo teuluol ac yn gonglfaen economaidd a chymdeithasol ein cymunedau gwledig. Mewn llawer o rannau o Gymru, mae'r gymuned ffermio hefyd yn un o golofnau ein diwylliant Cymraeg unigryw.

**40.** **Tir fferm yw tua 80 y cant o arwynebedd tir Cymru** ac felly mae'n allweddol wrth lunio tirwedd Cymru a'r ddelwedd rydym yn ei thaflunio'n fyd-eang. Mae system fwyd gynaliadwy hefyd yn hanfodol i adfer natur a helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd a mynd i'r afael â hwy.

**41.** Rydym hefyd yn **cynhyrchu cynhyrchion o ansawdd uchel** i rai o'r safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchaf yn y byd.

**42.** Mae bwyd Cymru hefyd **yn bwysig yn economaidd**. Cyfanswm gwerth trosiant cadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru (sy'n cynnwys prosesau gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyo dibreswyl) oedd £23 biliwn yn 2021, sef cynnydd 2.9 y cant ar £22.4 biliwn yn 2020. Cynyddodd allforion yn 2021 mewn cymhariaeth â 2020, o £552 miliwn i £640 miliwn yn 2021, sef cynnydd 16 y cant. Ond gostyngodd gwerth ychwanegol gros ar gyfer bwyd a diod Cymru 16.4 y cant o 2019 i 2020, o £3.82 biliwn i £3.20 biliwn. Yn 2020, roedd cadwyn cyflenwi bwyd Cymru yn cyflogi 224,500 o bobl.

**43.** Cymaint yw pwysigrwydd y diwydiant bwyd mae Llywodraeth Cymru yn ei nodi fel **un o 'sectorau sylfaen' Cymru**, gan ddweud y canlynol:

> *Mae'r economi sylfaen yn darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol …. Dyma asgwrn cefn ein cymunedau lleol ledled Cymru. Mewn rhannau o Gymru, fel yn rhai o'n cymunedau gwledig, yr economi sylfaen* ***yw'r*** *economi.*

**44.** Mae **ystadegau ar gyfer y sector amaethyddiaeth** yn benodol yn dangos mai £602 miliwn oedd gwerth ychwanegol gros ffermio yn 2021, sef cynnydd £62 miliwn (neu 12 y cant) ar ffigur 2020. Cynyddodd cyfanswm yr incwm ffermio hefyd £89 miliwn yn 2020 (neu 29 y cant) i £394 miliwn yn 2021. Fodd bynnag, mae **ffermwyr yn wynebu costau mewnbynnau cynyddol** sy'n gwasgu eu proffidioldeb.

**45.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod** ym mis Tachwedd 2021. Ei nodau yw:

- sicrhau cadwyn gyflenwi sy'n amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol ag enw da rhyngwladol am ragoriaeth;
- tyfu'r diwydiant ar gyfradd gyfrannol uwch na gweddill y DU.

**46.** Fel y nodwyd uchod, mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu a phrosesu bwyd ac nid yw'n darparu'r dull cyffredinol sydd ei angen ar gyfer y system fwyd yn ei chyfanrwydd.

**47.** Mae cymorth y llywodraeth ar gyfer ffermio'n newid yn sylweddol. Gan fod Cymru wedi gadael Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE, rydym yn rhydd i ddylunio cynllun sy'n diwallu ein hanghenion ein hunain. Bydd **Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft** Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd cynaliadwy. Mae'r dull newydd hwn yn mynd â Chymru ymhellach i ffwrdd o daliadau uniongyrchol ar ffurf PAC i ffermwyr.

**48.** Mae amcanion y Bil Bwyd yn ategu rhai'r Weledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft. Er bod y ddau bolisi hyn yn ddarnau pwysig o'r jig-so, dim ond hyn a hyn a wnânt i greu'r system fwyd gydnerth a chynaliadwy y mae angen i ni ei chyflawni – yr hyn na wnânt yw ystyried *sut* y defnyddir bwyd yn ein cymunedau.

**49.** Bydd y Bil, felly, yn sefydlu'r fframwaith cyffredinol i sicrhau yr ystyrir polisi ffermio a'r gadwyn gyflenwi ochr yn ochr ag agweddau pwysig eraill megis iechyd y cyhoedd a mynd i'r afael â thlodi bwyd.

**50.** Mae hefyd yn ceisio cynnig cyfleoedd newydd i ffermwyr a chynhyrchwyr eraill werthu eu cynnyrch mewn marchnadoedd lleol a rhanbarthol yng Nghymru – yn arbennig yn annog cyrff cyhoeddus i ystyried sut y gallant sicrhau bod bwyd a gynhyrchir yn lleol yn hygyrch yn ehangach drwy gynlluniau bwyd lleol. Felly, gall y Bil gael yr effaith o helpu i greu sector amaethyddol a bwyd sy'n fwy economaidd gynaliadwy, ac annog creu swyddi a busnes ychwanegol.

## Diogeledd bwyd

**51.** Mae diogeledd bwyd yn fater byd-eang cymhleth. Gellir ei ystyried yn fesur o fynediad pobl at fwyd diogel a maethol ac mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys argaeledd a fforddiadwyedd bwyd. Mae **Pwyllgor y CU ar Ddiogeledd Bwyd y Byd** yn diffinio diogeledd bwyd fel a ganlyn:

> *Food security exists when all people, at all times, have physical and economic access to sufficient, safe and nutritious food that meets their dietary needs and food preferences for an active and healthy life.*

**52.** Mae cadwyni cyflenwi bwyd wedi bod dan bwysau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae pandemig COVID, prinder llafur, newid hinsawdd, a chynnydd mewn prisiau olew a nwy, oll wedi cyfrannu at gynnydd mewn prisiau bwyd. Mae'r problemau hyn wedi'u gwaethygu gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin – mae'r ddwy wlad yn allforwyr arwyddocaol bwyd a gwrtaith, ac mae hyn wedi bod yn gyfyngedig ers dechrau'r rhyfel.

**53.** Mae prisiau bwyd wedi codi'n sylweddol yn y DU ers diwedd 2021, sy'n cael effaith arbennig ar aelwydydd tlotach. Mae **data mis Hydref 2022 gan Food Foundation** yn dangos nad yw 18 y cant o aelwydydd y DU wedi gallu fforddio na chael bwyd, felly maent wedi bwyta llai, hepgor prydau neu fynd heb brydau bwyd am ddiwrnod cyfan. Dyma ddwbl nifer y bobl yr effeithiwyd arnynt ym mis Ionawr.

**54.** Mae ein cadwyni bwyd wedi wynebu profi difrifol, ond nid ydynt wedi torri. Mae **Deddf Amaethyddiaeth 2020** yn ei gwneud yn ofynnol bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno adroddiad ar ddiogeledd bwyd i Senedd y DU o leiaf unwaith bob tair blynedd. Cyhoeddwyd yr **adroddiad diweddaraf ar ddiogeledd bwyd y DU** ym mis Rhagfyr 2021. Daeth i'r casgliad bod system fwyd y DU yn ddigon cydnerth ac amrywiol i amsugno sioc, ond tynnodd sylw hefyd at feysydd dibyniaeth a allai beri risgiau i ddiogeledd bwyd. **Mae'r meysydd hyn yn cynnwys** newid hinsawdd, manteisio ar adnoddau naturiol, colli bioamrywiaeth, dirywiad iechyd pridd, argaeledd llafur, dibyniaeth ar fewnforion ynni ac effaith siociau allanol megis digwyddiadau daearwleidyddol a phandemigau byd-eang.

**55.** Defnyddir **86 y cant o dir ffermio yng Nghymru** ar gyfer pori da byw. Mae ein hinsawdd a'n topograffi yn ddelfrydol ar gyfer tyfu glaswelltir, ac rydym yn ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer cynnyrch cig oen, cig eidion a llaeth. Er y gwnawn hyn yn dda iawn, ac mae ein ffermwyr yn ffermio i rai o'r safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchaf yn y byd, nid yw ein sylfaen cynhyrchu mor amrywiol â'r DU gyfan.

**56.** I raddau helaeth, mae'r hyn rydym yn ei gynhyrchu wedi'i ddiffinio gan ein hinsawdd a'n topograffi. Pan fo'n amgylcheddol ac yn economaidd ddichonol, mae potensial i Gymru ehangu ei sylfaen cynhyrchu, gan gynnwys mwy o gnydau a garddwriaeth. Mae **amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir** hefyd yn cynnig llwybr cyffrous i gynyddu amrywiaeth cynhyrchu.

**57.** Mae nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil yn argymell y cysyniad 'sofraniaeth bwyd' dros 'ddiogeledd bwyd'. Mae **Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn dadlau'r** canlynol ynghylch sofraniaeth bwyd:

> *Contrary to the concept of food security, how and where food is produced and consumed matters to the concept of food sovereignty. Food sovereignty emphasizes ecologically appropriate production, distribution and consumption, social-economic justice and local food systems as wuays to tackle hunger and poverty and guarantee sustainable food security for all peoples.*

**58.** Bydd y Bil yn creu'r fframwaith i'r holl faterion hyn gael eu hystyried gyda'i gilydd yng nghyd-destun Cymru, yn enwedig o safbwynt y nodau bwyd. Er enghraifft, er nad oes cyfeiriad at sofraniaeth bwyd ar wyneb y Bil – fel yr awgrymwyd gan rai rhanddeiliaid – bydd y nodau amgylchedd a gwastraff bwyd yn benodol yn helpu i ymgorffori egwyddorion craidd tebyg yn y system fwyd.

**59.** Fel y trafodwyd mewn mannau eraill, mae digwyddiadau diweddar wedi pwysleisio ei bod yn bwysicach nag erioed sefydlu llywodraethiant da o'n system fwyd. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein cadwyni cyflenwi'n gydnerth a bod ein penderfyniadau'n cael effeithiau cadarnhaol ar bobl a'r amgylchedd o fewn ein ffiniau a'r tu hwnt iddynt. Bydd Comisiwn Bwyd arfaethedig Cymru yn helpu i ddarparu mwy o oruchwyliaeth o swyddogaeth y system fwyd a'r cadwyni cyflenwi yng Nghymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill a'r system fwyd i sicrhau bod cadwyni cyflenwi'n fwy cadarn ac yn helpu i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

## Newid hinsawdd

**60.** Cyflwynodd **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** dargedau statudol ar newid hinsawdd yng Nghymru am y tro cyntaf ac, erbyn hyn, mae dros dair blynedd ers i **Lywodraeth Cymru ddatgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd**.

**61.** Mae gan Gymru ofyniad statudol i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050, gyda thargedau dros dro ar hyd y ffordd (gostyngiad 63 y cant mewn allyriadau erbyn 2030; 89 y cant erbyn 2040). Mae'r fframwaith datgarboneiddio ar gyfer Cymru hefyd yn cynnwys cyllidebau carbon pum mlynedd.

**62.** Gostyngodd **allyriadau nwyon tŷ gwydr** yng Nghymru 31 y cant rhwng 1990 (y flwyddyn sylfaen) a 2019, er y bu cynnydd bychan 0.2 y cant rhwng 2018 a 2019. Ar gyfer amaethyddiaeth, cafwyd gostyngiad 10 y cant rhwng 1990 a 2019, gyda chynnydd 1.8 y cant rhwng 2018 a 2019.

**63.** Yn 2019, roedd amaethyddiaeth – cynhyrchu bwyd sylfaenol – yn gyfrifol am **14 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru**. Er nad dyma'r sector allyrru mwyaf, mae gostyngiad mewn allyriadau amaethyddol yn hanfodol er mwyn i Gymru gyrraedd y nod sero net.

**64.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun **Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25)** (y Cynllun Sero Net) ym mis Hydref 2021. Mae'n nodi sut y bydd Cymru yn cyrraedd ei hail gyllideb garbon ac yn adeiladu'r sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 a tharged lleihau allyriadau 2030, yn ogystal â sero net erbyn 2050.

**65.** Yn ogystal â pholisïau a chynigion penodol y sector (isod), mae'r Cynllun yn cynnwys ystod o bolisïau a chynigion i ddangos 'sut' y bydd Llywodraeth Cymru yn llywio ei dull o leihau allyriadau. Mae llawer yn uniongyrchol berthnasol i'r system fwyd ac yn ategu amcanion y Bil. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi 1: Pontio teg – ystyried effeithiau camau gweithredu hinsawdd ym mhob maes, gan gofio y gallai gweithredu ddatrys neu waethygu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes;
- Polisi 2: Yr argyfwng natur – ymgorffori'r ymateb i argyfwng natur yn holl waith Llywodraeth Cymru;
- Polisi 3: Y Cynllun Aer Glân, datgarboneiddio a Pholisi Adnoddau Naturiol – integreiddio'r meysydd hyn i gyflawni canlyniadau cydategol;
- Polisi 4: Meithrin y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau mewn ffyrdd cydategol;
- Polisi 5: Economi gylchol;
- Cynnig 1: Datblygu strategaeth hirdymor i hyrwyddo newid deietegol i ddeiet glanach ac addas.

**66.** Mae polisïau penodol y sector yn y Cynllun Sero Net yn cynnwys amaethyddiaeth, gwastraff a 'Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth' (LULUCF).

**67.** Ar gyfer amaethyddiaeth, mae'r Cynllun Sero Net yn pwysleisio rôl y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** arfaethedig (gweler isod). Nod y cynllun newydd hwn ar ôl Brexit yw cefnogi arferion ffermio carbon isel wrth gynnal sector cynhyrchu bwyd cryf. Un o

bedwar amcan y Cynllun yw cefnogi ffermwyr i "[l]iniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo".

**68.** Mae'r sector LULUCF yn cwmpasu allyriadau a dalfeydd carbon sy'n gysylltiedig â defnydd tir gan gynnwys coedwigaeth, defnydd tir trefol a mawndir. Er nad yw'r sector LULUCF cyfan yn uniongyrchol gysylltiedig â chynhyrchu bwyd a chadwyni cyflenwi cysylltiedig, mae'r ffordd rydym yn rheoli ein coedwigaeth a'n mawndiroedd ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd cynaliadwy yn ystyriaeth allweddol. LULUCF yw'r unig sector yn y Cynllun Sero Net sy'n gallu cael gwared ag allyriadau o'r atmosffer.

**69.** Prif amcan polisi'r Bil yw darparu bwyd fforddiadwy, iach ac sy'n economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol gynaliadwy i bobl, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol. Yn ganolog i hyn y mae hyrwyddo system fwyd sy'n lliniaru newid hinsawdd, yn ogystal ag addasu iddo, a hefyd yn lleihau ôl troed carbon Cymru drwy leihau effaith amgylcheddol cynhyrchu, prosesu a bwyta bwyd.

**70.** Yn y cyfamser, mae'r nod gwastraff bwyd yn creu ffocws ychwanegol ar gyfraniad gwastraff bwyd i allyriadau nwyon tŷ gwydr a sut y gellir lleihau hyn drwy ailgyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi. Mae oddeutu **traean o'r bwyd a gynhyrchir yn fyd-eang** yn cael ei golli neu ei wastraffu ac mae'n cael effaith wirioneddol ar newid hinsawdd, gan gyfrannu 8 i 10 y cant o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr o waith dyn. Drwy'r nod gwastraff bwyd, bydd y Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru, yn y fframwaith ehangach gan sbarduno system fwyd gydnerth a chynaliadwy.

**71.** Nid oes targedau amgylcheddol penodol wedi'u gosod ar wyneb y Bil i osgoi dyblygu'r targedau presennol yn ddiangen, ond mae diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn gofyn adnoddau ychwanegol sylweddol ac amser y Senedd, felly mae'n gwneud y Bil yn anhyblyg i amgylchiadau newidiol. Fodd bynnag, o gofio'r ffocws yn y Bil ar rôl bwysig y system fwyd wrth ymateb i newid hinsawdd drwy'r nodau bwyd eilaidd, gosodwyd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar sut y bydd yn cyrraedd y nod amgylcheddol, yn ogystal â'r nodau eilaidd eraill.

## Natur a bioamrywiaeth

**72.** Mae gwerth cynhenid i fioamrywiaeth ac mae'n cynnig manteision i bobl drwy '**wasanaethau ecosystem'**, megis darparu dŵr a chynhyrchu bwyd. Felly, gall colli bioamrywiaeth achosi risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl.

**73.** Tynnodd yr **adroddiad yn 2019 ynghylch sefyllfa byd natur** sylw at y ffaith bod 17 y cant o 3,902 o rywogaethau yng Nghymru dan fygythiad o ddiflannu. Yn 2021, **datganodd y Senedd 'argyfwng natur'** yn gydnabyddiaeth o ddirywiad bioamrywiaeth a ysgogir gan bobl. Y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur** yw strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru.

**74.** Daw pwysau ar fioamrywiaeth o lawer o ffynonellau, gan gynnwys trefoli, llygredd, newid hydrolegol, rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ac arferion rheoli coetir ac amaethyddol penodol.

**75.** O gofio mai **amaethyddiaeth yw tua 80 y cant o'r arwynebedd tir** yng Nghymru, mae ffermio, fel rhan o system fwyd gydnerth a chynaliadwy ehangach, â rôl ganolog wrth adfer natur. Mae **ymateb RSPB Cymru i'r ymgynghoriad** ar y Bil yn nodi hyn yn gryno:

> *Whilst unsuitable farming and food production, driven by poorly conceived polices, is the main driver of biodiversity loss and contributes to climate change, sustainable, nature friendly farming is also the key to restoring nature and the ecosystems we depend on.*

**76.** Mae adroddiad diweddar Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, sef **Rethink Food: The Need for Change**, yn ein herio i ailddychmygu'r system fwyd bresennol mewn ffordd wahanol, gan gynnwys pontio i ffermio sy'n ystyriol o fyd natur:

> *This is a challenging time to address how farming moves forward. But the past few years of comprehensive scientific assessments have pushed the urgency of restoring nature, protecting ecosystems and adapting to a future where climate change is to the fore. Farming is central to this. Without extensive and widespread adoption of nature-friendly agriculture, where diversity spans the landscapes of our farms, we risk a future with greater instability. Producing bountiful nutritious food without a biodiverse and fertile natural environment will be impossible.*

**77.** Nod **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** drafft (gweler isod) Llywodraeth Cymru yw gwobrwyo ffermwyr sy'n cyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Un o bedwar amcan y Cynllun yw cefnogi ffermwyr i "[g]ynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu".

**78.** Mae amcanion y Bil Bwyd yn ategu rhai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft. Mae diogelu ac adfer bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol drwy gynhyrchu bwyd yn ganolog i'r system fwyd gydnerth a chynaliadwy y mae'r Bil yn ceisio ei chyflawni.

**79.** Yn ystod yr ymgynghoriad, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cynnwys egwyddorion amaethecoleg ar wyneb y Bil er mwyn sicrhau bod cynhyrchu bwyd yn sicrhau manteision i fyd natur a'r hinsawdd. Er enghraifft, mae **ymateb WWF Cymru i'r ymgynghoriad** yn datgan y canlynol:

> ...*We believe that agroecological principles should be what underpins the bill, as those principles cover environmental, economic, social and cultural considerations, and will ensure true resilience within our food system...*

**80.** Nid yw'r Bil yn cyfeirio'n benodol at agroecoleg gan y gall hynny, yn anfwriadol, ei gwneud yn anoddach dehongli ei nodau a'i ddarpariaethau a'u gwneud yn llai gorfodadwy yn ôl y gyfraith. Byddai angen i ddiffiniad safonol, cyfreithiol o agroecoleg fod wedi'i sefydlu yn y Bil, a allai newid wrth i'r egwyddorion sy'n sail i'r cysyniad gael eu datblygu yn y dyfodol. Fel y soniwyd yn flaenorol, gall diwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn anodd a chymryd amser a gall cynnwys diffiniad o'r fath arwain at Fil anhyblyg nad yw'n cyd-fynd ag amgylchiadau sy'n newid yn y dyfodol.

**81.** Fodd bynnag, wrth ddweud hyn mae'r Bil, drwy ei nodau bwyd eilaidd, yn cydnabod yn llwyr bod yn rhaid i gynhyrchu, bwyta a phrosesu bwyd gael effeithiau cadarnhaol ar fyd natur a hinsawdd - gan helpu i adfer bioamrywiaeth, cynefinoedd a chyflwr pridd, yn ogystal â sicrhau manteision ar gyfer yr hinsawdd a chymunedau. Drwy gynnwys nodau bwyd ar wyneb y Bil, creu Comisiwn Bwyd Cymru, a chysylltu'r darpariaethau â gofynion deddfwriaethol presennol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (a drafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon), y gobaith yw creu system lywodraethu gydlynol, gadarn drwy'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon a fydd yn darparu'r manteision economaidd, iechyd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru.

## Bwyd mewn ysgolion

**82.** Mae'r nod bwyd sylfaenol cyffredinol yn ymwneud â darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gynaliadwy. Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau arlwyo i'r mwyafrif o ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

**83.** Mae adran 512 o **Ddeddf Addysg 1996** yn datgan y caiff awdurdod lleol ddarparu prydau bwyd neu luniaeth arall i ddisgyblion, naill ai ar fangre'r ysgol neu rywle arall lle y darperir addysg. Diwygiwyd hyn gan **Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006** i roi'r rhyddid i awdurdodau lleol gynnig prydau bwyd am ddim, ffrwythau ffres, llaeth neu luniaeth arall i'r holl ddisgyblion yn ystod y diwrnod ysgol, ni waeth beth yw incwm y teulu. Pan fo awdurdod lleol yn arfer y pŵer i godi tâl am ddarpariaeth o'r fath, rhaid iddo godi'r un pris ar bob disgybl neu berson arall am yr un faint o'r un eitem.

**84.** Pan fo gan ysgol gyllideb ddirprwyedig ar gyfer prydau bwyd, mae'r corff llywodraethu yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu darparu. Mae hyn yn cynnwys darparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, darparu prydau 'y telir amdanynt' ar gais, cydymffurfio â safonau maethol a phenderfynu ar gynnwys a chost prydau bwyd.

**85.** Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau arlwyo 'mewnol' i'r mwyafrif o ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol. Mae darparwyr prydau ysgol eraill yn cynnwys arlwywyr dan gontract ac ysgolion, sy'n cyflogi staff arlwyo'n uniongyrchol.

**86.** Mae **Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) 2013** yn gosod y mathau o fwyd a diod y gellir ac na ellir eu darparu yn ystod y diwrnod ysgol. Maent hefyd yn diffinio cynnwys maethol cinio ysgol. Maent yn gymwys i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sy'n darparu bwyd neu ddiod ar ddiwrnod ysgol i ddisgyblion ar fangre ysgol cyn 6pm; mewn man heblaw am fangre ysgol cyn 6pm (h.y. taith ysgol); ac i unrhyw berson arall ar fangre'r ysgol cyn 6pm, er enghraifft, ymwelwyr, rhieni/gofalwyr, staff. Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion a safonau am frecwast, cinio, diodydd a bwyd arall fel yr hyn a werthir mewn peiriannau gwerthu neu siopau bach yn yr ysgol.

**87.** Mae disgyblion y mae eu rhieni'n gymwys i gael budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nodir y budd-daliadau a'r credydau treth cymwys sy'n rhoi hawl i blentyn gael prydau ysgol am ddim yn adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd). Dyfernir prydau ysgol am ddim pan fo'r rhiant neu'r disgybl yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, ac mae'r rhiant wedi gwneud cais.

**88.** Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ymrwymiad** y gall yr holl blant ysgol gynradd yng Nghymru gael prydau ysgol am ddim erbyn 2024, gan ddechrau gyda dysgwyr yn y Flwyddyn Derbyn o fis Medi 2022. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mewn **Datganiad Llafar ym mis Medi**

**2022** fod Llywodraeth Cymru am 'ganolbwyntio ar sut yr ydym ni'n defnyddio ein dulliau'n well i hybu caffael cyhoeddus i gefnogi cynhyrchu a dosbarthu bwyd lleol, er budd economïau lleol ac i gysylltu dysgwyr yn well â gwreiddiau'r bwyd y maen nhw'n ei fwyta'.

**89.** Mae'r ffocws ar greu cadwyni bwyd mwy lleol drwy'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol a Chynlluniau Bwyd Lleol, fel y'i sefydlwyd yn y Bil, yn cyd-fynd â'r nodau canmoladwy, sef ehangu prydau ysgol am ddim i blant ysgol gynradd yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y Bil yn helpu i greu'r seilwaith sydd ei angen i alluogi cynhyrchwyr bwyd lleol i fanteisio ar gyfleoedd caffael lleol, megis y rhai a gaiff eu sefydlu drwy'r polisi hwn.

## Bwyd yn y cwricwlwm

**90.** Mae un o'r nodau bwyd eilaidd yn ymwneud â chynyddu ansawdd a hygyrchedd darpariaeth addysgol ar faterion sy'n ymwneud â bwyd a datblygu sgiliau bwyd i sicrhau deietau a llesiant gwell, iachach.

**91.** Cyflwynwyd y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr ym 1989. Mae pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael eu haddysgu yn unol â rhaglenni astudio a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cwricwlwm cenedlaethol hwn yn parhau i gael ei addysgu i ddisgyblion yng ngharfan Blwyddyn 8 2022/23 ac i fyny. Bydd yn cael ei ddileu'n raddol erbyn 2026/27 pan fydd y garfan gyntaf sy'n astudio'r **Cwricwlwm newydd i Gymru** yn cyrraedd Blwyddyn 11.

**92.** Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol, mewn lleoliadau meithrin ac ysgolion cynradd a ariennir yn gyhoeddus i ddechrau, o fis Medi 2022. Rhoddwyd dewis i ysgolion uwchradd ohirio ei gyflwyno am flwyddyn pan fydd yn statudol ar gyfer Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2023. Yna caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno i grŵp blwyddyn ychwanegol, fesul blwyddyn, nes cyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27. Dewisodd bron hanner ysgolion uwchradd gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2022.

**93.** Bwriedir i'r Cwricwlwm i Gymru fod yn seiliedig ar ddibenion yn hytrach nag ar gynnwys, gyda mwy o bwyslais ar sgiliau ac addysgu'r hyn sy'n bwysig. Mae'r cwricwlwm newydd 3-16 oed yn symud i ffwrdd o ddull y cwricwlwm cenedlaethol, lle caiff yr hyn a addysgir ei amlinellu'n fanwl, i un lle y mae gan ysgolion hyblygrwydd i gynllunio eu cwricwla eu hunain, o fewn fframwaith cenedlaethol eang.

**94.** Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi ei strwythuro ar sail y pedwar diben a chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh). 'Gweledigaeth ar y cyd yw'r pedwar diben, a dyma'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc'. Y dibenion yw y dylai plant fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**95.** Mae manylion am yr MDPh yn seiliedig ar "Ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig" (h.y. yr hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc ddysgu amdano), sydd wedi'u nodi mewn dogfen statudol o'r enw cod "Yr Hyn sy'n Bwysig". Mae "egwyddorion cynnydd" a "disgrifiadau dysgu" yn rhoi rhai manylion am yr hyn y dylid ymdrin ag ef ym mhob MDPh. Dyma'r MDPh:

- y celfyddydau mynegiannol;
- iechyd a lles;
- y dyniaethau;
- ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu;
- mathemateg a rhifedd;
- gwyddoniaeth a thechnoleg.

**96.** Mae'r datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer Iechyd a Lles yn cynnwys y gall yr MDPh hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y corff. Mae hyn yn cynnwys arferion sy'n hybu iechyd megis gweithgareddau corfforol gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau eraill a deiet cytbwys. Mae hefyd yn cynnwys dealltwriaeth o arferion sy'n niweidio iechyd.

**97.** Mae'r datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer y Dyniaethau'n cynnwys 'Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol'.

**98.** Drwy'r nod bwyd addysg, rhagwelir y bydd y Bil yn helpu i hyrwyddo ffocws sgiliau’r Cwricwlwm newydd i Gymru drwy bwysleisio'r angen i’r holl blant a phobl ifanc gael y sgiliau bwyd angenrheidiol i sicrhau deietau gwell, iachach, yn ogystal â chynyddu'r ddarpariaeth addysg ar faterion sy'n ymwneud â bwyd.

## Bwyd a'n hiechyd

**99.** Mae **Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer 2021-22, Arolwg Cenedlaethol Cymru** ac **ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn ailadrodd pryderon parhaus ynghylch lefelau uchel gordewdra, deiet gwael ac anghydraddoldebau iechyd ym mhoblogaeth Cymru. Mae gorbwysau a gordewdra yn **dod yn fwy cyffredin yng Nghymru** ac, ar yr un pryd, mae ein gallu cyfunol i gydnabod beth yw bod yn bwysau iach yn lleihau. Mae hyn yn destun pryder iechyd y cyhoedd sylweddol, gan y gall cario gorbwysau fod â goblygiadau sylweddol i iechyd corfforol a meddyliol unigolyn ac mae’n cynyddu'r risg o ystod eang o glefydau cronig.

**100.** Mae gordewdra plant yn bryder arbennig. Dangosodd y data diweddaraf a gyhoeddwyd gan y **Rhaglen Mesur Plant** o 2018/19 gynnydd mewn gordewdra plant dros y chwe blynedd flaenorol gyda phlant Cymru yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew erbyn oedran derbyn **na phlant yn yr Alban neu Loegr**.

**101.** Mae **Cymru Iachach** (2018), cynllun iechyd a gofal cymdeithasol tymor hir Llywodraeth Cymru, yn tynnu sylw at bwysigrwydd 'ffactorau bywyd' megis peidio ag ysmygu, osgoi goryfed, cadw at bwysau iach a deiet da i iechyd da.

**102.** Mae Rhan 2 o **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Pwysau Iach: Cymru Iach**, strategaeth hirdymor i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru, gyda chefnogaeth tua £13 miliwn.

**103.** Fodd bynnag, cydnabu Pwysau Iach: Cymru Iach fod angen dull system gyfan gan fod "atal gordewdra yn her gymhleth, gyda llawer o ffactorau sy’n cyfrannu at hynny’n gweithredu ar lefel unigol, cymunedol, cymdeithasol a byd-eang" ac "n[a] all Llywodraeth, y GIG nac unrhyw sector unigol gyflawni’r gwaith hwn ar eu pennau eu hun". Mae'r strategaeth yn seiliedig ar y themâu amgylcheddau iach, lleoliadau iach, pobl iach, ac arweinyddiaeth a galluogi newid.

**104.** Mae’r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach wedi ei hategu gan gynlluniau cyflawni ar gyfer **2020-22** (Chwefror 2020), a **2022-24** (Mawrth 2022). Mae'r olaf yn pwysleisio bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar ddewisiadau bwyd a gweithgarwch corfforol, yn enwedig mewn cymunedau a oedd â lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd eisoes. Mae ffocws penodol ar y blynyddoedd cynnar a phlant, ac mae'r cynllun cyflawni’n nodi saith maes blaenoriaeth cenedlaethol:

- llywio’r amgylchedd bwyd a diod tuag at opsiynau cynaliadwy ac iachach;
- galluogi amgylcheddau a mannau llesol er mwyn annog mwy o symud mewn bywyd bob dydd;
- annog a chefnogi teuluoedd i ddarparu’r dechrau gorau mewn bywyd;
- galluogi lleoliadau addysg i fod yn lleoedd lle mae iechyd corfforol a meddyliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth;
- dileu rhwystrau er mwyn lleihau anghydraddoldebau deiet ac iechyd ar draws y boblogaeth;
- adeiladu ar ddatblygu gwasanaethau cymorth teg i bobl gyrraedd pwysau iach neu ei gynnal;
- gwella datblygiad y system atal sy’n galluogi arweinyddiaeth ar bob lefel.

**105.** Mae'r Bil Bwyd yn pwysleisio'n gryf rôl y system fwyd wrth gyfrannu i ganlyniadau gwell sy'n ymwneud ag iechyd drwy'r nodau bwyd iechyd a chymdeithasol ac addysg. Bydd yn sicrhau bod deddfwriaeth, strategaethau a thargedau presennol yn cael eu dwyn ynghyd i ystyried y ffordd orau y gellir eu cyflawni drwy'r system fwyd. Fel y mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent yn datgan yn ei **ymateb i’r ymgynghoriad**:

> *The inclusion of health within the food goals will facilitate greater engagement beyond the NHS from a wider range of public sector organisations who all have a role to play in tackling obesity. A stronger system of governance and reporting for food within public sector organisations will complement the Healthy Weight Whole Systems Approach.*

## Caffael cyhoeddus mewn cysylltiad â bwyd

**106.** Nododd adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd, sef **Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd** (2018) fod gwariant caffael blynyddol bwyd a diod y sector cyhoeddus dros £74 miliwn ac y:

> *...defnyddir yr arian hwn i ddarparu bwyd yn ein hysgolion a'n hysbytai, a dylid meddwl amdano fel buddsoddiad mewn iechyd a lles pobl Cymru.*

**107.** Mae GIG Cymru yn prynu gwerth £22 miliwn o fwyd yn bob blwyddyn i'w weini yn ei ysbytai, a **bu galwadau** am fodel cyflenwi bwyd mwy lleol, iach, a chynaliadwy i GIG Cymru. Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithredu fel **sefydliadau angori** sydd â chyfran sylweddol yn eu hardal leol. Gallai hyn wella llesiant cleifion a chymunedau bwyd a chefnogi cyflenwyr/cynhyrchwyr bwyd lleol.

**108.** **Dywedodd Llywodraeth Cymru** y canlynol ym mis Gorffennaf 2022:

> *Mae trefniadau caffael y sector cyhoeddus yn chwarae rôl bwysig wrth ail-leoleiddio'r gadwyn fwyd. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £94.4m ar fwyd ac arlwyo ac er bod y ffigur hwnnw'n ymddangos yn gymharol isel o bosibl (o ystyried ei fod yn cyfateb yn fras â throsiant un uwch-archfarchnad Tesco) o gymharu â gwerth y diwydiant manwerthu bwyd, sef £3bn, mae'n dal i fod yn farchnad atyniadol i gynhyrchwyr a chyflenwyr yng Nghymru ac yn gyfle enfawr ar gyfer cyflenwadau lleol.*

**109.** Mae caffael bwyd y sector cyhoeddus yn hanfodol er mwyn gosod y naws ar gyfer y system fwyd y mae arnom ei hangen yng Nghymru. Mae'r bwyd sy'n cael ei weini yn ein hysgolion, ein hysbytai a'n cartrefi gofal yn fuddsoddiad yn iechyd a llesiant ein pobl. Yn ogystal â hynny, mae'n gyfle i'r sector cyhoeddus yng Nghymru arwain drwy esiampl wrth greu system fwyd well.

**110.** Deallir bod Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg caffael bwyd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru i greu darlun o wariant caffael bwyd ar draws Cymru, faint o fwyd o Gymru sy'n cael ei gyflenwi ac agweddau tuag at brynu o Gymru a rhwystrau i wneud hynny.

**111.** Mae **Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu** canllawiau caffael "Prynu Bwyd Lleol a Chynaliadwy" ar gyfer pob contract/cytundeb fframwaith bwyd er mwyn:

> *...sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosibl ar gael i fusnesau bwyd yng Nghymru a bod canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu cyflawni.*

**112.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd y canllawiau hyn yn hyrwyddo newid o'r dulliau cost isaf o ran tendrau bwyd gyda mwy o bwysoliad yn cael ei roi ar faterion megis amcanion cymdeithasol a llesiant, llai o allyriadau CO2 a chadwyni cyflenwi lleol.

**113.** Hefyd, deallir bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir cynnwys arferion da ar gaffael bwyd yn y canllawiau statudol sy'n ategu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (gweler isod).

**114.** **Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2020** fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfle i drawsnewid y ffordd y mae caffael yn cael ei ddarparu yng Nghymru. Dywedodd fod caffael yn unol â'r Ddeddf yn rhoi cyfle sylweddol i gyrff cyhoeddus ddatblygu tuag at eu hamcanion llesiant a'n nodau llesiant cenedlaethol.

**115.** Mae'r Bil wedi'i ysgrifennu i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd yn sefydlu fframwaith i sicrhau y gwneir y gorau o'r manteision caffael cyhoeddus. Mae datblygiadau diweddar yn y maes hwn i'w croesawu ond mae angen gwneud mwy i ddefnyddio caffael bwyd y sector cyhoeddus er mwyn sbarduno gwelliant ym maeth rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed, wrth greu cyfleoedd hefyd i gynhyrchwyr lleol a chadwyni bwyd byrrach.

**116.** Os caiff ei wneud yn iawn, gall caffael gyfrannu'n sylweddol i gyflawni nifer o'r nodau bwyd a nodir yn y Bil. Yn ei dro, mae cyflawni'r nodau'n sicrhau bod arian cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer caffael bwyd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gyda manteision gwirioneddol ar gyfer cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd.

**117.** Mae'r **Bil Caffael** yn mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Ei nod yw disodli'r rheolau sy'n deillio i raddau helaeth o ddeddfwriaeth yr UE â dull symlach mwy hyblyg. Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd ei Bil yn gwneud y canlynol:

- cyflymu a symleiddio prosesau caffael cyhoeddus;
- sicrhau bod gwerth am arian yn ganolog i'r broses;

- creu mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a mentrau cymdeithasol i arloesi ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus.

**118.** Bydd newidiadau i'r Bil Caffael wrth iddo basio drwy Senedd y DU yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau bod unrhyw effaith y mae'n ei chael ar y Bil Bwyd yn cael ei hystyried.

## Tlodi bwyd

**119.** Mae pris bwyd a diodydd dialcohol **wedi cynyddu 14.6 y cant** yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2022. Dyma'r cynnydd blynyddol mwyaf ers 42 o flynyddoedd, ac mae'n cael effaith anghymesur ar aelwydydd sydd â'r incwm isaf gan eu bod yn gwario **cyfran uwch o incwm eu haelwyd** ar fwyd nag aelwydydd cyfoethocach.

**120.** Mae **Insecurity Tracker diweddaraf Food Foundation yn datgan bod 19 y cant** o aelwydydd yng Nghymru heb ddiogeledd bwyd ym mis Medi 2022, gyda phedair miliwn o blant heb ddiogeledd bwyd ar draws y DU. Canfu Sefydliad Bevan, rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2022, fod aelwyd **39 y cant o bobl yng Nghymru** wedi torri'n ôl ar fwyd i oedolion. Mae hyn wedi cael yr effaith fwyaf ar aelwydydd ag incwm is, gyda mwy na 40 y cant o aelwydydd sydd â llai na £30,000 mewn incwm blynyddol yn gwneud toriadau.

**121.** Mae Cyngres yr Undebau Llafur **wedi canfod bod** tua chwarter yr aelwydydd mewn rhai etholaethau'n hepgor prydau bwyd neu'n mynd heb fwyd, gyda'r cyfraddau uchaf yn y Rhondda, Blaenau Gwent a Dwyrain Abertawe.

**122.** Gan dynnu sylw at y sefyllfa yng Nghasnewydd, mae **Rhwydwaith Darparwyr Bwyd Cymunedol y Trydydd Sector** wedi gweld cynnydd yn y galw mewn banciau bwyd, gyda mwy o aelwydydd 'mewn gwaith' yn gorfod cael mynediad iddynt o ganlyniad i gostau byw cynyddol.

**123.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu **£4.9 miliwn yn y flwyddyn ariannol bresennol** i liniaru tlodi bwyd, ac i fynd i'r afael â'i achosion sylfaenol. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi sefydliadau bwyd cymunedol megis banciau bwyd i gael mynediad at gyflenwadau digonol o fwyd a chynhyrchion babanod. Mae hefyd yn cyllido mentrau sy'n helpu aelwydydd i arbed arian ar fwyd, er enghraifft cyflwyno sesiynau coginio lle y mae'r cyfranogwyr yn cael bwyd a ryseitiau, a darparu offer coginio megis ffwrn araf.

**124.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dechrau cyflwyno eu hymrwymiad i ddarparu **prydau ysgol am ddim i'r holl blant ysgol gynradd**, gyda'r bwriad bod yr holl ddisgyblion yn cael **pryd ysgol am ddim erbyn 2024**. Rhagwelir y bydd hyn yn costio £200 miliwn mewn cyllid refeniw **rhwng 2022-23 a 2024-25** gyda **£60 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu**. Mae teuluoedd incwm is hefyd yn cael **prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol**, ac mae wedi'i gadarnhau y bydd hyn yn parhau hyd at hanner tymor mis Chwefror yn 2023.

**125.** Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru wedi galw i Lywodraeth Cymru gael gwared ar yr **angen am fanciau bwyd erbyn 2030**. Byddai'n hoffi gweld atebolrwydd yn lleol i fesur a monitro diffyg diogeledd bwyd ac adrodd arno, ac mae am iddi fod yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth i liniaru hyn.

**126.** At hynny, hoffai Rhwydwaith Darparwyr Bwyd Cymunedol y Trydydd Sector weld **Cynlluniau Bwyd Lleol** a fyddai'n cynnwys targedau i leihau'r angen i aelodau o'r gymuned gael cymorth bwyd argyfwng.

**127.** Bydd y Bil yn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd yn un o nodau canolog system fwyd Cymru. Fel y trafodwyd rywle arall yn y bennod hon, mae strategaethau bwyd diweddaraf Llywodraeth Cymru wedi tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar botensial economaidd y system fwyd yn hytrach na'i rôl wrth fynd i'r afael â materion cymdeithasol parhaus. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â hyn drwy sefydlu dull mwy cytbwys, cyfannol o ran y system fwyd drwy'r nodau bwyd, sy'n pwysleisio'r rôl y gall y system fwyd ei chael wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a dosbarthu bwyd iach, cynaliadwy a fforddiadwy mewn cymunedau.

**128.** Yn y cyfamser, mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd, yn ogystal â phroses ar gyfer adrodd ar y targedau hyn a'u hadolygu. Bydd y mecanwaith hwn yn helpu i gynyddu data a gesglir am faterion sy'n gysylltiedig â bwyd mewn cymunedau, gan gynyddu atebolrwydd. Bydd y Strategaeth Fwyd Genedlaethol a'r Cynlluniau Bwyd Lleol hefyd yn helpu i sicrhau bod dull mwy penodol o gyrraedd targedau i leihau tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd, a dileu hynny yn y pen draw, gyda'r cynlluniau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull cenedlaethol a lleol o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â bwyd.

## Gwastraff bwyd

**129.** Mae strategaeth **Mwy Nag Ailgylchu** Llywodraeth Cymru yn 2021 yn ymrwymo i ostyngiad 50 y cant mewn gwastraff bwyd osgoadwy erbyn 2025 a gostyngiad 60 y cant erbyn 2030, yn erbyn llinell sylfaen 2006-2007.

**130.** Mae'r strategaeth yn nodi nifer o gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau gwastraff bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- nodi cynllun i ymgysylltu â manwerthwyr i sicrhau eu bod yn annog cwsmeriaid i leihau gwastraff bwyd, ac ystyried a oes angen 'Rhwymedigaethau Gwybodaeth Defnyddwyr' gorfodol ar gyfer lleihau gwastraff bwyd;
- sefydlu gweithgor gyda chynrychiolwyr cadwyn gyflenwi'r sector bwyd er mwyn nodi cyfleoedd i gyrraedd y targed lleihau gwastraff bwyd, gan gynnwys lleihau deunydd pecynnu diangen;
- ymgynghori ar b'un a oes angen gofyniad i fusnesau adrodd meintiau gwastraff bwyd, ac a ddylid cyflwyno gofyniad i fanwerthwyr mawr ailddosbarthu bwyd bwytadwy sydd dros ben;
- cefnogi busnesau i leihau gwastraff bwyd a deunydd pecynnu;
- hyrwyddo datblygiad seilwaith cymunedol sy'n helpu dinasyddion i ailddosbarthu bwyd dros ben;
- datblygu opsiynau ar gyfer treth neu godi tâl ar gwpanau plastig untro a chynwysyddion bwyd.

**131.** Ym mis Gorffennaf 2022, **cyhoeddodd Wrap Cymru adroddiad**. Nod yr adroddiad yw "sefydlu gwaelodlin symiau gwastraff bwyd ar gyfer Cymru yn 2007, ffigur y gellid monitro a gwerthuso cynnydd tuag at darged yn ei erbyn".

**132.** Er bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i FareShare Cymru ailddosbarthu bwyd dros ben i bobl agored i niwed i'w chroesawu, yn ogystal â chyflwyno **Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)** i'r Senedd, mae'n amlwg bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd er mwyn i ni gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Felly, un o amcanion allweddol y Bil yw lleihau gwastraff bwyd ar draws y system fwyd gyfan, gan gynnwys cynhyrchwyr bwyd, proseswyr a defnyddwyr.

## Ôl troed a chyfrifoldeb byd-eang Cymru

**133.** Mae 'cyfrifoldeb byd-eang' yn un o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni'r nod cyfrifoldeb byd-eang a'i ystyried ar draws eu holl benderfyniadau.

**134.** Mae'r Bil yn canolbwyntio ar system fwyd Cymru, ond mae'n amhosibl anwybyddu'r ffaith bod Cymru yn rhan o system fwyd ehangach y DU ac yn fyd-eang. Gall penderfyniadau yng Nghymru gael effaith ar fannau eraill yn y byd. Dywedodd Maint Cymru yn ei **ymateb i'r ymgynghoriad** ar y Bil:

> *... a significant amount of our food is imported from countries and regions with a high risk of tropical deforestation, habitat conversion and social impacts, e.g., the abuse of Indigenous Peoples rights and forced and child labour. This includes commodities such as beef from South America, soy and palm oil used as livestock feed, palm oil for human consumption, coffee and cocoa. Deforestation accounts for around 20% of global emissions and we cannot address climate change without addressing deforestation. Unsustainable production of these forest-risk commodities is not only driving climate change and biodiversity loss, but it is also increasing the risk of future pandemics.*

**135.** Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn 2021 – **Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang** – wedi'i chomisiynu gan Maint Cymru, WWF Cymru ac RSPB Cymru yn dangos y canlynol:

- Mae Cymru yn mewnforio 190,000 tunnell o soi y flwyddyn, i fwydo da byw gan amlaf. Mae bron tri chwarter o'r ôl troed tir ar gyfer mewnforio soi yn digwydd mewn gwledydd sydd â risg uchel neu uchel iawn o ran datgoedwigo a/neu faterion cymdeithasol, gan gynnwys Paraguay, Brasil a'r Ariannin. Mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r newid mewn defnydd tir, fel datgoedwigo, ar gyfer tyfu mewnforion soi Cymreig yn fwy nag 1.1 miliwn tunnell o C02e (yr hyn sy'n cyfateb i C02) bob blwyddyn.

- Ar ffurfiau amrywiol y caiff palmwydd ei fewnforio i Gymru gan mwyaf, fel cynhwysyn mewn bwyd da byw ac i'w ddefnyddio mewn bwydydd wedi'u prosesu (e.e. bisgedi, cacennau a losin), a chynnyrch glendid personol (e.e. sebon). Cyfanswm mewnforion palmwydd Cymru yw 51,000 tunnell y flwyddyn ac mae 37 y cant o'r palmwydd a fewnforir i Gymru yn cael ei dyfu yn Indonesia, lle y mae'r newid defnydd tir sy'n gysylltiedig â chynhyrchu 168,500

tunnell o C02e bob blwyddyn. Mae 85 y cant o ôl troed tir mewnforion palmwydd yn digwydd mewn gwledydd sydd â risg uchel neu uchel iawn o ran datgoedwigo a/neu faterion cymdeithasol, gan gynnwys Papua Guinea Newydd, Indonesia a Malaysia.

- Mae mewnforion Cymru o gig eidion a chynhyrchion cig eidion (e.e. corn-bîff) yn 12,000 tunnell bob blwyddyn ac, ar gyfer hyn, mae angen arwynebedd tir yr un maint â Bannau Brycheiniog bob blwyddyn. Mae 26 y cant o ôl troed tir mewnforion cig eidion yn digwydd mewn gwledydd sydd â risg uchel o ran datgoedwigo a/neu faterion cymdeithasol, gan gynnwys Brasil ac Awstralia.

- Mae mewnforion blynyddol Cymru o goco'n 15,000 tunnell. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r newid mewn defnydd tir sy'n gysylltiedig â chynhyrchu coco ar gyfer mewnforion Cymru yn 68,800 tunnell o C02e bob blwyddyn. Mae Cymru yn mewnforio'r rhan fwyaf o'i choco o wledydd yng Ngorllewin Affrica, lle y mae risg o ddatgoedwigo a materion cymdeithasol, megis llafur plant.

**136.** Rhagwelir y bydd y Bil arfaethedig yn sicrhau bod ein hôl troed byd-eang a'n rhwymedigaethau wrth wraidd penderfyniadau yng Nghymru. Mae'r Bil yn nodi dull cyfannol o ran y system fwyd, yn ogystal â chreu cyswllt cryf â nodau a darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gynnwys nodau bwyd – yn enwedig y nod llesiant 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Yn ogystal â helpu i leihau effeithiau byd-eang negyddol ein dewisiadau, bydd yn hyrwyddo Cymru fel dinesydd byd-eang da sy'n gwneud penderfyniadau moesegol ynghylch ei system fwyd i fynd i'r afael â materion rhyngwladol.

## Beth sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU?

**137.** Bydd y Bil yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru yn ymwybodol o'r datblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU ac nad yw'n gadael cynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr yng Nghymru dan anfantais. Wrth ddatblygu'r Bil hwn, ystyriwyd y datblygiadau polisi diweddar a ganlyn.

**138.** Mae digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw at y ffaith bod cadwyni cyflenwi yn fwy agored i ergydion allanol nag a gredwyd yn gyffredinol. Er bod bwyd yn her fyd-eang yn ei hanfod – mae sioc i'r system yn golygu bod y rhai nad oes ganddynt system fwyd leol gadarn ar waith yn aml yn fwy agored i siociau eraill.

## Yr Alban

**139.** **Deddf Cenedl Bwyd Da (yr Alban) 2022**: pasiwyd y Ddeddf hon gan Senedd yr Alban ar 15 Mehefin 2022. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol greu Cynlluniau Cenedl Bwyd Da, a bydd yn cefnogi uchelgais Llywodraeth yr Alban i'r Alban ddod yn 'Genedl Bwyd Da'. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r prif ddeilliannau sydd i'w cyflawni o ran materion sy'n ymwneud â bwyd, y polisïau sydd eu hangen i wneud hyn a'r dangosyddion neu fesurau eraill sydd eu hangen i asesu cynnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Comisiwn Bwyd i graffu ar y Cynlluniau Cenedl Bwyd Da ac adroddiadau cynnydd a gwneud argymhellion mewn perthynas â hwy; cynnal ymchwil; a rhoi cyngor i Weinidogion yr Alban ac awdurdodau perthnasol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

## Lloegr

**140.** **Strategaeth Fwyd Llywodraeth y DU**: cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei strategaeth fwyd ar 13 Mehefin 2022. Amcanion y strategaeth yw cyflawni:

- sector bwyd-amaeth a bwyd môr ffyniannus sy'n sicrhau cyflenwad bwyd diogel mewn byd anrhagweladwy ac sy'n cyfrannu i’r agenda ffyniant bro drwy greu swyddi o ansawdd da ar draws y wlad;
- system fwyd gynaliadwy, fforddiadwy, sy'n gadarnhaol o ran natur, sy'n cynnig dewis ac yn sicrhau bod modd i bawb gael gafael ar gynhyrchion o ansawdd uchel sy'n cefnogi deiet iachach o gnydau a dyfwyd gartref;
- masnach sy'n cynnig cyfleoedd allforio a dewis i ddefnyddwyr drwy fewnforion, heb beryglu ein safonau rheoleiddio ar gyfer bwyd, boed iddo gael ei gynhyrchu'n ddomestig neu ei fewnforio.

**141.** Ymhlith pethau eraill, mae strategaeth Llywodraeth y DU yn adeiladu ar **adroddiad y Strategaeth Fwyd Genedlaethol**, adroddiad annibynnol a gafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth y DU a’i arwain gan Henry Dimbleby. Trafododd yr adroddiad gynhyrchu, marchnata a phrosesu bwyd, yn ogystal â gwerthu a phrynu bwyd. Edrychodd hefyd ar yr adnoddau a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r prosesau hyn.

## Cysylltiadau â deddfwriaeth arall

**142.** Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae'r Bil yn cyd-fynd â'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol a sut y bydd yn helpu i gydgysylltu a gweithredu amcanion ar draws y system fwyd gyfan.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**143.** Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru drwy osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i feddwl mewn ffordd fwy cynaliadwy ac am y tymor hir.

**144.** Mae'r Ddeddf yn rhoi ar waith **saith nod llesiant** y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni a'u hystyried yn eu holl benderfyniadau, fel a ganlyn:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**145.** Cyflwynodd y Ddeddf ddiffiniad o 'datblygu cynaliadwy':

> *...[y] broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.*

**146.** Wrth wneud eu penderfyniadau, mae angen i'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol. Mae pum peth y mae angen iddynt eu hystyried (y pum ffordd o weithio) er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'n rhaid iddynt:

- ystyried y tymor hir;
- helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu;

- mabwysiadu dull integredig o weithio;
- mabwysiadu dull cydweithredol;
- ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

**147.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (gweler isod) yn gosod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau yr ymgorfforir datblygu cynaliadwy yn eu polisïau.

**148.** Mae'r Bil Bwyd wedi'i ddrafftio i fod yn gyson â'r dull a fabwysiedir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; yn arbennig mae'r nodau bwyd yn debyg o ran arddull ac effaith i'r nodau llesiant. Bydd hyn yn sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd yn ddi-dor â'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn helpu i sicrhau yr ymgorfforir amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd ar draws system fwyd Cymru.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**149.** Nod **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yw galluogi'r amgylchedd yng Nghymru i gael ei reoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig.

**150.** Mae Deddf yr Amgylchedd yn cyflwyno'r cysyniad rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n ailalinio diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddilyn a chymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae **CNC yn disgrifio rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol** fel:

> *Defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddaw yn eu sgil. Drwy wneud hyn, mae'n cwrdd ag anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy, ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a osodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*

**151.** Mae Deddf yr Amgylchedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i **awdurdodau cyhoeddus penodol Cymru** i "hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau" a "cynnal a gwella bioamrywiaeth". Yr enw ar hyn yw "dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau".

**152.** Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn sefydlu fframwaith ar gyfer gosod rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wraidd penderfyniadau:

- **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol**: Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio adroddiad sy'n rhoi asesiad o adnoddau naturiol a sut y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

- **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol**: rhaid i Lywodraeth Cymru lunio polisi cenedlaethol sy'n nodi blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'r polisi'n ystyried canfyddiadau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

- **Datganiadau ardal**: Mae CNC yn llunio sylfaen dystiolaeth leol, sy'n helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol a sut y mae CNC yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain.

**153.** Ymhellach, mae Deddf yr Amgylchedd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hefyd i osod cyllidebau carbon. Fel y nodwyd uchod, o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf, mae gan Gymru ofyniad statudol i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050, gyda thargedau interim ar hyd y ffordd ac mae'r fframwaith datgarboneiddio ar gyfer Cymru hefyd yn cynnwys cyllidebau carbon pum mlynedd.

**154.** Mae amcanion y Bil Bwyd yn gyson â rhai Deddf yr Amgylchedd. Bydd y system fwyd y mae'r Bil yn ceisio ei chyflawni yn seiliedig ar egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac yn cyfrannu i'r nod i Gymru gyrraedd ei tharged allyriadau sero net.

**155.** Y gobaith yw, pan ddaw'r Bil yn gyfraith, y bydd y berthynas rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn atgyfnerthu ei gilydd. Yn union fel y gall y Bil Bwyd lywio system fwyd sy'n helpu i gyflawni amcanion Deddf yr Amgylchedd, pan fydd y system fwyd honno wedi'i sefydlu bydd, yn ei thro, yn llywio iteriadau o'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r datganiadau ardal. Bydd y broses gydategu ac atgyfnerthu hon yn hyrwyddo cydweithredu ac yn cyfrannu i ddull cyfannol o ymdrin â pholisi bwyd.

## Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**156.** Nod **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** yw mynd i'r afael â nifer o bryderon penodol ym maes iechyd y cyhoedd, a chreu amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i iechyd da a lle y gellir atal niwed osgoadwy. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gordewdra, cynhyrchion tybaco a nicotin, tyllu rhannau personol o'r corff, asesiadau o'r effaith ar iechyd, gwasanaethau fferyllol, a darparu toiledau cyhoeddus. Mae Llywodraeth

Cymru wedi pwysleisio y bwriedir i'r Ddeddf eistedd ochr yn ochr â chyfres ehangach o gamau gweithredu ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd.

**157.** Mae **Rhan 2 o'r Ddeddf** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru. Byddai'r strategaeth yn cael ei hadolygu bob tair blynedd gyda Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar ôl pob adolygiad.

**158.** Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol. Nodir bod **asesiadau o'r effaith ar iechyd** yn cynnig ffordd systematig o roi ystyriaeth i iechyd fel rhan o brosesau penderfynu a chynllunio. Byddai asesiadau yn gyfyngedig i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni y bydd arwyddocâd cenedlaethol neu sylweddol i'w canlyniadau neu a fydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd y cyhoedd yn lleol. Mae **Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru** yn darparu cymorth ar gyfer arfer asesiad o'r effaith ar iechyd.

**159.** Mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiad technegol bach i **Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013** fel bod yn rhaid i'r arian a geir drwy hysbysiadau cosb benodedig, am beidio â chydymffurfio â'r cynllun sgorio hylendid bwyd, gael ei ddefnyddio gan awdurdodau bwyd (awdurdodau lleol yn bennaf) i orfodi'r cynllun.

**160.** Mae'r Bil Bwyd yn pwysleisio'n gryf rôl y system fwyd wrth gyfrannu i ganlyniadau gwell sy'n ymwneud ag iechyd drwy'r nodau bwyd iechyd a chymdeithasol ac addysg. Drwy wneud hynny, mae'n helpu i ddarparu ffocws ychwanegol ar y rôl y gall y system fwyd ei chael wrth helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**161.** Daeth **deddfwriaeth Cymru ar isafbris am alcohol** i rym ym mis Mawrth 2020. Mae **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018** yn gosod pris sylfaen ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu am lai na'r pris hwnnw. Yng Nghymru, **50 ceiniog yw hyn ar hyn o bryd**.

**162.** Gweithredodd yr Alban ddeddfwriaeth debyg yn 2018. Daeth **adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus yr Alban** ym mis Mehefin 2022 i'r casgliad, ymhlith y rhai sy'n yfed

ar lefelau niweidiol neu bobl â dibyniaeth ar alcohol, na chanfu’r astudiaeth dystiolaeth glir o newid o ran lefelau yfed na difrifoldeb y ddibyniaeth.

**163.** Bydd isafbris am alcohol yn dod i ben yng Nghymru ym mis Mawrth 2026, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rheoliadau i’w ymestyn. Bydd gwerthusiad arall o effeithiolrwydd y polisi, sy’n un o ofynion y ddeddfwriaeth, yn hanfodol i ddyfodol y ddeddfwriaeth.

**164.** Yn debyg i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gall y Bil Bwyd helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 drwy ei bwyslais ar y rôl y gall y system fwyd ei chael i wella iechyd y cyhoedd a llesiant.

## Deddfwriaeth bosibl arall sy'n ymwneud ag iechyd

**165.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ddwy fenter polisi arfaethedig:

- Sicrhau **amgylchedd bwyd iach**, yn canolbwyntio ar fasgedi siopa iachach, bwyta'n iachach allan o'r cartref ac amgylcheddau bwyd lleol iachach (a ddaeth i ben ar 1 Medi 2022). Mae hyn yn cynnwys cynigion i gyflwyno deddfwriaeth ynghylch labelu caloríau ac i osod rheolau ar gyfer pa gynhyrchion y gellir eu gwerthu ar hyrwyddiad megis gostyngiadau mewn prisiau dros dro, cynigion amleitem ac eitemau mawr neu mewn safleoedd blaenllaw megis mynedfeydd siopau a diwedd eiliau.
- Cynigion **i roi terfyn ar werthu diodydd egni** i blant dan 16 oed (a ddaeth i ben ar 1 Medi 2022). Ers cyhoeddi adolygiad o risgiau iechyd cysylltiedig gan Sefydliad Iechyd y Byd, mae rhai gwledydd wedi gweithredu cyfyngiadau ar werthu diodydd ynni.

## Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**166.** Sefydlodd **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** y Cwricwlwm i Gymru mewn cyfraith a disodli'r cwricwlwm sylfaenol. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch dilyniant ac asesu mewn cysylltiad â'r cwricwlwm i blant rhwng 3 ac 16 oed yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn nodi pedwar diben y cwricwlwm mewn cyfraith. Mae hefyd yn nodi'r elfennau gorfodol, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd ac enwau'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi tri chod y mae’n rhaid iddynt ffurfio sail y cwricwlwm a threfniadau asesu ym mhob ysgol

a lleoliad sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Y codau yw: Cod yr Hyn sy'n Bwysig; y Cod Cynnydd a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**167.** Mae'n rhaid i benaethiaid sicrhau bod cwricwlwm yn cael ei gynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu i'r holl ddysgwyr cofrestredig yn yr ysgol rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm (ymhlith pethau eraill) wneud y canlynol:

- galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
- bod yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau;
- bod yn eang ac yn gytbwys;
- darparu ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu pob un o'r Meysydd, gan gynnwys yr elfennau mandadol. Dim ond os yw'n cynnwys pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig y bydd cwricwlwm yn gwneud hyn.

**168.** Drwy'r nod addysg bwyd, rhagwelir y bydd y Bil yn helpu i hyrwyddo ffocws sgiliau'r Cwricwlwm newydd i Gymru drwy bwysleisio'r angen i'r holl blant a phobl ifanc gael y sgiliau bwyd angenrheidiol i sicrhau deietau gwell, iachach, yn ogystal â chynyddu'r ddarpariaeth addysg ar faterion sy'n ymwneud â bwyd. Yn y cyfamser, dylai'r Cwricwlwm newydd roi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ystyried materion sy'n ymwneud â bwyd fel rhan o'u addysg, gan helpu i fwrw ymlaen â'r nod addysg bwyd.

## Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009

**169.** Mae adran 4 o'r **Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch bwyd a diod a ddarperir gan awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu i ddisgyblion ysgolion a gynhelir, boed a ydynt ar fangre ysgol ai peidio, ac i bersonau eraill ar fangre ysgol.

**170.** Gwnaed **Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013** o dan y pŵer hwn. Maent yn gymwys i'r holl fwyd a diod a weinir i ddisgyblion adeg brecwast, amser egwyl, amser cinio, egwyl prynhawn a chlybiau ar ôl ysgol ar draws y diwrnod ysgol cyfan ym mhob ysgol a gynhelir. Mae hyn yn wir boed a ddarperir bwyd/diod o'r fath gan yr awdurdod lleol, yn fewnol gan yr ysgol neu gan arlwywr dan gontract. Mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach hefyd yn gymwys i fwyd a diod a weinir mewn unrhyw safle ar fangre ysgol drwy gydol y diwrnod ysgol.

**171.** Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswyddau ar:

- awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gymryd camau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion cofrestredig;
- cyrff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnwys gwybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol am y camau a gymerwyd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gan ddisgyblion yr ysgol;
- y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i hysbysu Gweinidogion Cymru am y camau a gymerwyd mewn ysgolion a gynhelir i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach;
- awdurdodau lleol i sicrhau bod dŵr yfed ar gael, yn rhad ac am ddim, ar fangre unrhyw ysgol a gynhelir;
- awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sy'n darparu prydau ysgol neu laeth, i annog pobl i hawlio prydau ysgol neu laeth, ac i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob disgybl sydd â'r hawl i gael cinio ysgol am ddim a llaeth ysgol am ddim yn cael hynny;
- awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod na ellir adnabod disgybl gan berson, heblaw am berson a awdurdodir o dan y ddeddfwriaeth, fel disgybl sy'n cael cinio ysgol am ddim neu laeth ysgol am ddim.

**172.** Mae Mesur 2009 a Rheoliadau 2013 yn ymwneud yn uniongyrchol â'r nodau bwyd a sefydlwyd yn y Bil; yn arbennig y nodau iechyd a chymdeithasol ac addysg. Drwy roi pwyslais ar yr angen i fwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion, mae'n pwysleisio'r rôl y gall y system fwyd ei chael wrth wella iechyd a llesiant pobl.

**173.** Yn y cyfamser, rhagwelir y bydd y Bil yn helpu i greu'r seilwaith sydd ei angen i alluogi cynhyrchwyr bwyd lleol i fanteisio ar gyfleoedd caffael lleol, megis y rhai a sefydlir drwy'r polisi hwn. Gall hyn helpu awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gael mynediad rhwyddach at fwyd cynaliadwy o ansawdd uchel a fydd yn eu helpu i gyflawni'r dyletswyddau a osodir arnynt drwy Reoliadau 2013.

## Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

**174.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun Ffermio Cynaliadwy drafft** ar 6 Gorffennaf 2022. Cyflwynwyd **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** y Llywodraeth ar 26 Medi 2022 ac mae'n darparu'r cyfrwng deddfwriaethol ar gyfer y Cynllun. Bydd y dull newydd

hwn yn disodli'r taliadau a wnaed i ffermwyr ar ffurf Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE.

**175.** Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft yw gwobrwyo ffermwyr sy'n cyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yr amcanion yw:

- cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy;
- lliniaru newid hinsawdd ac addasu iddo;
- cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu;
- diogelu a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd ac ymgysylltu â’r cyhoedd.

**176.** Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys cefnogi ffermwyr i arallgyfeirio'r bwyd maent yn ei gynhyrchu. Bwriad y Cynllun yw helpu ffermwyr i ddatblygu marchnadoedd newydd ac ychwanegu gwerth at eu cynnyrch; cefnogi bwyd lleol, gan gadw gwerth mewn cymunedau; ac adeiladu system fwyd fwy amrywiol a all wrthsefyll newid hinsawdd yn well.

**177.** Ar ôl cyfnod o ymgynghori a threialu, disgwylir i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddechrau ym mis Ionawr 2025.

**178.** Bydd amcanion y Bil Bwyd yn ategu amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft a, chyda'i gilydd, byddant yn helpu i sicrhau bod bwyd lleol o ansawdd uchel sy'n dod o ffynonellau moesegol ar gael yn haws yng Nghymru, wrth gefnogi ein ffermwyr i barhau i ffermio'n gynaliadwy.

**179.** Mae’r Bil Amaethyddiaeth yn cyfeirio at ‘weithgareddau ategol’ yn ymwneud â gweithgareddau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi bwyd - gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu neu ddosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth. Mae’r Bil Amaethyddiaeth yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth i’r gweithgareddau ategol hyn a’i gwneud yn ofynnol i'r rhai sydd mewn ‘cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth’, neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o’r fath, ddarparu gwybodaeth am eu gweithgareddau mewn cysylltiad â'r gadwyn gyflenwi honno.

**180.** Mae Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, (y Gweinidog), **wedi dweud y bydd y pwerau hyn** yn cael eu defnyddio i ddatblygu

cadwyni cyflenwi byrrach, hyrwyddo'r economi gylchol ac annog cydweithio rhwng ffermwyr i wneud y gorau o gyfleoedd yn y farchnad.

**181.** Er y gall y gweithgareddau hyn fod yn ategol i'r Bil Amaethyddiaeth, maent yn sylfaenol i helpu i greu'r gadwyn gyflenwi gydnerth a chynaliadwy y mae'r Bil Bwyd yn ceisio ei chyflawni. Mae'n ymddangos bod y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn darparu adnoddau i gyflawni hyn.

**182.** Mae atgyfnerthiad y Bil Amaethyddiaeth o'r dibyniaethau agos rhwng ffermio cynaliadwy a gweddill y gadwyn gyflenwi bwyd i'w groesawu. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn hefyd yng nghyd-destun ehangach system fwyd Cymru gyfan.

**183.** Er enghraifft, mae **gwaith craffu gan y Senedd** wedi tynnu sylw at bryder rhanddeiliaid am y diffiniad o 'reoli tir yn gynaliadwy' yn y Bil Amaethyddiaeth. Mae Deddf yr Amgylchedd (gweler uchod) eisoes yn darparu diffiniad o 'reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol'. Mae rhanddeiliaid amgylcheddol wedi holi pam, o gofio bod ffermio'n cymryd cymaint o arwynebedd tir Cymru, na ddefnyddir y diffiniad o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn y Bil Amaethyddiaeth.

**184.** Bydd y Bil Bwyd yn darparu'r fframwaith cyffredinol i gysoni'r polisi ar ffermio a chadwyni cyflenwi bwyd â meysydd pwysig eraill megis yr amgylchedd, diogeledd bwyd, materion iechyd y cyhoedd, gofynion maeth, caffael bwyd y sector cyhoeddus, dewis cwsmeriaid ac ôl troed amgylcheddol a moesegol rhyngwladol Cymru.

**185.** Mae gwaith craffu ar y Bil Amaethyddiaeth o ddiddordeb mawr. Bydd gwelliannau iddo’n cael eu hystyried er mwyn sicrhau bod y Bil Amaethyddiaeth a'r Bil Bwyd yn parhau i gyd-fynd.

## Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

**186.** Ar 7 Mehefin 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** (y Bil Partneriaeth Gymdeithasol). Mae amcanion polisi y Bil Partneriaeth Gymdeithasol wedi'u nodi'n llawn ar wefan y Senedd ond maent yn cynnwys meysydd sy’n gorgyffwrdd ag amcanion polisi’r Bil Bwyd.

**187.** Yn benodol, mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:

- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol (a nodir yn Atodlen 1 i’r Bil Partneriaeth Gymdeithasol) i ystyried defnyddio prosesau caffael cyhoeddus

cymdeithasol gyfrifol, i osod amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, ac i gyhoeddi strategaeth gaffael

- gofyniad i gyrff cyhoeddus penodol gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol drwy gadwyni cyflenwi.

**188.** Mae’r Senedd wrthi’n craffu ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol, ac mae **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** y Senedd yn trafod yr egwyddorion cyffredinol. Roedd y broses ddeddfwriaethol ar gyfer y Bil Partneriaeth Gymdeithasol yn parhau adeg ysgrifennu'r Memorandwm Esboniadol hwn.

**189.** Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol fel y’i drafftiwyd wrth ei gyflwyno i'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol ystyried cyfrifoldeb cymdeithasol wrth wneud gwaith caffael. Mae caffael bwyd cymdeithasol gyfrifol yn gyson iawn ag ethos yr hyn y mae'r Bil Bwyd yn ceisio ei gyflawni.

**190.** Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol gyhoeddi strategaeth gaffael. Os yw'r cyrff cyhoeddus a bennir yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol yr un rhai â'r rhai a bennir yn y Bil Bwyd, gellir cysoni'r gwaith hwn â gofyniad y Bil Bwyd i gyrff cyhoeddus penodol gynhyrchu bwydydd lleol. Er y byddai gan y cynlluniau bwyd lleol gylch gorchwyl ehangach na'r strategaethau caffael, byddai ystyried y cynlluniau a’r strategaethau gyda'i gilydd yn cadw adnoddau gwerthfawr ac yn helpu i gael mwy o ddarlun llawn o’r materion bwyd lleol.

**191.** Bydd unrhyw newidiadau i'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol wrth iddo basio drwy'r Senedd yn cael eu hystyried i sicrhau bod y ddau Fil yn parhau i gyd-fynd â’i gilydd.

# 4. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham

**192.** Mae cwmpas y Bil yn cynnwys y meysydd a ganlyn, sy'n cael eu trafod yn fanylach drwy gydol y Memorandwm Esboniadol hwn:

- Cyflwyno 'nodau bwyd': gan gynnwys 'nod bwyd sylfaenol' i roi dyletswydd gyffredinol ar waith ar gyfer darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol ; a ategir gan 'nodau bwyd eilaidd' mewn meysydd penodol. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod 'targedau' ar gyfer pob un o'r nodau bwyd eilaidd.

- Sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru: gan gynnwys pwerau i fonitro cynnydd, ac adrodd ar gynnydd tuag at ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymrwymiadau statudol, ac i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r nodau bwyd a'r cynlluniau bwyd.

- Strategaeth Fwyd Genedlaethol a Chynlluniau Bwyd Lleol: i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes o ran polisi a deddfwriaeth – gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â chytundebau rhyngwladol megis Nodau Datblygu'r Cenhedloedd Unedig – wrth gynllunio polisi bwyd.

**193.** Mae prif amcanion polisi'r Bil wedi'u nodi mewn pedair rhan ar wahân, ac mae pob rhan wedi'i threfnu o dan groesbennawd ac wedi'i rhannu'n adrannau. Mae darpariaethau mwy cyffredinol hefyd wedi'u cynnwys mewn adrannau ar wahân yn y Bil. Ategir y Bil hefyd gan Atodlen sy'n cynnwys rhagor o fanylion am gyfansoddiad a gweithrediad Comisiwn Bwyd Cymru.

## Nodau bwyd a thargedau bwyd

**194.** Prif amcan polisi'r Bil yw darparu bwyd fforddiadwy, iach ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl nawr ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae sefydlu "nodau bwyd" yn y rhan agoriadol o'r Bil yn darparu mecanwaith i helpu i gyflawni'r prif amcan polisi hwnnw.

**195.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer pob un o'r nodau bwyd eilaidd. Defnyddio'r targedau hyn fydd y prif fecanwaith yn y Bil ar gyfer mesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni pob un o'r nodau bwyd eilaidd.

## Nodau bwyd

**196.** Mae'r Bil yn nodi'r nodau bwyd mewn dau gategori:

- Nod bwyd sylfaenol: dyma'r nod cyffredinol, sef darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru.
- Nodau bwyd eilaidd: mae'r rhain yn ategu'r nod bwyd sylfaenol ac yn cwmpasu meysydd penodol, gan gynnwys: Llesiant economaidd, iechyd a chymdeithasol, addysg, yr amgylchedd a gwastraff bwyd.

**197.** Nodir y nodau bwyd eilaidd yn y tabl isod:

***Tabl 1: Nodau bwyd eilaidd***

| Nod bwyd eilaidd | Disgrifiad |
|---|---|
| Llesiant economaidd | Creu cyfleoedd economaidd newydd drwy hybu bwyd a gynhyrchir yn lleol.<br><br>Hybu datblygiad economaidd, cymdeithasol a chymunedol cynaliadwy.<br><br>Annog cysylltiadau gwell rhwng cynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr. |
| Iechyd a chymdeithasol | Lleihau diffyg maeth, tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd.<br><br>Lleihau gordewdra.<br><br>Annog dosbarthiad teg o fwyd iach a chynaliadwy mewn cymunedau.<br><br>Hybu manteision llesiant cymdeithasol bwyd, er enghraifft drwy dyfu cymunedol a thrwy randiroedd.<br><br>Hybu pwysigrwydd bwyta bwyd iach er mwyn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. |

| Nod bwyd eilaidd | Disgrifiad |
|---|---|
| Addysg | Cynyddu ansawdd a hygyrchedd darpariaeth addysgol ar faterion sy’n ymwneud â bwyd.<br><br>Datblygu sgiliau bwyd er mwyn sicrhau deiet gwell ac iachach a llesiant gwell. |
| Yr amgylchedd | Lleihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu, prosesu a bwyta bwyd.<br><br>Gwella ac adfywio'r amgylchedd naturiol drwy gynhyrchu bwyd.<br><br>Adfer a chynnal bioamrywiaeth a chynefinoedd drwy gynhyrchu bwyd.<br><br>Hybu system fwyd sy'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac sy’n addasu iddo ac sy’n lleihau ôl-troed amgylcheddol byd-eang Cymru. |
| Gwastraff bwyd | Lleihau gwastraff bwyd ar draws y system fwyd, gan gynnwys gwastraff bwyd gan gynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr. |

**198.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar "gyrff cyhoeddus" i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd (gweler adran 1). At ddibenion y Bil, ystyr "cyrff cyhoeddus" yw Gweinidogion Cymru, awdurdod lleol, neu Fwrdd Iechyd Lleol. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer diwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus yn y dyfodol os ystyrir bod angen gwneud hynny, ac mae'n darparu proses benodol ar gyfer hynny (gweler adran 22 o'r Bil). Nid yw'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddileu eu hunain o'r diffiniad hwn.

**199.** Mae'r nodau bwyd yn debyg o ran arddull ac effaith i'r "nodau llesiant" a nodir yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn yr un modd ag y mae'r 'nodau llesiant' wedi’u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r

nodau bwyd yn rhan annatod o'r Bil, ac mae’n rhaid eu hystyried wrth ymgymryd â dyletswyddau eraill o dan y Bil (megis datblygu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol).

**200.** Roedd trafodaethau manwl â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil yn glir y byddai sefydlu 'nodau bwyd' yn y Bil, fel thema gyffredinol i glymu'r cynigion at ei gilydd, yn hanfodol wrth gyflawni nodau'r Bil. Cytunodd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft â chynnwys nodau bwyd a'r rhan fwyaf (59 y cant) â chynnwys nod bwyd sylfaenol a ategir gan nodau bwyd eilaidd. Ni wnaeth traean (33 y cant) o’r ymatebwyr fynegi barn glir. O’r rhai a wnaeth fynegi barn glir, roedd 88 y cant yn cefnogi’r cynigion yn y Bil drafft.

## Gosod targedau

**201.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer pob un o'r nodau bwyd eilaidd. Mae’n rhaid i'r targedau hyn bennu (a) safon sydd i'w chyrraedd, y mae'n rhaid bod modd ei mesur, a (b) dyddiad erbyn pryd y dylid cyflawni'r targed hwnnw.

**202.** Mae gosod targedau megis y rhain yn arfer cyffredin ac mae i’w weld mewn llawer o Ddeddfau. Nodir enghraifft ddiweddar o ddefnyddio targedau o'r fath ym Mhennod 1 o **Ddeddf yr Amgylchedd 2021**, a basiwyd gan Senedd y DU. Mae dull tebyg i'w weld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n nodi cyfres o nodau, a ategir gan gerrig milltir (er eu bod yn anstatudol) a dangosyddion cenedlaethol. Defnyddio targedau yw'r prif fecanwaith yn y Bil ar gyfer helpu i sicrhau bod safonau penodedig yn cael eu cyrraedd yn erbyn pob un o'r nodau bwyd eilaidd.

**203.** Bydd targedau'n cael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth, sef rheoliadau. Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y rheoliadau hyn, a byddant yn cynnwys manylion am y safon sydd i’w chyrraedd a sut y bydd yn cael ei mesur. Mae’n rhaid i'r rheoliadau cyntaf sy'n gosod un neu fwy o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd gael eu gwneud o fewn 24 mis i'r adran berthnasol o'r Bil ddod i rym.

**204.** Nodir y broses benodol ar gyfer gosod y targedau yn adran 5 o'r Bil. Mae'r broses hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, cyn gwneud y rheoliadau, i ofyn am gyngor gan Gomisiwn Bwyd Cymru (a gaiff ei sefydlu drwy'r Bil hwn), a chan bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn annibynnol ac sydd ag arbenigedd perthnasol. Bydd cynnwys y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod elfen annibynnol yn cael ei chynnwys wrth osod y targedau penodol.

**205.** Mae adran 6 o'r Bil yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud ag adrodd ar y targedau a osodwyd. Mae cynnwys gofynion adrodd yn elfen bwysig o'r Bil, gan ei bod yn darparu'r mecanwaith ar gyfer gwaith craffu ac atebolrwydd am y cynnydd a wneir wrth gyflawni'r targedau a osodwyd.

**206.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi a yw'r targedau wedi'u cyflawni ai peidio. Os na chyflawnwyd y targedau, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio yn y datganiad pam nad yw'r targed wedi'i gyflawni a pha gamau sydd wedi'u cymryd, a pha rai a gaiff eu cymryd, i sicrhau y cyflawnir y targed cyn gynted â phosibl.

**207.** Er mwyn helpu i sicrhau bod y targedau a osodir yn unol â'r Bil yn parhau i fod yn berthnasol ac yn fesuradwy, mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r targedau y maent wedi'u gosod. Prif ddiben yr adolygiad yw asesu a fyddai cyflawni'r targed yn cyfrannu'n sylweddol at y nod bwyd sylfaenol ac, os ystyrir na fyddai'n gwneud hynny, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru nodi'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau y bydd yn gwneud hynny (drwy ddiwygio'r targed).

**208.** Mae'r Bil yn darparu i'r adolygiad cyntaf o'r targedau gael ei gynnal o fewn 5 mlynedd i'r ddarpariaeth ddod i rym, gydag adolygiadau dilynol yn cael eu cwblhau o fewn 5 mlynedd i gwblhau'r adolygiad blaenorol. Mae'n rhaid i bob adolygiad gael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

**209.** Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylid cynnwys targedau fel ffordd o fesur cynnydd yn erbyn y nodau bwyd eilaidd. Dim ond 6 y cant oedd yn anghytuno, gyda 43 y cant heb fynegi barn glir. Roedd mwyafrif helaeth (89 y cant) o'r rhai a fynegodd farn glir yn cytuno â chynnwys targedau.

## Gweithredu'r nodau bwyd a'r targedau

**210.** Bydd y nodau bwyd a'r targedau cysylltiedig yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â rhanddeiliaid, cynhyrchwyr bwyd a defnyddwyr bwyd, yn gallu dadansoddi canlyniadau'r strategaeth fwyd genedlaethol a'r cynlluniau bwyd lleol yn glir.

**211.** Byddant yn caniatáu i lunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant asesu pa mor gynaliadwy a gwydn yw cynhyrchu bwyd yng Nghymru, er enghraifft, pa mor dda y byddai cynhyrchwyr yn gallu ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil newid hinsawdd, a pha effaith y bydd hyn yn ei chael ar lesiant Cymru yn y dyfodol.

**212.** Bydd mwy o gasglu data hefyd yn caniatáu atebolrwydd gwell yn y system fwyd. Er enghraifft, bydd y nodau bwyd a'r targedau cysylltiedig yn galluogi asesiad gwell o'r ffordd y defnyddir bwyd a gynhyrchir yng Nghymru, a faint o gynnyrch sy'n cael ei wastraffu. Bydd hyn yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau gan y bydd yn ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau nodi meysydd lle y mae'r system fwyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at nodau Llywodraeth Cymru yn ehangach a meysydd lle y gallai'r system fwyd wella.

**213.** Rydym yn byw mewn cyfnod cythryblus gydag un mater mawr ar ôl y llall yn cael effaith sylweddol ar ein cadwyn gyflenwi bwyd – Brexit, pandemig Covid, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Mae cadwyn fwyd wydn yn ymddangos yn bwysicach nawr nag erioed. Oherwydd hyn, hoffwn i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau o dan y Bil hwn i osod targedau ar gyfer cadwyn fwyd wydn a chynaliadwy a fyddai'n sicrhau hyrwyddo nifer o'r nodau bwyd.

**214.** Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i sicrhau bod y targedau wedi'u gosod mewn ffordd sydd wir yn hyrwyddo'r nodau bwyd. Mae'r Bil yn galluogi targedau CAMPUS - cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol. Er nad yw'n briodol gosod targedau na ellir eu cyflawni, dylai nodau fod yn uchelgeisiol ac yn ddigon beiddgar i ganiatáu hyrwyddo'r nodau bwyd.

**215.** Cyn gwneud y rheoliadau sy'n gosod y targedau, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn Bwyd (gweler isod) a chan bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn annibynnol ac sydd ag arbenigedd perthnasol. Mater i Weinidogion Cymru yw penderfynu pwy yw'r personau hyn. Dylai ymgynghoriad o'r fath fod yn eang a chynnwys yr ystod eang o randdeiliaid sydd â buddiant mewn materion bwyd. Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil fod toreth o wybodaeth ac arbenigedd ar faterion bwyd yng Nghymru y dylai'r broses gosod targedau eu cofleidio i sicrhau bod y targedau'n gywir.

**216.** Nid yw targedau wedi'u nodi ar wyneb y Bil oherwydd y byddai hyn yn rhy anhyblyg i alluogi adolygu targedau a'u diwygio i ymateb mewn modd amserol i newidiadau mewn amgylchiadau. Mae datblygu deddfwriaeth sylfaenol yn ymgymeriad sylweddol ac nid yw'n bosibl cyfiawnhau'r adnoddau sydd eu hangen i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol pan fo diwygio'r targedau drwy is-ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer proses fwy effeithlon, sy'n paarhau i fod yn agored i waith craffu gan y Senedd.

**217.** Mae gan gyrff cyhoeddus adnoddau cyfyngedig, ac nid yw’n ddymunol dyblygu targedau drwy'r broses a nodir yn y Bil. Os oes targedau presennol (er enghraifft, rhai sydd eisoes wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ar wahân) sy'n addas ac sy'n bodloni gofynion y Bil, gellid defnyddio neu gyfeirio'r rhain mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn. Mater i Weinidogion Cymru fydd penderfynu ar hyn yng nghyd-destun gofynion y Bil.

**218.** Mae'n ofynnol i'r rheoliadau sy'n gosod y targedau nodi dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw darged a osodir. Ar y dyddiad hwn, neu cyn hynny, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod, gerbron y Senedd, ddatganiad yn datgan pa un a yw'r targedau wedi'u cyflawni ai peidio. Dyma’r isafswm gofyniad yn fy marn i. Fel y mae’r blynyddoedd diwethaf wedi dangos, gall materion annisgwyl godi sy'n effeithio ar ein diogeledd bwyd a'r system fwyd yn gyffredinol. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal Gweinidogion Cymru rhag darparu diweddariadau interim ar y cynnydd yn erbyn y targedau. Rwy’n gobeithio y byddai diweddariadau o'r fath yn cael eu darparu i'r Senedd pan fernir eu bod yn angenrheidiol er budd y cyhoedd ac er budd cenedlaethol.

**219.** Mae'r Bil yn darparu i'r targedau gael eu hadolygu o leiaf bob pum mlynedd. Eto, dyma’r isafswm gofyniad yn fy marn i. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu targed neu dargedau ar ôl cyfnod byrrach pe bai hynny'n cael ei farnu’n angenrheidiol.

## Comisiwn Bwyd Cymru

**220.** Mae sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru (y Comisiwn) yn rhan allweddol o'r Bil. Bydd y Comisiwn yn ailosod llywodraethiant y system fwyd yng Nghymru, a bydd yn cyd-greu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno strategaeth fwyd genedlaethol ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill.

**221.** Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr (67 y cant) i’r ymgynghoriad ar y Bil yn cefnogi'r angen am Gomisiwn Bwyd Cymru, ac ni wnaeth dros chwarter (27 y cant) fynegi barn glir. O'r rhai a fynegodd farn glir, roedd y mwyafrif helaeth (92 y cant) o blaid sefydlu Comisiwn.

### Sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru

**222.** Mae adran 8 o'r Bil yn sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru neu the Welsh Food Commission ac mae adran 9 yn nodi ei amcanion. Amcanion y Comisiwn yw hybu a hwyluso:

- hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd gan gyrff cyhoeddus;
- cyflawni’r targedau bwyd.

**223.** Rhestrir swyddogaethau’r Comisiwn yn Adran 10. Maent fel a ganlyn:

- datblygu, a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddatblygu, polisïau mewn perthynas â materion bwyd;
- cynghori, hysbysu a chynorthwyo cyrff cyhoeddus, a phersonau eraill, mewn perthynas â materion bwyd;
- rhoi gwybodaeth ddigonol i’r cyhoedd am faterion sy’n effeithio’n sylweddol ar eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am faterion bwyd, a rhoi cyngor iddynt mewn perthynas â’r materion hynny;
- darparu trosolwg ac adolygiad o berfformiad y gwaith o arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus mewn perthynas â’r nodau bwyd a’r targedau bwyd;
- craffu ar y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol;
- gweithredu fel ymgynghorai i Weinidogion Cymru pan fydd y nodau bwyd i gael eu diwygio;
- rhoi cyngor i Weinidogion Cymru wrth iddynt adolygu targedau bwyd.

## Rheoli Comisiwn Bwyd Cymru

**224.** Mae'r Atodlen i'r Bil yn nodi’r manylion am sut y bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn gweithredu.

### Rhan 2: Aelodaeth

**225.** Bydd y Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd a rhwng pump a saith aelod arall, a chaiff pob un ohonynt eu penodi gan Weinidogion Cymru. Cyn penodi'r Cadeirydd, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd. Cyn penodi'r aelodau eraill, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cadeirydd a’r Senedd.

**226.** Wrth benodi unigolyn, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod gan aelodau ystod o sgiliau a phrofiadau.

**227.** Caiff Gweinidogion Cymru bennu'r telerau aelodaeth, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Atodlen, sy'n cynnwys uchafswm cyfnod aelodaeth o bum mlynedd ac mai dim ond unwaith y caniateir i unigolyn gael ei ailbenodi'n aelod.

**228.** Ni chaniateir penodi unigolyn yn aelod o'r Comisiwn os yw'n Aelod o'r Senedd, Senedd y DU, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, neu os yw'n aelod o nifer o gyrff cyhoeddus penodedig eraill, neu os yw wedi'i benodi i swyddi cyhoeddus penodol. Mae'r rhestr lawn i'w gweld ym mharagraff 4 o'r Atodlen.

**229.** Caiff unigolyn ymddiswyddo o'r Comisiwn drwy roi tri mis o hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

**230.** Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo unigolyn fel aelod os daw'r unigolyn yn fethdalwr nad yw wedi'i ryddhau neu os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon bod yr unigolyn yn anaddas i barhau i fod yn aelod.

**231.** Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl, lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth) ac arian rhodd i aelodau o'r Comisiwn. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd dalu neu gyfrannu at bensiynau i unigolion a fu'n aelodau o'r Comisiwn. Mae rhagor o wybodaeth ym mharagraff 6 o'r Atodlen.

### Rhan 3: Materion gweithredol

**232.** Caiff y Comisiwn wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei farn ef mewn cysylltiad â'i swyddogaethau.

**233.** Caiff y Comisiwn benodi staff i gyflawni ei swyddogaethau. Caiff dalu tâl, lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth) ac arian rhodd i aelodau o staff. Caiff y Comisiwn hefyd dalu neu gyfrannu at bensiynau i unigolion a fu'n aelodau o staff.

**234.** Mae'n rhaid i'r Comisiwn gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer:

- nifer y staff y caniateir eu penodi;
- telerau ac amodau'r staff;
- taliadau sydd i'w gwneud i'r staff, fel uchod.

**235.** Caiff y Comisiwn reoleiddio ei weithdrefnau ei hun (gan gynnwys unrhyw gworwm).

**236.** Caiff y Comisiwn sefydlu pwyllgorau, a all gynnwys aelod nad yw'n aelod o'r Comisiwn. Mae gan yr unigolyn hwnnw yr hawl i gael tâl a threuliau fel y'u pennir gan y Comisiwn. Caiff y Comisiwn reoleiddio gweithdrefnau (gan gynnwys unrhyw gworwm) mewn cysylltiad ag unrhyw bwyllgor a sefydlir ganddo.

**237.** Caiff y Comisiwn ddirprwyo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau i un (neu rai) o'i aelodau, pwyllgor a sefydlir ganddo, neu aelod o'i staff. Caiff ddirprwyo awdurdodiad yn gyffredinol neu'n gyfyngedig i swyddogaeth o dan amgylchiadau penodol, ac nid yw'n effeithio ar gyfrifoldeb y Comisiwn ar gyfer y swyddogaeth honno.

**238.** Er mwyn ariannu gwaith y Comisiwn, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu'r Comisiwn fel y bo'n briodol yn eu barn hwy.

**Rhan 4: Cynlluniau, adroddiad a chyfrifon**

**239.** Cyn dechrau ail flwyddyn ariannol y Comisiwn, ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol, mae'n rhaid i'r Comisiwn lunio cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno ac, er mwyn sicrhau tryloywder, osod copi o'r cynllun gerbron y Senedd.

**240.** Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Mae'n rhaid i'r Comisiwn anfon copi o'r adroddiad hwn at Weinidogion Cymru a gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

**241.** Caiff y Comisiwn osod copi o unrhyw adroddiad arall a lunnir ganddo gerbron y Senedd.

**242.** Mae'n rhaid i'r Comisiwn gadw cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru (gweler paragraff 16 o'r Atodlen).

**243.** Mae'n rhaid cyflwyno'r cyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn eu harchwilio ac, o fewn pedwar mis i'w cyflwyno, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio ac ardystio'r cyfrifon hynny ac adrodd arnynt, a gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad cysylltiedig gerbron y Senedd. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron y Senedd ar ôl y terfyn amser 4 mis os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni'r terfyn amser hwnnw. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu datganiad gerbron y Senedd yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol gosod copi

o'r cyfrifon, ac mae’n rhaid iddo osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw.

**244.** Mae’n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi’i fodloni, yr aethpwyd yn gyfreithiol i’r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef ac yn unol â'r awdurdod sy'n llywodraethu’r gwariant, a bod y Comisiwn wedi gwneud trefniadau priodol i ddefnyddio adnoddau’r Comisiwn yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Gweithredu Comisiwn Bwyd Cymru

**245.** Mae sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru yn rhan allweddol o'r Bil. Bydd y Comisiwn yn ailosod llywodraethiant y system fwyd yng Nghymru, ac yn cyd-greu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno strategaeth fwyd genedlaethol ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill. Fel y cyfryw, bydd y Comisiwn yn helpu i sicrhau dull mwy cydlynol o ran trafodaethau ar bolisi bwyd yng Nghymru, yn ogystal â dwyn llinynnau polisi trawsbynciol gwahanol ynghyd (megis y Weledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod, y Bil Amaethyddiaeth a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach).

**246.** Disgwylir y bydd y Comisiwn yn goruchwylio’r gwaith o gyflawni’r strategaeth fwyd genedlaethol, ac yn dwyn partneriaid cyflawni i gyfrif i sicrhau y bodlonir targedau nodau bwyd a nodau polisi. Caiff y Comisiwn hefyd ddefnyddio ei rôl i feithrin arbenigedd a chapasiti polisi yng Nghymru, a gweithio gyda’r sectorau addysg uwch ac addysg bellach i gynnal ymchwil i ffyrdd o ddatblygu’r sector bwyd ymhellach.

**247.** Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn wrth ddatblygu’r strategaeth genedlaethol. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil, dywedodd rhanddeiliaid y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am arwain ar ddatblygiad y strategaeth fwyd genedlaethol. Fel y Weithrediaeth, mae'n angenrheidiol bod Gweinidogion Cymru yn arwain ar yr hyn fydd yn strategaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn ymarferol rwy'n rhagweld y bydd datblygu'r strategaeth yn seiliedig, i raddau helaeth, ar gyd-greu gyda'r Comisiwn a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â chyfranogiad ehangach y cyhoedd.

**248.** Mae'n bwysig bod cyfansoddiad y Comisiwn yn cynrychioli buddiannau ar draws sectorau gwahanol ac yn adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru a’i daearyddiaeth. Dylai'r Comisiwn gynrychioli o leiaf y canlynol:

- y diwydiant amaethyddiaeth;

- y diwydiant bwyd a diod;
- y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol;
- y sector addysg;
- sefydliadau'r amgylchedd a byd natur;
- sefydliadau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thlodi bwyd;
- sefydliadau bwyd cymunedol.

**249.** Mae'r Bil yn caniatáu i'r Cadeirydd ac aelodau o'r Bwrdd wasanaethu hyd at ddau dymor o bum mlynedd. Mae hyn yn taro cydbwysedd rhwng cynnal parhad a chofleidio syniadau newydd. Mae hefyd yn caniatáu digon o amser i'r Cadeirydd a phob aelod o'r Bwrdd greu effaith yn eu rolau ar y Comisiwn, gan sicrhau nad yw unigolion yn aros yn eu hunfan yn rhy hir ac yn galluogi penodi pobl newydd â syniadau newydd i'r Bwrdd.

**250.** Mae'n annhebygol o ragweld senario lle y mae'r Cadeirydd a phob aelod o'r Bwrdd yn gadael y Comisiwn ar yr un pryd, gan golli llwyth o wybodaeth a phrofiad mewn cyfnod byr. Mae'n bosibl na chaiff rhai aelodau eu hailbenodi ar ôl y tymor pum mlynedd cyntaf a gall eraill adael yn ystod tymor. Dylai Gweinidogion Cymru a'r Senedd fod yn ymwybodol o gadw'r cydbwysedd rhwng parhad a syniadau newydd wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Bil yn ystod y broses benodi.

**251.** Er mwyn helpu i gyflawni ei ddyletswyddau, gallai'r Comisiwn ofyn am gymorth a chyngor gan Gomisiynau, Comisiynwyr a sefydliadau tebyg eraill yng Nghymru. Byddwn yn disgwyl i'r Comisiwn gydweithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**252.** At hynny, dylid grymuso'r Comisiwn i weithio gyda chyfranogwyr perthnasol ar draws y DU, Ewrop ac ymhellach i gyflawni ei ddyletswyddau, ac i wneud cynnydd ar hyrwyddo egwyddorion cyffredinol y system fwyd.

**253.** Bydd y Comisiwn yn cael cyllideb, fel y cytunwyd arni gan Weinidogion Cymru, i gyflogi staff ac i brynu asedau i hwyluso ei ddyletswyddau. Rwy'n disgwyl i bwyllgorau'r Senedd graffu ar y Comisiwn yn ystod eu busnes.

## Strategaeth fwyd genedlaethol

**254.** Mae trafodaethau manwl â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil yn dangos bod nifer aruthrol yn teimlo nad yw strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â bwyd yn ddigon cydgysylltiedig.

**255.** Er y bydd y Comisiwn yn ailosod llywodraethiant ar gyfer y system fwyd, bydd y strategaeth fwyd genedlaethol yn cynnig dull cyfannol a chyffredinol sy'n angenrheidiol i dynnu polisïau a strategaethau ynghyd ar gyfer system fwyd Cymru gyfan.

**256.** Roedd mwyafrif helaeth (78 y cant) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil yn cytuno bod angen strategaeth fwyd genedlaethol, dim ond dau ymatebwr (4 y cant) oedd yn anghytuno. Mae'r mwyafrif yn cynyddu i 95 y cant pan fydd y rhai na roddodd ateb clir yn cael eu dileu.

**257.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth fwyd genedlaethol sy'n nodi'r strategaeth gyffredinol a'r polisïau unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd (y nodir manylion amdanynt yn gynharach yn y Memorandwm Esboniadol hwn).

**258.** Byddai'n ofynnol wedyn i 'gyrff cyhoeddus' penodedig – fel y'u nodir yn adran 22 o'r Bil – roi sylw i'r strategaeth fwyd genedlaethol wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r nod bwyd sylfaenol, y nodau bwyd eilaidd, a'r targedau bwyd.

**259.** Er bod y Bil yn gosod y ddyletswydd i gyhoeddi'r strategaeth ar Weinidogion Cymru, mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan Gomisiwn Bwyd Cymru cyn llunio'r strategaeth. At hynny, mae'r Bil yn dweud y caiff Gweinidogion Cymru geisio cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar sut i gysoni'r strategaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (er nad yw hyn yn ofyniad).

**260.** Cyn gwneud y strategaeth, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ymgynghori â phersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol, ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

## Adrodd ar y strategaeth fwyd genedlaethol

**261.** Mae’n rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd, a chyhoeddi, adroddiad sy'n asesu effeithiolrwydd y strategaeth fwyd genedlaethol ac, yn benodol, nodi'r cyfraniad y mae wedi'i wneud tuag at:

- hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd, a
- chyflawni’r targedau bwyd.

**262.** Cyn gwneud adroddiad ar y strategaeth fwyd genedlaethol, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru.

**263.** Mae’n rhaid llunio adroddiadau o dan yr adran hon cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y ddwy flynedd gan ddechrau â’r diwrnod y cyhoeddir y strategaeth gyntaf, a phob cyfnod dilynol o ddwy flynedd.

## Adolygu'r strategaeth fwyd genedlaethol

**264.** Cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau â’r diwrnod y cyhoeddir y strategaeth gyntaf, ac yna ym mhob cyfnod dilynol o bum mlynedd, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth fwyd genedlaethol.

**265.** Yn dilyn adolygiad, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio’r strategaeth fel y bo’n briodol yn eu barn hwy.

## Gweithredu'r strategaeth fwyd genedlaethol

**266.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio strategaeth fwyd genedlaethol Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid eraill. Bydd yn darparu fframwaith cyffredinol strategol mawr ei angen sy'n integreiddio polisïau sy'n ymwneud â'r system fwyd ar draws nifer o adrannau Llywodraeth Cymru.

**267.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn Bwyd ac ymgynghori â phersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol, a phersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Rwy'n disgwyl i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ddigwydd ar sail cydgynhyrchu â phartïon â buddiant ar draws y system fwyd a gwaith ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â'r cyhoedd. Dylai hyn yn sicr fod yn ddull tîm Cymru.

**268.** At hynny, mae’r Bil yn dweud y caiff Gweinidogion Cymru hefyd geisio cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar sut i gysoni'r strategaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Er nad yw hyn yn ofyniad, yn ysbryd cyd-greu, byddwn yn disgwyl i'r Comisiwn Bwyd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol weithio'n agos ar ddatblygu'r strategaeth fwyd genedlaethol.

**269.** Mae’n rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd, a chyhoeddi, adroddiad sy'n asesu effeithiolrwydd y strategaeth fwyd genedlaethol o leiaf bob dwy flynedd o'r dyddiad y caiff ei chyhoeddi gyntaf. Fel y datganwyd yn flaenorol, gall materion annisgwyl godi sy'n effeithio ar ein diogeledd bwyd a'r system fwyd yn gyffredinol. Nid yw'r Bil yn atal Gweinidogion Cymru rhag darparu diweddariadau interim ar effeithiolrwydd y strategaeth os bernir bod hyn yn angenrheidiol er budd y cyhoedd ac er budd cenedlaethol.

**270.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth o leiaf bob pum mlynedd. Cânt adolygu'r strategaeth ar ôl cyfnod byrrach os bernir ei bod yn angenrheidiol.

## Cynlluniau bwyd lleol

**271.** Mae cefnogaeth eang i gynlluniau bwyd lleol ymhlith rhanddeiliaid. Roedd mwyafrif helaeth (71 y cant) o'r ymatebwyr i’r ymgynghoriad ar y Bil yn cytuno bod angen cynlluniau bwyd lleol. Mae'r mwyafrif yn cynyddu i 92 y cant pan fydd y rhai na roddodd ateb clir yn cael eu dileu.

**272.** Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru) gyhoeddi cynllun bwyd lleol sy'n nodi'r polisïau y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyfrannu at hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd (y nodir manylion amdanynt yn gynharach yn y Memorandwm Esboniadol hwn).

**273.** Byddai’n ofynnol wedyn i’r cyrff cyhoeddus hynny roi sylw i'r cynllun bwyd lleol wrth arfer swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r nod bwyd sylfaenol, y nodau bwyd eilaidd, a'r targedau bwyd.

**274.** Cyn gwneud y cynlluniau bwyd lleol, caiff corff cyhoeddus ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, neu unrhyw bersonau eraill y mae’n ystyried eu bod yn briodol. Wrth lunio cynllun, mae’n rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i’r strategaeth fwyd genedlaethol.

## Adrodd ar gynlluniau bwyd lleol

**275.** Mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gyhoeddi adroddiad sy'n asesu effeithiolrwydd ei gynllun bwyd lleol, ac yn benodol, y cyfraniad y mae wedi'i wneud tuag at:

- hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd;
- cyflawni'r targedau bwyd.

**276.** Cyn gwneud adroddiad ar ei gynllun bwyd lleol, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru.

**277.** Mae'n rhaid llunio adroddiadau o dan yr adran hon cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y ddwy flynedd gan ddechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y cynllun bwyd lleol cyntaf, a phob cyfnod dilynol o ddwy flynedd.

## Adolygu'r cynlluniau bwyd lleol

**278.** Cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y cynllun bwyd lleol cyntaf gan gorff cyhoeddus, ac yna ym mhob cyfnod dilynol o bum mlynedd, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus adolygu ei gynllun bwyd lleol.

**279.** Yn dilyn adolygiad, mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus ddiwygio'r cynllun fel y mae'n ystyried yn briodol.

## Gweithredu'r cynlluniau bwyd lleol

**280.** Bydd y Bil yn helpu i ddarparu system fwyd fwy cynaliadwy, leol drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, a ddiffinnir yn y Bil fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, ddatblygu cynlluniau bwyd lleol.

**281.** Bydd cynlluniau bwyd lleol yn rhoi hwb i'r sector bwyd a diod yng Nghymru drwy gryfhau cydnerthedd cadwyni cyflenwi lleol, gan greu cyfleoedd economaidd newydd mewn cymunedau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus lleol yn caffael mwy o fwyd a gynhyrchir yn lleol, a gwella'r amgylchedd lleol drwy ganolbwyntio ar gynhyrchu cynnyrch mwy cynaliadwy. Gallant hefyd edrych ar ffyrdd o wella iechyd y cyhoedd a llesiant lleol, gan gynnwys prosiectau tyfu cymunedol a rhaglenni cymorth wedi'u teilwra i'r rhai sydd mewn perygl o dlodi bwyd a diffyg maethiad.

**282.** Byddai cynlluniau bwyd lleol yn adeiladu ar yr arferion da sydd eisoes yn digwydd ar draws Cymru a byddent yn annog cymunedau lleol eraill i archwilio sut y gallant gryfhau'r cysylltiad rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr yn eu hardal.

**283.** Er enghraifft, mae **Strategaeth Bwyd Da** Bwyd Caerdydd, a gydgynhyrchwyd gan bron 2,500 o unigolion a sefydliadau yn y ddinas, yn ceisio creu Caerdydd iach ac amgylcheddol gynaliadwy, economi leol ffyniannus, system fwyd deg a chysylltiedig a mudiad bwyd grymusol.

**284.** Mae **Cynllun Gweithredu Datblygu Bwyd** Cyngor Sir Fynwy yn ceisio cynyddu cyfleoedd cyflogaeth lleol a chreu cyfoeth, yn ogystal â lleihau milltiroedd bwyd amgylcheddol.

**285.** Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei Strategaeth Bwyd Cymunedol. Er nad oes llawer o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd, deellir y bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar brosiectau bwyd cymunedol yn benodol. Bydd y cynlluniau bwyd lleol sy'n cael eu llunio o dan y Bil hwn yn ehangach eu cwmpas na'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a byddant yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn ôl anghenion eu hardaloedd lleol.

**286.** Er enghraifft, gellid cysoni cynlluniau bwyd lleol â'r strategaethau caffael corff cyhoeddus sy'n ofynnol o dan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol ac i ddarparu cyfarwyddyd wrth weithredu'n lleol. Fel y cyfryw, bydd y cynlluniau bwyd lleol yn tynnu strategaethau ynghyd sy'n annibynnol ar hyn o bryd er mwyn gwneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng amcanion cenedlaethol a lleol, gan sicrhaupolisi ehangach cydlynol.

**287.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau bwyd lleol ganolbwyntio ar hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau lleol roi sylw i'r strategaeth genedlaethol. Yn y fframwaith hwn, y gobaith yw datblygu cynlluniau bwyd lleol o'r gwaelod i fyny.

**288.** Dylai cynlluniau bwyd lleol gael eu cydgynhyrchu gyda'r bobl y byddant yn eu gwasanaethu. Dylai hyn gynnwys gwaith ymgysylltu cynhwysfawr â grwpiau cymunedol, busnesau, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd. Bydd hyn yn eu hymgorffori yn eu cymunedau ac yn adlewyrchu amgylchiadau unigryw pob rhan o Gymru.

**289.** Lle y maent ar waith, dylai Partneriaethau Bwyd Lleol fod â rôl ganolog wrth weithio gyda chyrff cyhoeddus i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau bwyd lleol. Lle nad yw

Partneriaethau Bwyd Lleol ar waith, dylai eu sefydlu gael blaenoriaeth yn y cynlluniau bwyd lleol.

**290.** Mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus adrodd ar effeithiolrwydd eu cynlluniau bwyd o leiaf bob dwy flynedd o’u dyddiad cyhoeddi cyntaf. Gall materion annisgwyl godi, felly nid yw'r Bil yn atal cyrff cyhoeddus rhag darparu diweddariadau interim os bernir bod hyn yn angenrheidiol.

**291.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adolygu eu cynlluniau bwyd lleol o leiaf bob pum mlynedd. Cânt adolygu'r cynlluniau ar ôl cyfnod byrrach os bernir bod hyn yn angenrheidiol.

**292.** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r adnoddau sydd ar gael i'n cyrff cyhoeddus yn gyfyngedig. Ni ddylai datblygu cynlluniau bwyd lleol ddyblygu polisïau neu weithgareddau presennol sydd eu hangen eisoes o dan ddeddfwriaeth ar wahân. Dylid datblygu cynlluniau bwyd lleol yn unol â gofynion y Bil ond, lle y mae gweithgaredd priodol eisoes, dylai'r cynllun bwyd lleol gael rôl gydgysylltu.

## Ystyr cyrff cyhoeddus

**293.** Mae adran 22 yn diffinio pa bersonau sydd i'w cynnwys yn y diffiniad o gorff cyhoeddus. Mae'r Bil yn nodi mai ystyr corff cyhoeddus yw (a) Gweinidogion Cymru; (b) awdurdod lleol; ac (c) Bwrdd Iechyd Lleol.

**294.** Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o bersonau a ddiffinnir fel corff cyhoeddus drwy ychwanegu person, dileu person neu ddiwygio'r disgrifiad o berson. Fodd bynnag, dim ond os yw'r person hwnnw'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus y caniateir ychwanegu personau newydd.

**295.** Nid yw'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddileu eu hunain o'r diffiniad hwn.

**296.** Cyn gwneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru, unrhyw berson sy'n cael ei ychwanegu at y rhestr, ac unrhyw berson arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

# 5. Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus

## Cefnogaeth gyffredinol i'r Bil

**297.** Drwy gydol cyfnod datblygu’r Bil, mae nifer o sefydliadau ac unigolion â buddiant yn y system fwyd wedi dangos eu diddordeb yn egwyddorion ac amcanion polisi cyffredinol y Bil, a’u cefnogaeth iddynt. Ymhlith eraill, mae'r rhain yn cynnwys Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; y Gynghrair Cefn Gwlad ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig. Cafwyd cefnogaeth ar gyfer nodau cyffredinol y Bil hefyd gan swyddfeydd megis Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**298.** Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y cynigion hyn hefyd, gydag Aelodau o'r Senedd o bleidiau gwleidyddol gwahanol yn nodi eu cefnogaeth bersonol a gwleidyddol ar gyfer nodau cyffredinol y Bil.

## Yr ymgynghoriad cychwynnol ar amcanion polisi'r Bil

**299.** Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein cychwynnol rhwng 4 Tachwedd a 26 Tachwedd i gasglu barn y rhanddeiliaid a'r cyhoedd am y cynigion fel y’u hamlinellir yn y **Memorandwm Esboniadol** gwreiddiol a gyflwynwyd ar 27 Hydref 2022. Cafodd yr ymgynghoriad ei anfon drwy e-bost at nifer o randdeiliaid o bob rhan o'r system fwyd, yn ogystal â'i gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd llywio'r ddadl 'caniatâd i fwrw ymlaen' a nodi ffrydiau gwaith posibl yn y dyfodol i gryfhau'r Bil os bydd wedi ennill cefnogaeth y Senedd.

**300.** Cafwyd 21 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda 17 o'r ymatebwyr (81 y cant) yn cytuno â’r angen am y Bil. Ymatebodd 3 ymatebwr i'r categori 'arall', a nodi sylwadau megis:

> *"Rhai o'r nodau, ie."*
>
> *"Mae'n eiriog iawn ac yn gymhleth iawn ac yn ddryslyd."*
>
> *"Ar yr amod ei fod e hefyd yn ystyried effaith ac angen amgylcheddol."*

**301.** Cafwyd cefnogaeth hefyd i'r prif gynigion gael eu cynnwys yn y Bil:

> *Roedd 16 o'r ymatebwyr (76 y cant) wedi cytuno â'r angen i sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru. O'r rhai a bleidleisiodd yn y categori 'arall', nodwyd y dylai unrhyw Gomisiwn posibl fod â'r adnoddau cywir a*

*chael cylch gorchwyl digon eang i sicrhau ei fod â'r cwmpas angenrheidiol i gael effaith gadarnhaol ar bolisi bwyd Cymru. Nododd ymatebwyr eraill y dylai'r Comisiwn weithio gyda system fwyd y DU gyfan. Yn fwy cyffredinol, awgrymodd yr ymatebwyr y dylai'r Comisiwn gynnwys y system fwyd gyfan, yn ogystal â chysylltu bwyd â meysydd polisi trawsbynciol eraill megis iechyd ac addysg.*

*Cytunodd 14 o'r ymatebwyr (70 y cant) â'r cynnig i gyrff cyhoeddus ddatblygu cynlluniau bwyd. O'r rhai a bleidleisiodd yn y categori 'arall', awgrymwyd y dylai'r cynlluniau fod yn ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd cyffredinol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a bod angen sicrhau bod gan y cynlluniau adnoddau priodol er mwyn sicrhau bod pwrpas iddynt.*

**302.** Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd, roedd canfyddiad cyffredinol bod angen Bil o'r fath a bod gan ei nodau cyffredinol gefnogaeth ehangach. Darparodd yr holiadur feysydd gwaith yn y dyfodol os bydd y Bil yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol, gan gynnwys:

*Byddai ffocws yn cael ei osod ar gryfhau'r cysylltiad rhwng y cynigion a'r angen i sicrhau newid amgylcheddol cadarnhaol, yn ogystal â chydnabod effaith y system fwyd ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth.*

*Byddai ffocws ar symleiddio'r Bil, gan sicrhau bod y darpariaethau i'w cynnwys yn hawdd eu deall ac yn helpu'r ddeddfwriaeth i gyflawni ei hamcanion cyffredinol.*

*Byddai angen drafftio'r Bil mewn ffordd a oedd yn cwmpasu'r system fwyd ehangach, gyda ffocws yn symud i ffwrdd o annog mwy o gynhyrchu bwyd lleol a thuag at y rôl y gall systemau bwyd lleol ei chael wrth wynebu heriau cymdeithasol ehangach.*

*Byddai angen i'r Bil sicrhau nad oedd ei ddarpariaethau'n cael eu hystyried yn fiwrocratiaeth ychwanegol, ac felly mae'n rhaid iddo weithio gyda deddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn osgoi dyblygu diangen.*

**303.** Fodd bynnag, mae'n werth nodi, ers yr ymgynghoriad cychwynnol, fod rhai o'r darpariaethau a awgrymwyd yn wreiddiol wedi'u dileu. Mae cynigion ar gyfer mesurau penodol i'w gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd a siopau perthnasol eraill roi bwyd dieisiau i elusennau a banciau bwyd wedi'u dileu oherwydd anawsterau posibl wrth

orfodi'r polisi hwn ledled Cymru, yn hytrach na ledled y DU. Er gwaethaf hyn, roedd llawer o randdeiliaid yn glir y gellid cryfhau labelu bwyd er mwyn symleiddio a’i gwneud yn haws i ddefnyddwyr nodi cynhyrchion sy'n cael effaith fwy cadarnhaol ar bobl a'r amgylchedd, yn ogystal â lle yn union y mae eu bwyd yn cael ei gynhyrchu a'i brosesu.

**304.** Cafodd cynigion am fesurau i gryfhau labelau bwyd eu dileu oherwydd y gall effaith ymarferol darpariaethau o'r fath fod yn gyfyngedig oherwydd effaith **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020**. Yn hytrach, cafodd cyfeiriadau at wastraff bwyd a gwella gwybodaeth y cyhoedd am faterion sy'n ymwneud â bwyd eu cynnwys yn y Bil fel rhan o'r Nodau Bwyd Eilaidd.

## Trafodaethau bord gron

**305.** Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Senedd i gyflwyno Bil, cynhaliwyd pedwar digwyddiad bord gron gyda rhanddeiliaid arbenigol o bob rhan o'r system fwyd a'r byd academaidd i drafod a mireinio'r cynigion a amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol gwreiddiol. Tynnwyd y rhanddeiliaid hyn o sefydliadau a oedd eisoes wedi cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu’r Bil a'r rhai a nodwyd fel partneriaid allweddol. Nodwyd pedair prif thema'r Bil, gyda thrafodaethau'n seiliedig ar y meysydd hyn:

- Prif egwyddorion y Bil;
- Strwythur a gwaith Comisiwn Bwyd Cymru;
- Nodau a strwythur y Strategaeth Fwyd Genedlaethol a’r Cynlluniau Bwyd Lleol;
- Cynigion ar gyfer 'Nodau Bwyd' i fod yn sail i'r darpariaethau yn y Bil.

**306.** O'r trafodaethau hyn, nodwyd nifer o feysydd posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Bod angen i'r Bil roi fframwaith deddfwriaethol cyffredinol ar waith ar gyfer y system fwyd, gan roi system o nodau a thargedau ar waith gyda mesurau atebolrwydd perthnasol.
- Bod angen integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd yn y Bil, yn ogystal â sicrhau bod y Bil yn helpu Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau newid hinsawdd.

- Na ddylai Comisiwn Bwyd Cymru ddyblygu pwerau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn unig, ond bod angen pwerau digonol ar y Comisiwn i gyflawni'r newid yn y system.
- Roedd angen sicrhau bod gofynion y Strategaeth Fwyd Genedlaethol a'r Cynlluniau Bwyd Lleol yn gyson fel bod y Bil yn gydlynol ac nad oedd y cynlluniau'n dyblygu ei gilydd yn ddiangen.

**307.** O ganlyniad, diwygiwyd y cynigion drafft yn y ffyrdd a ganlyn:

- Cyflwynodd y Bil 'Nodau Bwyd' yn seiliedig ar Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gadarnhau trywydd pethau y dylai'r system fwyd yn ei chyfanrwydd geisio helpu i'w cyflawni. Mae'r nodau'n cynnwys dyletswyddau cysylltiedig ar Lywodraeth Cymru i osod targedau ar y nodau hyn, ac i adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r nodau hyn.
- Fel rhan o'r Nodau Bwyd, roedd Nod Sylfaenol i'w sefydlu gan gyfeirio'n benodol at ddarparu bwyd sy'n gynaliadwy yn economaidd, ynamgylcheddol ac yn gymdeithasol.
- Darparwyd pwerau i Gomisiwn Bwyd Cymru hyrwyddo'r Nodau Bwyd, yn ogystal â chyflawni'r targedau bwyd. Gosodwyd dyletswyddau hefyd yn y Bil i sicrhau yr ymgynghorir â'r Comisiwn i greu'r Cynlluniau Bwyd Cenedlaethol a Lleol, a bod ganddo oruchwyliaeth o'r broses o osod ac adolygu'r targedau bwyd.
- Gwnaed darpariaeth yn y Bil fel bod yn rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol wrth lunio ei Gynllun Bwyd Lleol, ond y caiff cyrff cyhoeddus hefyd ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru a/neu Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel bod y strategaeth a'r cynlluniau'n gyson â'i gilydd.

## Trafodaethau eraill

**308.** Drwy gydol proses y Bil, cynhaliwyd nifer o drafodaethau ag amrywiaeth o randdeiliaid o bob rhan o'r byd academaidd, y system fwyd a meysydd polisi rhyngweithiol megis y sector iechyd i helpu i lywio ei ddatblygiad. Er enghraifft, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd rheolaidd â'r Gweinidog Materion Gwledig a swyddogion o Lywodraeth Cymru i drafod datblygiad y Bil a sut y bydd yn ymgysylltu â pholisi

Llywodraeth Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol wedi'u drafftio fel eu bod yn ategu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ac yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nodau drwy ddarnau newydd o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a gyflwynwyd yn ddiweddar.

**309.** Cafwyd cymorth gan amrywiaeth o randdeiliaid, yn fwyaf nodedig Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cynnig cyngor a chymorth ar sut i gysoni'r Bil â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut y gellir sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru a sut y byddai hyn yn rhyngweithio â Chomisiynwyr presennol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, diwygiwyd y Bil i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy sefydlu Nodau Bwyd – yn debyg i'r Nodau Llesiant – a defnyddiwyd swyddogaethau a dyletswyddau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel sail i lywio ac ehangu swyddogaethau a dyletswyddau Comisiwn Bwyd Cymru.

## Ymgynghoriad ar y Bil drafft

**310.** Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Bil Bwyd (Cymru) drafft, rhwng 18 Gorffennaf ac 16 Medi 2022. Cafwyd 49 o ymatebion, 30 drwy e-bost a 19 drwy arolwg ar-lein.

**311.** Mae **rhestr lawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** wedi'i chyhoeddi, ynghyd â **chrynodeb manwl** o'r ymatebion hynny. Dyma'r prif bwyntiau i ddod i'r amlwg o'r ymgynghoriad:

> *Roedd cefnogaeth gref i brif nodweddion y Bil drafft.*
>
> *Dywedodd ymatebwyr nad yw polisi presennol Llywodraeth Cymru ar fwyd yn ddigon cydgysylltiedig a'u bod i raddau helaeth yn cefnogi'r angen am un dull cyfannol trosfwaol ar gyfer y system fwyd gyfan yng Nghymru.*
>
> *Er bod ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion yn y Bil drafft yn gyffredinol, cafwyd awgrymiadau penodol ynghylch sut y gellid gwella'r Bil mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:*
>
> *dylid cryfhau'r nodau bwyd, yn enwedig o ran yr amgylchedd a newid hinsawdd;*

*dylai fod mwy o ymgynghori a chydweithio â rhanddeiliaid a'r cyhoedd wrth ddatblygu'r targedau, y strategaeth fwyd genedlaethol, a chynlluniau bwyd lleol;*

*gallai fod gan y Comisiwn Bwyd Cymru arfaethedig rôl gryfach o ran datblygu'r targedau a'r strategaeth fwyd genedlaethol; a*

*dylai fod mwy o hyblygrwydd i ganiatáu gwaith adrodd ac adolygu mwy rheolaidd mewn perthynas â'r targedau, y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol.*

## Sut y mae'r fersiwn derfynol o'r Bil yn wahanol i'r Bil drafft

**312.** Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a diwygiwyd y Bil mewn nifer o feysydd.

### Nodau bwyd

**313.** O'r ymatebion, nodwyd yr ystyrir bod 'cynaliadwyedd' fel arfer yn cynnwys tair elfen: economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol. Soniodd y nod bwyd sylfaenol a gynhwysir yn y Bil drafft am ddwy o'r rhain, sef 'economaidd ac amgylcheddol'. Felly, mae'r nod bwyd sylfaenol hwn wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at yr elfen 'gymdeithasol' o gynaliadwyedd.

**314.** Mae'r nodau bwyd eilaidd wedi'u cryfhau mewn nifer o feysydd mewn ymateb uniongyrchol i rai o'r galwadau a gafwyd yn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu elfennau at ddisgrifiadau nifer o'r nodau bwyd eilaidd. Dyma'r elfennau a ychwanegir:

Nod Iechyd a Chymdeithasol:

- Annog dosbarthiad teg o fwyd iach a chynaliadwy o fewn cymunedau
- Hybu manteision llesiant cymdeithasol bwyd, er enghraifft drwy dyfu cymunedol a thrwy randiroedd
- Hybu pwysigrwydd bwyta bwyd iach er mwyn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol

Nod Addysg:

- Datblygu sgiliau bwyd er mwyn sicrhau deiet gwell ac iachach a llesiant gwell

Nod yr Amgylchedd:

- Gwella ac adfywio'r amgylchedd naturiol drwy gynhyrchu bwyd
- Adfer a chynnal bioamrywiaeth a chynefinoedd drwy gynhyrchu bwyd
- Hybu system fwyd sy'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac sy’n addasu iddo ac sy’n lleihau ôl-troed amgylcheddol byd-eang Cymru

Nod Gwastraff Bwyd:

- Cafodd y nod hwn ei ailffocysu i adlewyrchu'r gadwyn fwyd gyfan. Erbyn hyn, mae’r nod diwygiedig yn darllen “Lleihau gwastraff bwyd ar draws y system fwyd, gan gynnwys gwastraff bwyd gan gynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr”.

**315.** At hynny, ystyriwyd bod cwmpasu’r gadwyn fwyd gyfan, yn enwedig y rhannau sy’n ymwneud â phrosesu bwyd, yn hanfodol ar gyfer y nodau bwyd eraill, a chyfeirir at 'broseswyr' bwyd yn y nodau bwyd presennol ar gyfer yr amgylchedd a llesiant economaidd.

## Rhestr o gyrff cyhoeddus

**316.** Tynnwyd sylw at fater posibl yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r pwerau a ddarperir yn y Bil sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddileu 'person' o'r rhestr o gyrff cyhoeddus y byddai darpariaethau'r Bil yn gymwys iddo. Gan fod Gweinidogion Cymru eu hunain wedi’u cynnwys yn y rhestr honno o bersonau, ystyriwyd ei bod yn briodol na châi Gweinidogion Cymru ddileu eu hunain o’r rhestr honno o bersonau.

**317.** Felly, diwygiwyd adran 22(2) o'r Bil i gynnwys darpariaeth benodol sy'n atal Gweinidogion Cymru rhag dileu eu hunain o’r rhestr o bersonau.

## Darpariaethau archwilio ar gyfer y Comisiwn Bwyd

**318.** Mae darpariaethau archwilio'r Comisiwn Bwyd wedi'u cryfhau i ystyried yr ymateb gan Archwilio Cymru. Mae’r darpariaethau diwygiedig hyn wedi’u cynnwys yn Rhan 4 o’r Atodlen i’r Bil. Roedd angen y newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn cyrraedd y safon sydd bellach yn gymwys i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Leol a chyrff y GIG.

# 6. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

**319.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 2 yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

- y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y bwriedir arfer y pŵer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw "cadarnhaol", "negyddol" neu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau yr ystyrir ei bod yn briodol.

**320.** Bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle y bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Bydd union natur yr ymgynghoriad (os o gwbl) yn cael ei phenderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

***Tabl 2: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau'r Bil Bwyd (Cymru).***

| Adran | Pŵer wedi'i roi i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Y weithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Nodau Bwyd Eilaidd – Adran 3(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pwerau gwneud rheoliadau yn yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r disgrifiad o nod bwyd eilaidd.<br><br>Mae'n rhesymol disgwyl y gall fod angen i'r disgrifiadau hynny newid gyda threigl amser i ymateb i amgylchiadau newidiol ac, fel y cyfryw, mae'n briodol gwneud hyn drwy reoliadau. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol | Mae hwn yn bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol a newid y disgrifiad o nod bwyd eilaidd.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Senedd a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru. |

| Adran | Pŵer wedi'i roi i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Y weithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyletswydd i osod targedau ar gyfer nodau bwyd eilaidd<br><br>Adran 4(1)<br><br>Dyletswyddau adrodd<br><br>Adran 6(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn Adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod un neu fwy o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd.<br><br>Mae adran 6 o'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan Adran 4 nodi dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw darged a osodir.<br><br>Mae'n rhesymol disgwyl y gall fod angen i'r targedau hynny newid gyda threigl amser i ymateb i amgylchiadau newidiol, gan gynnwys newidiadau a wneir i'r disgrifiadau uchod o'r nodau bwyd eilaidd. Yn yr un modd, gall fod angen i unrhyw derfyn amser adrodd newid i adlewyrchu targedau diwygiedig neu dargedau sydd newydd eu gosod.<br><br>Fel y cyfryw, mae'n briodol gwneud hyn drwy reoliadau. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol | Mae hwn yn bŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer pob un o'r nodau bwyd eilaidd; a gosod dyddiad adrodd ar gyfer targedau o'r fath.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Senedd a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hefyd geisio cyngor—<br><br>(a) gan Gomisiwn Bwyd Cymru, a<br><br>(b) gan bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol. |

| Adran | Pŵer wedi'i roi i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Y weithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystyr corff cyhoeddus<br><br>Adran 22(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o'r 'personau' hynny y bernir eu bod yn gorff cyhoeddus at ddibenion y Bil hwn.<br><br>Mae'n rhesymol disgwyl y gallai fod angen newidiadau i'r personau hynny yn y dyfodol, a'i bod yn briodol gwneud hyn drwy reoliadau. | Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol | Mae hwn yn bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i ddiwygio rhestr o bersonau y bernir eu bod yn gyrff cyhoeddus o dan y Bil, ac sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil.<br><br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Senedd a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori—<br><br>(a) â Chomisiwn Bwyd Cymru;<br><br>(b) os yw'r rheoliadau yn ychwanegu person, â'r person hwnnw;<br><br>(c) ag unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol. |

# Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran y prif ddarpariaethau yn y Bil, ac yn dadansoddi i ba raddau y byddai pob un o'r rhain yn bodloni amcanion polisi dymunol Peter Fox. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried y risgiau, y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn.

**321.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn edrych ar y potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol, ac mae'n cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Paratowyd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn drwy ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

**322.** Paratowyd y wybodaeth hon drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys: Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol yn y maes, a chyrff y trydydd sector. Yn ogystal, cynhaliwyd dau ymgynghoriad i ganiatáu i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ymgorffori barn rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol.

**323.** Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn wedi'u hasesu dros gyfnod o bum mlynedd o weithredu'r Bil, gyda'r costau cylchol y disgwylir iddynt bara y tu hwnt i'r cyfnod hwn yn cael eu nodi yn y testun.

**324.** Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF, sef 3.5 y cant[1] drwy gydol y dadansoddiad hwn i gyfrifo gwerth presennol yr opsiwn a ffefrir.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent

# 7. Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**325.** Mae'r tablau isod yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision i'r Bil yn ei gyfanrwydd. Dyluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

***Tabl 3: crynodeb o'r costau a'r manteision cyffredinol i’r Bil***

| Y Bil Bwyd (Cymru) | | |
|---|---|---|
| Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 2: | | |
| Cyfnod: Cyflwyno | Cyfnod arfarnu: 5 mlynedd o weithredu’r Bil | Blwyddyn sail brisiau: 2022-23 |
| Cyfanswm y gost:<br>Gwerth presennol:<br>Ystod: £4,729,250 i £8,584,370 | Cyfanswm y manteision<br>Gwerth presennol:<br>Heb ei feintioli | Gwerth presennol net:<br>Ystod: £4,509,560 i £8,111,600 |

***Tabl 4: Cyfanswm y costau gweinyddol a chydymffurfio a chostau eraill***

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau’r Comisiwn Bwyd** | | | | | | |
| Ystod – isel | 750,000 | 750,000 | 750,000 | 750,000 | 750,000 | 3,750,000 |
| Ystod – uchel | 1,500,000 | 1,500,000 | 1,500,000 | 1,500,000 | 1,500,000 | 7,500,000 |

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strategaeth Fwyd Genedlaethol: Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | | |
| Ffurfio ac ymgynghori | 20,960 | 20,960 | | | | 41,920 |
| Adrodd | | | | 8,000 | | 8,000 |
| Adolygu | (y tu allan i'r cyfnod o 5 mlynedd – costau mewn perthynas ag adolygu £12,550 i £17,550 – 5 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth | | | | | |
| **Strategaeth Fwyd Genedlaethol: Costau'r Comisiwn Bwyd (wedi'u cynnwys yn eu costau blynyddol cyffredinol)** | | | | | | |
| | 32,175 | 32,175 | | | | 64,350 |
| **Costau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | | | |
| | 21,280 | 21,280 | 21,280 | 21,280 | 21,280 | 106,400 |
| **Costau Llywodraeth Leol a Byrddau Iechyd Lleol** | | | | | | |
| Codi ymwybyddiaeth | | | 23,500 | | | 23,540 |
| **Cynlluniau Bwyd Lleol – drafftio ac adrodd** | | | | | | |
| Ystod – isel | | | 734,050 | | 171,740 | 905,790 |
| Ystod – uchel | | | 824,670 | | 186,240 | 1,010,910 |
| **Cyfanswm y costau** | | | | | | |
| Cyfanswm – ystod isel | 792,240 | 792,240 | 1,528,870 | 779,280 | 943,020 | 4,835,650 |
| Cyfanswm – ystod uchel | 1,542,240 | 1,542,240 | 2,369,490 | 1,529,280 | 1,707,520 | 8,690,770 |
| Trosiannol | 417,240 | 42,240 | 757,590 | 0 | 0 | 1,217,070 |
| | 792,240 | 42,240 | 848,210 | 0 | 0 | 1,682,690 |
| Parhaus | 375,000 | 750,000 | 771,280 | 779,280 | 943,020 | 3,618,580 |
| | 750,000 | 1,500,000 | 1,521,280 | 1,529,280 | 1,707,520 | 7,008,080 |

<table>
<tr><th></th><th>Blwyddyn 1</th><th>Blwyddyn 2</th><th>Blwyddyn 3</th><th>Blwyddyn 4</th><th>Blwyddyn 5</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Trosiannol: £1,217,070 i £1,682,690</td><td colspan="2">Cylchol: £3,618,580 i £7008,080</td><td colspan="2">Cyfanswm: Ystod: £4,835,650 i £8,690,770</td><td colspan="2">Gwerth presennol: Ystod: £4,509,560 i £8,111,600</td></tr>
<tr><td colspan="7">Arbedion costau:</td></tr>
<tr><td colspan="7">Ni fu'n bosibl meintioli arbedion costau a fydd yn deillio oherwydd y Bil, o gofio y bydd y rhain yn cael eu llywio gan gynnwys y Strategaeth Fwyd Genedlaethol. Hefyd, gan nad yw'n bosibl amcangyfrif y beichiau gweinyddol presennol ar rolau a swyddogaethau Llywodraeth Cymru na fydd eu hangen mwyach, nac yn elwa ar weithrediad gwell polisi bwyd, yn dilyn sefydlu'r Comisiwn Bwyd.</td></tr>
<tr><td>Trosiannol: £0</td><td colspan="2">Cylchol: £0</td><td colspan="2">Cyfanswm: £0</td><td colspan="2">Gwerth presennol: £0</td></tr>
<tr><td colspan="7">Costau gweinyddol a chydymffurfio net a chostau eraill: Ystod: £4,835,650 i £8,690,770</td></tr>
</table>

## Costau ac anfanteision heb eu meintioli

**326.** Costau gweithredu cynlluniau bwyd lleol. Fel y nodwyd yn ein proses ymgynghori, heb wybod manylion llawn y cynlluniau bwyd lleol, mae’n rhaid cyfrif y costau a briodolwyd iddynt fel rhai heb eu meintioli.

## Manteision

**327.** Rhoddwyd adborth sylweddol gan randdeiliaid ynghylch yr angen i gydgysylltu polisïau a gofynion gwahanol Llywodraeth Cymru yn y meysydd y mae’r Bil hwn yn ymdrin â hwy. Fodd bynnag, ymdrinnir â pholisi bwyd presennol Llywodraeth Cymru mewn seilos ar draws sawl menter, heb ddull system gyfan cyffredinol. Fel y cyfryw, nid yw'n bosibl amcangyfrif costau presennol y status quo ac nid yw'n bosibl amcangyfrif yr arbedion o ran sut y byddai'r Comisiwn Bwyd yn lleihau'r baich ar staff presennol Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn y maes hwn.

**328.** Mae dros 200,000 o bobl yn byw gyda gordewdra yng Nghymru. Mae bron 60 y cant o oedolion a 27 y cant o blant sy'n byw yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew. Cost gordewdra i Gymru ar hyn o bryd yw tua £3 biliwn y flwyddyn. Mae gan y Bil hefyd y potensial i wella hawliau pobl dan anfantais oherwydd tlodi drwy fesurau i fynd i'r afael â chyfraddau gordewdra yng Nghymru. Er y gall y gostyngiad economaidd leihau’r gost flynyddol, sef £3 biliwn, y fantais fwyaf i’r gymdeithas fydd datblygu poblogaeth iachach

sydd â risg is o gymhlethdodau iechyd tymor hir. Gall y Bil hefyd alluogi sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogeledd bwyd a gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru.

**329.** Gall y Bil fod â manteision amgylcheddol drwy gamau amgylcheddol a gymerir tuag at gyrraedd nodau sylfaenol ac eilaidd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gall hyn, yn ei dro, fod o fudd i rywogaethau a chynefinoedd, gwella iechyd pridd ac ansawdd aer a dŵr. Mae **dadansoddiad o'r buddsoddiad amgylcheddol** wedi dangos, am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi i wella safonau, y profir bod o leiaf £3.20 o elw. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd mantais sylweddol o ran gwerth cymdeithasol ar y buddsoddiad o gyflwyno'r Bil. Mae buddsoddiadau rhaglenni bwyd lleol wedi dangos dros £4 o elw am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi.

**330.** Bydd y Bil yn caniatáu i Gymru gyflawni ei hymrwymiadau cyfrifoldeb byd-eang drwy leihau mewnforion bwyd amgylcheddol a chymdeithasol gostus, gan hyrwyddo Cymru fel dinesydd byd-eang da.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm: £ Nid yw'n bosibl meintioli hyn nes ffurfio strategaeth genedlaethol, polisïau a nodau. | Gwerth presennol: £ Ddim yn gymwys |

## Tystiolaeth , rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

**331.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i lywio gan sgyrsiau ffurfiol ac amrywiaeth o drafodaethau anffurfiol â grwpiau a sefydliadau cynrychioliadol y bydd y Bil yn effeithio arnynt ac academyddion ac arbenigwyr cysylltiedig. Gwnaed tybiaethau ychwanegol yn dilyn cyswllt â swyddogion Llywodraeth yr Alban a luniodd amcangyfrifon costau ar gyfer y **Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban)** a hefyd o ddulliau gweithredu a rhagdybiaethau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn asesiadau effaith diweddar. Drwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir rhagdybiaethau o ran sut y mae costau wedi'u cyfrifo.

# 8. Opsiwn 1: parhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol

Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Nid oes modd meintioli'r gwariant presennol o ran gweinyddiaeth fewnol yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu, gweithredu ac asesu polisïau presennol.

**332.** Mae ansefydlogrwydd yn sgil y cyd-destun byd-eang presennol a'r rhagolygon ansicr at y dyfodol i'w deimlo ar draws y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd; sy'n rhoi'r system fwyd dan straen sylweddol. Er bod Llywodraeth Cymru yn arwain rhywfaint o waith a groesewir ar hyn o bryd ar bolisi bwyd, mae'r digwyddiadau hyn wedi amlygu diffyg cydnerthedd ar draws y system fwyd gyfan yng Nghymru. Er enghraifft:

- Mae materion yn y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i gyfnod o ailaddasu ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu gwaethygu yn sgil pandemig y coronafeirws (COVID-19), gyda chyfnodau clo cenedlaethol a phrinder llafur yn arwain at amharu ar gyflenwad rhai cynhyrchion bwyd.

- Mae ailddechrau'r economi fyd-eang ac ymdrechion parhaus i ymateb i'r ergyd economaidd parhaus yn dilyn y pandemig COVID-19 wedi cyfrannu at bwysau chwyddiant a chostau cynhyrchu cynyddol, gan godi costau bwyd a diod sy'n cael eu mewnforio, yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru.

- Mae cyfraddau chwyddiant ar gyfer bwyd a diod wedi cynyddu ymhellach ers hynny yn sgil ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a ddechreuodd ym mis Chwefror 2022. Mae'r ddwy wlad yn allforwyr mawr o gynhyrchion bwyd pwysig fel gwenith a grawn, yn ogystal ag adnoddau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu bwyd, gan gynnwys gwrtaith a nwy ar gyfer ynni. Mae ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022 gan y **Swyddfa Ystadegau Gwladol** yn dangos bod cyfradd chwyddiant flynyddol y DU ar gyfer bwyd a diodydd dialcohol yn 14.6

y cant ym mis Medi 2022. Amcangyfrifir bod y gyfradd gyfredol ar ei huchaf ers mis Ebrill 1980.

**333.** Mae'n bwysig, wrth gwrs, cydnabod na all Llywodraeth Cymru amddiffyn cymunedau'n llawn rhag canlyniadau'r ergydion byd-eang hyn. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid a phwyllgorau'r Senedd wedi galw dro ar ôl tro – fel y trafodwyd yn Rhan 1, Pennod 3 – ar i Weinidogion Cymru greu fframwaith deddfwriaethol cydlynol ar lefel uchel i ategu'r system fwyd er mwyn sicrhau bod lefelau cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn parhau'n gadarn. Fel y dywed NFU Cymru yn ei **dystiolaeth i'r ymgynghoriad**:

> *Whilst legislation will never be able to anticipate unforeseen or sudden events, it does have the potential to ensure that as a nation we are in the best possible position in terms of our domestic food security to respond to challenges and disruption in food supply chains and to mitigate some of these adverse impacts by having a more resilient food system in place.*

**334.** Yn hynny o beth, gall parhau â'r mentrau polisi presennol arwain at fethu â pharatoi system fwyd Cymru a chymunedau lleol ar gyfer ergydion yn y dyfodol mewn modd addas. Er bod Cymru'n rhan o system fwyd sy'n gynyddol fyd-eang, mae digon o le o hyd i lunio system fwy lleol yn seiliedig ar annog mwy o gynhyrchu bwyd yn lleol ac yna datblygu'r seilwaith sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i gynnyrch o'r fath gael ei gyflenwi i gymunedau lleol.

**335.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cydgysylltu ei hagendâu allweddol. Er enghraifft, mae'r ymrwymiad i **gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn** oed ysgol gynradd hefyd yn cydnabod y cyfle i annog cynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy. Mae'r polisi hwn hefyd yn cyd-fynd â **Strategaeth Bwyd Cymunedol** arfaethedig Llywodraeth Cymru, sy'n ddatblygiad i'w groesawu a ddylai helpu i annog prosiectau cynhyrchu bwyd lleol a chyfranogiad cymunedol â bwyd. Fodd bynnag, mae risg y bydd ei ffocws penodol ar brosiectau bwyd cymunedol yn golygu na fydd y Strategaeth ar ei phen ei hun yn sefydlu'r newid system sydd ei angen i greu system fwyd fwy cadarn a chynaliadwy.

**336.** Mae awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol hefyd wedi arwain mentrau o safbwynt polisi cyfredol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion cymdeithasol gan gynnwys tlodi bwyd, iechyd a chynaliadwyedd drwy annog partneriaethau bwyd lleol. Er enghraifft, mae'r rhaglen **'Food 4 Growth'** yn bartneriaeth rhwng Cynghorau Torfaen,

Sir Fynwy a Chaerffili sydd wedi cael cyllid drwy **Gronfa Adnewyddu Cymunedol** Llywodraeth y DU. Mae'r prosiect hwn yn archwilio'r cyfleoedd a'r rhwystrau sydd ynghlwm â thwf economaidd mewn amaethyddiaeth a thyfu bwyd yn y gymuned.

**337.** Fodd bynnag, mae pryderon mwy cyffredinol bod diffyg cydlyniaeth a gweledigaeth gyfunol yng nghyfres o bolisïau presennol Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod polisïau'n aml yn gwrth-ddweud ei gilydd neu nad ydynt yn ystyried yr angen am 'ddull seiliedig ar system'. Er bod gan Gymru eisoes fframwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig o lunio polisïau drwy weithio mewn partneriaeth, fel drwy **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**, mae polisi bwyd yn dal i gael ei drin yn aml mewn seilos, sy'n golygu bod diffyg integreiddio o ran yr agendâu economaidd, iechyd, cymdeithasol, amgylcheddol ac amaethyddol. Yn ei **ymateb i'r ymgynghoriad**, mae WWF yn rhoi rhai enghreifftiau o'r diffyg dull cydgysylltiedig hwn o lunio polisïau presennol Llywodraeth Cymru:

> *The strategic direction of growth and industrialisation, as laid out in the KPIs for growth in the 'vision' for the Welsh food and drink sector, which is at odds with sustainability objectives (for example climate change targets, the restoration of ecosystems, Welsh Governments commitment at COP 26 to do everything within their power to ensure Wales does not deforest the planet as a result of our supply chains and sustainable land management objectives in the Sustainable Farming Scheme).*

**338.** Ac mae **Tîm Iechyd y Cyhoedd Aneurin Bevan Gwent** yn nodi'r canlynol yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft:

> *However, we feel that greater integration is required. The 'Healthy Weight: Healthy Wales' 1 long term strategy to prevent and reduce obesity includes a national priority area to shape the food and drink environment towards sustainable and healthier options. This priority would benefit from alignment with economic and agricultural policy so that longer term planning of Welsh food production could better meet health goals.*
>
> *There is a significant gap between the food that is produced in Wales and the Eatwell Guide. Whilst there will inevitably be limitations due to soils / land / climate etc., it would be good to have a policy framework*

> *that includes maximising the contribution that agriculture can make to the health agenda e.g. expansion of horticulture.*

**339.** Yn y cyfamser, yn ôl **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**:

> *Given the extent of local and regional activity we are pleased to see that the possibility of a Food (Wales) Bill is being discussed. It is proven difficult to align our work to the wider policy agenda in Wales without a Food Bill or associated policy.*

**340.** Mae rhai rhanddeiliaid hefyd wedi dweud bod ymateb polisi ehangach Llywodraeth Cymru i'r argyfyngau amrywiol wedi bod yn annigonol. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, dywed **Cynghrair Polisi Bwyd Cymru** y canlynol:

> *It has been less than 18 months since that piece of work ['Priorities for a Food System Fit for Future Generations'] was published and in that short time we have seen the scale of those challenges escalate at an alarming rate that few could have imagined. Meanwhile, moves towards a comprehensive policy response have only crept along with no clear picture yet emerging as to what shape that response might take.*

**341.** Yn y cyfamser, bu datblygiadau deddfwriaethol mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig a allai arwain at roi system fwyd Cymru dan anfantais gystadleuol. Fel y trafodwyd ym Mhennod 1 Adran 3, mae Senedd yr Alban wedi pasio **Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022** yn ddiweddar, a chyflwynodd Llywodraeth y DU ei **Strategaeth Fwyd** yn gynharach eleni. Mae'r ddau ddatblygiad yn ceisio gwella diogeledd bwyd yn ogystal ag annog mwy o gynhyrchu bwyd yn lleol. Mae hyn yn golygu mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU ar hyn o bryd heb strategaeth fwyd gyfannol gyffredinol sy'n dod â gwahanol feysydd polisi ynghyd.

## Crynodeb

**342.** I grynhoi, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at yr effeithiau negyddol a ganlyn:

- Peidio ag ymateb yn ddigonol i ergydion presennol ac yn y dyfodol a fydd yn rhoi'r system fwyd dan ragor o bwysau, gan beryglu diogeledd bwyd yng Nghymru o bosibl;

- Gwreiddio ymhellach yr arfer presennol o ymdrin â pholisi bwyd mewn seilos, gan arwain o bosibl at bolisïau bwyd nad ydynt yn cydnabod yr angen am ddull system gyfan o fynd i'r afael â materion parhaus mewn cymunedau;
- Posibilrwydd o roi system fwyd Cymru dan anfantais gymharol i systemau bwyd eraill yn y Deyrnas Unedig o ganlyniad i ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol diweddar.

# 9. Opsiwn 2: cyflwyno Bil

**343.** Mae'r Bil yn sefydlu fframwaith i Lywodraeth Cymru osod y cyfeiriad ar gyfer Comisiwn Bwyd Cymru, y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol. Bydd y ffordd y caiff y rhain eu cwblhau yn effeithio ar sut y gweithredir cynlluniau a pholisi ar draws cyrff cyhoeddus ac, o ganlyniad, y costau a'r arbedion a wireddir.

**344.** Mae'r holl gostau a gyflwynir isod yn ffigurau blynyddol, a thybir eu bod yn cael eu cynnal mewn termau real drwy gydol y cyfnod arfarnu, oni nodir yn wahanol. Mae cyfrifiadau wedi'u talgrynnu i'r deg agosaf mewn tablau.

**345.** Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil 2021-22, gyda chynnydd o 3 y cant yn niffyg dyfarniad cyflog y cytunwyd arno ar gyfer 2022-23 ac mae'n defnyddio blwyddyn waith 52 wythnos ac wythnos waith pum diwrnod. Ystyrir mai'r wythnos waith safonol yw 37 awr yr wythnos yn unol â 'Llyfr Gwyrdd' y Cytundeb Cenedlaethol. Mae costau cyfartalog staff Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol fel pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol.

**346.** Mae costau staff llywodraeth leol yn seiliedig ar y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol sy'n cyhoeddi gwybodaeth am gytundeb cyflog ar gyfer 2021-22, eto gyda chynnydd 3 y cant, gyda chyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau ychwanegol ar ben hyn. Er mwyn rhoi syniad, gwnaed tybiaeth y bydd cyflog staff sy'n gweithio ar ddyletswyddau gweinyddol mewn byrddau iechyd lleol yn cael cyflog tebyg i'r rhai sy'n gweithio ar yr un tasgau mewn llywodraeth leol.

**347.** Mae'r holl gostau a manteision a feintiolir yn seiliedig ar wybodaeth a data sydd ar gael i'r Aelod sy'n gyfrifol am y cyfnod cyn cyhoeddi'r ddogfen hon.

**348.** Yn anffodus, fel y trafodwyd yn Adran 8 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ymdrinnir â pholisi bwyd presennol Llywodraeth Cymru mewn seilos ar draws sawl menter, heb ddull

system gyfan trosfwaol. Oherwydd hynny, nid yw'n bosibl amcangyfrif yr adnoddau staffio presennol sy'n gweinyddu polisi bwyd Llywodraeth Cymru er mwyn amcangyfrif costau presennol y status quo. Felly, nid yw'n bosibl cyfrifo sut y gellid ailbennu adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd nac arbedion gweinyddol i Lywodraeth Cymru a fyddai'n deillio o'r Bil hwn.

## Comisiwn Bwyd

**349.** Amlygodd yr ymgynghoriad ar y Bil Bwyd bwysigrwydd cyflwyno Comisiwn Bwyd yng Nghymru. Amlygodd Undeb Amaethwyr Cymru fod y sector wedi gweld twf 30 y cant rhwng 2014 a 2020 gan sicrhau gwerthiannau gwerth £7.5 biliwn yn 2019 – sy'n rhagori ar darged 2020, sef £7 biliwn. Roedd y galw am fwyd lleol a chynaliadwy hefyd yn amlwg yn ystod y pandemig pan gynyddodd gwariant ar gig oen Cymreig lleol 20 y cant yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn 2020 o'i gymharu â 2019.

**350.** Mae bwyd o Gymru yn rhan bwysig o'r economi. Mae cadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru yn cynnwys prosesau gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyo dibreswyl. Cyfanswm trosiant y gadwyn gyflenwi oedd **£23 biliwn yn 2021**, sef cynnydd o 2.9 y cant o'r £22.4 biliwn ar gyfer 2020. Cododd allforion cadwyn gyflenwi bwyd a diod o Gymru 16 y cant i **£640 miliwn yn 2021** o £552 yn 2020 – fodd bynnag, gostyngodd gwerth ychwanegol gros ar gyfer bwyd a diod o Gymru 16.4 y cant o £3.82 biliwn i £3.20 biliwn.

**351.** Yn 2020, roedd cadwyn bwyd a diod Cymru yn cyflogi 224,500 o unigolion yng Nghymru – gan gyfrif am 16.9 y cant o'r holl weithlu yng Nghymru. Cynyddodd **gwerth ychwanegol gros ffermio** 12 y cant i £602 filiwn yn 2021 o 2020. Er bod cyfanswm yr incwm o ffermio hefyd wedi cynyddu i £394 miliwn yn 2021, mae costau mewnbwn cynyddol yn gwasgu ar broffidioldeb busnesau ffermwyr.

**352.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod** ym mis Tachwedd 2021. Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu a phrosesu bwyd. Bydd Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi ffermwyr i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd cynaliadwy ond nid yw'r polisïau hyn yn sicrhau dull cyfannol i'r system fwyd.

**353.** **Nodwyd** bod caffael bwyd a diod blynyddol y sector cyhoeddus yn fwy na £74 miliwn. **Nododd** Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed

Senedd fod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio “i ddarparu bwyd yn ein hysgolion a’n hysbytai, a dylid meddwl amdano fel buddsoddiad mewn iechyd a lles pobl Cymru”.

**354.** Amlygodd adroddiad gan North Star Transition fod GIG Cymru yn gwario £22 filiwn ar fwyd a diod – mae hyn o’i gymharu â’r trosiant cadwyn gyflenwi, sef £23 biliwn, yr ydym wedi cyfeirio ato ym mharagraffau 42 a 343.

**355.** Mae prydau bwyd ar gyfer cleifion mewnol yn GIG Cymru yn cyfrif am lai na **0.3 y cant o’r holl brydau sy’n cael eu bwyta yng Nghymru bob dydd**. Mae cadwyni gyflenwi’r GIG yn fach o’i chymharu â’r rhai sy’n gysylltiedig â manwerthwyr lluosog mawr, y mae’r rhan fwyaf o gadwyni cyflenwi yn gweithio gyda hwy. O’r herwydd, galwyd am fodel ar gyfer cyflenwad bwyd mwy lleol, iach a chynaliadwy i GIG Cymru.

**356.** Roedd gwariant net ar gyfer arlwyo ysgolion gan gynnwys meithrin i uwchradd yng Nghymru ar gyfer 2021-22 dros £34 miliwn.

**357.** Cafodd cynllun **prydau ysgol am ddim i bawb** ei gyflwyno ym mis Medi 2022, fel rhan o ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio y bydd pob disgybl ysgol gynradd yn cael pryd ysgol am ddim erbyn 2024. Cafodd £225 miliwn ei ymrwymo i sicrhau y cyflawnir yr ymrwymiad dros y tair blynedd nesaf. Mae **Sefydliad Bevan wedi amcangyfrif** y byddai prydau ysgol am ddim i bob plentyn cynradd ac uwchradd yn costio £180 miliwn y flwyddyn. Mae hynny’n cynnwys llawer mwy na chost yr elfen fwyd.

**358.** Bydd y Bil Bwyd yn sefydlu'r fframwaith cyffredinol i sicrhau yr ystyrir polisi ffermio a'r gadwyn gyflenwi ochr yn ochr ag agweddau pwysig eraill megis iechyd y cyhoedd a thlodi bwyd. Bydd y Bil Bwyd hefyd yn ceisio darparu cyfleoedd newydd i ffermwyr a chynhyrchwyr eraill werthu eu cynnyrch i farchnadoedd lleol a rhanbarthol yng Nghymru. Bydd y Bil yn annog cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd, i ystyried sut y gallant wneud bwyd a gynhyrchir yn lleol yn fwy hygyrch drwy gynlluniau bwyd lleol.

**359.** Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Comisiwn Bwyd. Rhestrir swyddogaethau’r Comisiwn hwn yn Adran 10 o’r Bil. Maent fel a ganlyn:

a. datblygu, a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddatblygu, polisïau mewn perthynas â materion bwyd;

b. cynghori, hysbysu a chynorthwyo cyrff cyhoeddus, a phersonau eraill, mewn perthynas â materion bwyd;

c. rhoi gwybodaeth ddigonol i'r cyhoedd am faterion sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am faterion bwyd, a rhoi cyngor iddynt mewn perthynas â'r materion hynny;

d. darparu trosolwg ac adolygiad o berfformiad y gwaith o arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r nodau bwyd a'r targedau bwyd;

e. craffu ar y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol;

f. gweithredu fel ymgynghorai i Weinidogion Cymru pan fydd y nodau bwyd i gael eu diwygio;

g. rhoi cyngor i Weinidogion Cymru wrth iddynt adolygu targedau bwyd.

**360.** Bydd gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd i sefydlu ac ariannu'r Comisiwn yn y fframwaith a nodir yn y Bil hwn. Bydd y Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd a rhwng pump a saith aelod arall, a chaiff pob un ohonynt eu penodi gan Weinidogion Cymru. Cyn penodi'r Cadeirydd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd. Cyn penodi'r aelodau eraill, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Senedd.

**361.** Rhaid i'r Comisiwn gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer: nifer y staff y caniateir eu penodi; telerau ac amodau'r staff; ac unrhyw daliadau i'w gwneud i'r staff, fel y nodir uchod.

**362.** Disgwylir y byddai'r Comisiwn yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth fwyd genedlaethol, ac yn dwyn partneriaid cyflawni i gyfrif er mwyn sicrhau bod nodau a thargedau polisi'n cael eu bodloni. Byddai'r Comisiwn hefyd yn defnyddio ei rôl i feithrin arbenigedd a chapasiti polisi yng Nghymru, a gweithio gyda'r sector addysg uwch ac addysg bellach i gynnal ymchwil i ffyrdd o ddatblygu'r sector bwyd ymhellach.

**363.** Er nad yw'n hollgynhwysfawr, rhagwelir y byddai'r Comisiwn yn cynnwys nifer o randdeiliaid o sectorau gwahanol, fel y nodwyd yn flaenorol yn y Memorandwm Esboniadol hwn. Felly, o ran costau'r swyddogaeth hon, gwnaed cymariaethau â chomisiynwyr presennol, gan ddibynnu ar eu swyddogaethau. Gan ddibynnu ar y model y bydd y Comisiwn yn penderfynu arno, gall costau ymgynghori ac ati ddisgyn ar y Comisiwn ei hun neu ar randdeiliaid. At ddiben yr asesiad hwn, tybir mai'r Comisiwn ei hun sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau hyn.

**364.** Roedd rhai o'r modelau a ystyriwyd wrth edrych ar sut y byddai'r comisiwn yn cael ei sefydlu yn amrywio o ddull ysgafn iawn, fel y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, i sefydliad sy'n gwbl ar wahân i Lywodraeth Cymru o ran staff, adrodd a mangre. Yn ôl ein hymchwil, mae gan sefydliad mwy integredig fel y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol gostau rhedeg is, sef tua £300,000 i £400,000 y flwyddyn. Ystyrir bod trefniant o'r fath yn rhy gyfyngedig ar gyfer y disgwyliadau a nodir yn y Bil hwn, o ran annibyniaeth y sefydliad. Er mwyn cymharu, amcangyfrifodd Llywodraeth yr Alban yn 2022 y byddai ei chomisiwn bwyd yn costio tua £750,000 fel rhan o'i **Bil Cenedl Bwyd Da (Yr Alban)**.

**365.** Ar hyn o bryd mae pedwar Comisiynydd yng Nghymru, sydd wedi'u sefydlu fel cyrff ar wahân i Lywodraeth Cymru sef: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynydd Plant, Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae gan bob Comisiynydd gyfrifoldebau a swyddogaethau craidd diffiniedig, y mae Pwyllgor priodol yn y Senedd a Gweinidog yn y Llywodraeth yn craffu arnynt. Roedd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys llinell gyllideb ar wahân ar gyfer pob Comisiynydd. Cafodd y costau a ganlyn eu cynnwys:

- Comisiynydd y Gymraeg: £3.207 miliwn
- Y Comisiynydd Plant: £1.589 miliwn
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: £1.509 miliwn
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn: £1.589 miliwn

**366.** Mae amcangyfrifon ariannol a gyflwynwyd gan y Comisiynwyr yn manylu ar wariant a gofynion ariannol amcangyfrifedig. Manylir ar amcangyfrifon ystod uwch ac is yn seiliedig ar gostau'r Comisiynwyr presennol yn Nhabl 5 isod.

***Tabl 5: Ystod costau ar gyfer amcangyfrifon y pedwar comisiynydd presennol, naill ai 2021-22 neu 2022-23***

| Pennawd cost | Ystod Costau £'000 | |
|---|---|---|
| | Isaf | Uchaf |
| Cyflogau | 1,250 | 2,500 |
| Adeilad/Rhent | 70 | 148 |
| Hyfforddiant/Llesiant | 23 | 42 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 9 | 33 |
| Cyfathrebu | 31 | 41 |
| TG | 33 | 95 |
| Costau Prosiect/Rhaglen | 98 | 163 |
| Ffioedd Cyfreithiol ac Archwilio | 30 | 67 |
| Cyfanswm | 1,544 | 3,086 |

Noder: Mae’r holl ffigurau wedi’u nodi ar gyfer 2022-23, ac eithrio Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol sydd ar gyfer 2021-22.

**367.** Disgwylir i gwmpas y Comisiwn Bwyd, ac felly yr angen am adnoddau, fod yn sylweddol gulach na chwmpas y Comisiynwyr presennol yng Nghymru. O’r herwydd, mae’r costau ar gyfer y Comisiwn Bwyd yn debygol o fod yn agosach at y costau a amcangyfrifwyd gan Lywodraeth yr Alban. Fodd bynnag, gallai dadansoddiad o gostau ystod is fod yn ddefnyddiol o ran dangos sut y gellid rhannu costau sefydlog ac amrywiol comisiwn.

**368.** Mae cwmpas i faint y Comisiwn Bwyd adlewyrchu’r hyn a ystyrir sy’n briodol gan Gadeirydd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Gallai costau gweithredu blynyddol fod o fewn yr ystod a bennwyd gan amcangyfrif Llywodraeth yr Alban, sef £750,000, i’r math o ddyraniadau a ddangosir yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2022-23 ar gyfer y Comisiynwyr (ac eithrio Comisiynydd y Gymraeg), sef tua £1,500,000 miliwn y flwyddyn. Os yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen rôl ehangach ar y Comisiynydd, darperir adnoddau cysylltiedig.

**369.** I adlewyrchu'r ffaith y bydd angen recriwtio ar gyfer y Comisiwn a sefydlu ei swyddogaethau ei hun, cyflwynir gofynion adrodd yn raddol fel y bo’n briodol. Bydd costau ynghlwm â sefydlu’r Comisiwn tra bydd y Cadeirydd ac aelodau’r comisiwn a strwythur staff yn cael eu rhoi ar waith. Yn hytrach na nodi disgwyliadau o ran sut y caiff hyn ei gyflwyno’n raddol, mae tybiaeth y bydd cost y Comisiwn ar y gost flynyddol lawn yn y flwyddyn gyntaf, i dalu costau trosiannol a gweithredu, gan gynnwys recriwtio/secondiadau staff, a sefydlu unrhyw eiddo (os bydd angen), seilweithiau TGCh,

presenoldeb ar y we ac ati. Mae hanner costau'r Comisiwn yn y flwyddyn gyntaf wedi'u neilltuo fel costau trosiannol i adlewyrchu hyn.

**370.** Mae angen i'r Comisiwn lunio cynllun blynyddol, a fydd yn dechrau cyn dechrau ail flwyddyn ariannol y Comisiwn, a fydd yn nodi sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau, a bydd angen gosod copi gerbron y Senedd. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi cynllun blynyddol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol a chyflwyno cyfrifon blynyddol hefyd. Yn yr un modd â sefydliadau eraill, gall yr adroddiad blynyddol a chyfrifon gael eu llunio mewn un ddogfen.

**371.** Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn Bwyd. Byddai costau'r archwilydd yn rhan o gyllideb flynyddol y Comisiwn Bwyd. Cost adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol yr archwilydd allanol yn **adroddiad blynyddol a chyfrifon** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw tua £16,000. Bydd costau fel y ffioedd archwilio hyn yn rhan o gyllideb gyffredinol a chostau rhedeg y Comisiwn.

***Tabl 6: ystodau cost cyffredinol y Comisiwn Bwyd***

| Costau'r Comisiwn Bwyd | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystod – isel | 750,000 | 750,000 | 750,000 | 750,000 | 750,000 | 3,750,000 |
| Ystod – uchel | 1,500,000 | 1,500,000 | 1,500,000 | 1,500,000 | 1,500,000 | 7,500,000 |

## Strategaeth Fwyd Genedlaethol

**372.** Mae'r dull o osod y strategaeth genedlaethol wedi'i nodi ym Mharagraffau 254 i 270 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

**373.** Gweinidogion Cymru sy'n gorfod cyhoeddi'r strategaeth hon, ar ôl ceisio cyngor gan Gomisiwn Bwyd Cymru. Cânt hefyd geisio cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymgynghori ag ef. Yn ymarferol, rhagwelir y bydd gan Weinidogion Cymru fewnbwn sylweddol gan y Comisiwn Bwyd. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o fewn 2 flynedd i basio'r Bil.

**374.** Ar ôl cyfarfod â swyddogion Llywodraeth yr Alban, rydym wedi cadarnhau bod y dull a'r amgylchiadau yn debyg iawn i'r polisi a'r dull gweithredu yn yr Alban pan ymchwiliwyd i asesiad effaith Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban). Amcangyfrifir felly, dros y ddwy flwyddyn gyntaf gyfan, y byddai cyfanswm yr adnoddau staff i ddatblygu'r strategaeth fwyd gyntaf a chyflawni gwaith cysylltiedig yn un rhan o bump Gradd 7, sef £17,756 ac un rhan o bump uwch-swyddog gweithredol, sef £10,858. Rydym wedi cyfrifo hefyd y byddai angen cymeradwyaeth gan ddirprwy gyfarwyddwr a fyddai'n ychwanegu £545 arall. Amcangyfrifir y byddai costau cyfieithu yn £1,250, ac y byddai cyhoeddi ar-lein yn costio tua £500-£1,000. Pe bai angen dogfen wedi'i chyhoeddi'n ffisegol, byddai hyn yn ychwanegu £3,100 at y gost. Felly, cyfanswm y gost yw £31,409 i Lywodraeth Cymru. Mae'n werth nodi na fu'n bosibl meintioli'r adnoddau presennol yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y maes polisi hwn na fyddai eu hangen mwyach gan fod gwaith ar y Bil hwn yn mynd rhagddo.

**375.** Yn ogystal ag adnodd Llywodraeth Cymru, byddai angen mewnbwn gan y Comisiwn Bwyd i gynghori a helpu i gydgynhyrchu ac arwain ar y gwaith o gynghori ar lunio'r polisi, gosod nodau bwyd, darparu canllawiau a deunyddiau hyfforddi. Byddai angen ystyried sut y byddai polisïau a nodau yn effeithio ar werth mantais gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau, er enghraifft.

**376.** Byddai canllawiau ymarferol yn cynnwys sut i gyflawni'r dyletswyddau a sut y mae hyn yn cyd-fynd â mentrau a pholisïau presennol Llywodraeth Cymru. Felly, gall hyn olygu adolygu canllawiau presennol ac mewn meysydd eraill efallai y bydd angen datblygu deunydd newydd. Byddai hyn yn cynnwys uwch-swyddog gweithredol am 120 diwrnod, sef £29,610, uwch-swyddog gweithredol am 60 diwrnod, sef £18,600 a Gradd 7/aelodau'r Comisiwn am 40 diwrnod (i adlewyrchu mewnbwn gan sectorau yr effeithir arnynt), sef £16,140. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yng nghostau cyffredinol y Comisiwn Bwyd ar draws y ddwy flynedd gyntaf.

**377.** Caiff Gweinidogion Cymru hefyd geisio cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar sut i gysoni'r strategaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodir y cyfraniad hwn gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddiweddarach yn yr asesiad effaith hwn. Mae'r Comisiynydd wedi awgrymu bod **strategaeth fwyd genedlaethol hirdymor** yn un o ystod o bolisïau y dylid eu hystyried yng Nghymru.

**378.** Gellid tybio hefyd bod costau ymgynghori ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unol â'r rhai a amcangyfrifwyd gan Lywodraeth yr Alban, sef £5,000 ar gyfer ymarfer sylweddol

sy’n cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, ynghyd â £500 ar gyfer ymgynghoriad byr ar-lein. Yn ychwanegol at hyn byddai £5,000 ar gyfer dadansoddiad o’r ymgynghoriad. Bydd costau cyfleoedd i sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn yr ymgyngoriadau hyn, na chawsant eu cynnwys ym Mil Cenedl Bwyd Da (yr Alban). Bydd y costau hyn yn gostau trosiannol yn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl gweithredu.

***Tabl 7.1: Costau strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru, wedi'u rhannu ar draws blwyddyn 1 a blwyddyn 2***

| | **Cost flynyddol** | **Mewnbwn amser** | **Cost** |
|---|---|---|---|
| Dirprwy gyfarwyddwr | 119,899 | 1 diwrnod | 550 |
| Gradd 7 | 88,782 | 1/5 cyfwerth ag amser llawn | 17,760 |
| Uwch-swyddog gweithredol | 54,292 | 1/5 cyfwerth ag amser llawn | 10,860 |
| Cyfieithu | | | 1,250 |
| Cyhoeddi | | | 1,000 |
| Ymgynghori | | | 10,500 |
| Cyfanswm | | | 41,920 |

***Tabl 7.2: Strategaeth fwyd, y Comisiwn Bwyd yn cydgynhyrchu ac yn arwain ar y gwaith o roi cyngor ar lunio'r polisi, gosod nodau bwyd, darparu canllawiau a deunyddiau hyfforddi – wedi'u cynnwys yng nghostau cyffredinol y Comisiwn, wedi'u rhannu ar draws blwyddyn 1 a blwyddyn 2***

| | **Cost flynyddol** | **Mewnbwn amser** | **Cost** |
|---|---|---|---|
| Gradd 7 / mewnbwn Bwrdd | 88,782 | 40 diwrnod | 16,140 |
| Uwch-swyddog polisi | 68,210 | 60 diwrnod | 18,600 |
| Uwch-swyddog gweithredol | 54,292 | 120 diwrnod | 29,610 |
| Cyfanswm | | | 64,350 |

**379.** Mae gofyniad i adrodd ar y strategaeth bob dwy flynedd, gyda'r adroddiad cyntaf yn cael ei osod o fewn 2 flynedd i gyhoeddi'r strategaeth gyntaf.

**380.** Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r costau hyn. Amcangyfrifodd Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban) y byddai costau adrodd blynyddol rhwng tua £6,673 a £7,173. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r costau adrodd a amcangyfrifwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau adrodd blynyddol yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol, sef amcangyfrif £7,950. Yn unol â'r dystiolaeth hon, amcangyfrifir mai'r costau ar gyfer Llywodraeth Cymru yw £8,000.

**381.** Rhaid adolygu'r strategaeth bob 5 mlynedd. Byddai hyn y tu allan i'r amserlen 5 mlynedd ar gyfer amcangyfrif costau. Fodd bynnag, ni fyddai'r costau'n sylweddol. Er enghraifft, amcangyfrifodd y Bil Cenedl Bwyd Da y byddai'r diweddariad 5 mlynedd ac ymgynghoriad ar y strategaeth yn costio rhwng £12,549 a £17,549.

**382.** Yn y broses ymgynghori, teimlai NFU Cymru y byddai cael Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn helpu i gydgysylltu camau gweithredu a gwella cydlyniad rhwng adrannau'r llywodraeth. Er ei fod yn cydnabod goblygiadau adnoddau creu Strategaeth Fwyd Genedlaethol, teimlai NFU Cymru y byddai Strategaeth Fwyd Genedlaethol o fudd i ddefnyddwyr o ran cael mynediad at fwyd fforddiadwy o ansawdd uchel ac i ffermwyr wrth gynhyrchu bwyd.

## Gweithredu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol

**383.** Bydd costau a manteision gweithredu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn cael eu hysgogi, i bob pwrpas, gan gynnwys y strategaeth a'r hyn sy'n ffurfio'r nodau bwyd a sut mae hyn yn newid polisïau mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyflenwyr.

**384.** Bydd yn bwysig bod nodau a thargedau'r Strategaeth Fwyd yn esbonio'r hyn a ddisgwylir yn yr amcanion ysgrifenedig a'r strategaeth a'r hyn y mae angen i gyrff cyhoeddus ei ystyried yn y ddyletswydd gyffredinol. Felly, bydd angen canllawiau ymarferol o ran sut i gyflawni'r dyletswyddau a sut y mae hyn yn cyd-fynd â mentrau a pholisïau presennol Llywodraeth Cymru. Felly, gall hyn olygu adolygu canllawiau presennol ac mewn meysydd eraill efallai y bydd angen datblygu deunydd newydd. Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer llunio canllawiau a hyfforddiant ymarferol yn adran flaenorol yr asesiad effaith hwn, Tablau 7.1 a 7.2, paragraff 378.

**385.** Mae'r adran flaenorol yn cynnwys adnoddau i baratoi a chyflwyno hyfforddiant ac ymgyfarwyddo. Tybir y byddai sesiynau ymgyfarwyddo cychwynnol â'r dyletswyddau, y canllawiau a'r cymorth yn cael eu cynnig i gynrychiolwyr pob un o'r 29 o gyrff cyhoeddus o fewn y cwmpas.

**386.** Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus eisoes yn cydweithio ym meysydd bwyd a chaffael. Bydd angen i'r sefydliadau arweiniol gyfrannu ar lefel uwch at yr hyfforddiant hwn ac ymgyfarwyddo, a bydd gwybodaeth yn cael ei chyfrannu i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy rwydweithiau presennol. Er enghraifft mae Caerffili yn arwain ar fframwaith bwyd sector cyhoeddus Cymru.

**387.** Mae'n debygol mai dim ond tua chwarter y sefydliadau fydd angen y lefel ganlynol o fewnbwn adnoddau: 1 diwrnod aelod o staff ar bwynt 48, 2 ddiwrnod aelod o staff ar bwynt 40 a 3 diwrnod aelod o staff ar bwynt 25. Ni fydd angen unrhyw fewnbwn lefel uwch ar y gweddill a hanner yr amser staff ar bwyntiau 40 (1 diwrnod) a phwyntiau 25 (1.5 diwrnod).

***Tabl 8: Costau trosiannol – awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, blwyddyn 3***

| Ymgyfarwyddo a hyfforddi | Cost flynyddol | Diwrnodau mewnbwn amser | Cost |
|---|---|---|---|
| Staff - lefel 48 | 77,160 | 1 | 351 |
| Staff - lefel 40 | 64,762 | 2 | 588 |
| Staff - lefel 25 | 43,676 | 3 | 597 |
| 8 corff cyhoeddus | | | 12,288 |
| Staff - lefel 40 | 64,762 | 1 | 294 |
| Staff - lefel 25 | 43,676 | 1.5 | 298 |
| 19 corff cyhoeddus | | | 11,248 |
| Cyfanswm | | | 23,536 |

## Cynlluniau bwyd lleol

**388.** Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol (ac eithrio Gweinidogion Cymru) gyhoeddi cynllun bwyd lleol sy'n nodi'r polisïau unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyfrannu at hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd.

**389.** Caiff cyrff cyhoeddus ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol neu bersonau eraill a rhaid iddynt roi sylw i'r strategaeth fwyd genedlaethol.

**390.** Mae gofyniad i gyhoeddi adroddiadau ar gynlluniau lleol bob 2 flynedd, gan ddechrau 2 flynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun bwyd lleol cyntaf.

**391.** Mae gofyniad hefyd i adolygu'r cynllun bwyd bob 5 mlynedd.

**392.** Mae gan lawer o'r cyrff perthnasol ryw fath o gynlluniau neu strategaethau bwyd lleol neu gymunedol eisoes. Bydd gan fyrddau iechyd bolisïau ar waith eisoes i baratoi a

chyhoeddi adroddiadau ar faterion amrywiol yn ymwneud â bwyd a maeth mewn ysbytai a rhagwelir y gallai byrddau iechyd lleol ymgorffori eu gofynion cynllunio ac adrodd o dan y Bil hwn fel rhan o adroddiadau presennol, fel eu cynlluniau tymor canolig integredig.

**393.** Cytunodd NFU Cymru, o ystyried rôl awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol fel caffaelwyr bwyd o bwys, fod angen cael cynlluniau bwyd lleol ar waith. Yn ogystal, cytunodd NFU Cymru fod y nodau bwyd sydd wedi'u nodi yn y Bil o fewn cwmpas a buddiant awdurdodau lleol a byrddau iechyd i'w cyflawni.

**394.** Fodd bynnag, bydd angen i gynlluniau presennol gael eu hailffocysu i adlewyrchu'r strategaeth genedlaethol ac yn arbennig i ystyried y nodau bwyd a'r targedau. Bydd angen cymryd gofal i sicrhau bod y gofynion hyn yn gymesur.

**395.** Mae **Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru** yn llunio adroddiadau Strategaeth Categori ar hyn o bryd. Mae tîm Darpariaethau Partneriaeth Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rheoli gofynion ar gyfer darparu bwyd cleifion a manwerthu ar ran holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru. Wrth ymgynghori â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, canfu fod y strategaeth gaffael bresennol wrthi'n symud o ddefnyddio fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i greu cytundebau GIG Cymru pwrpasol.

**396.** Mae strategaeth gynaliadwyedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad Strategaeth Categori ac mae'n amlygu pwysigrwydd lleihau hyd y gadwyn gyflenwi drwy atebion caffael arloesol a gweithgareddau sy'n hyrwyddo natur dymhorol.

**397.** Gall byrddau iechyd lleol ymgorffori'r strategaethau caffael a'r Adroddiadau Categori hyn fel sail i gynlluniau bwyd lleol. Gallai hyn yn ei dro sicrhau bod gofynion y Bil Bwyd yn gyson ag arfer presennol a gwella effeithlonrwydd o ran caffael bwyd ar lefel byrddau iechyd lleol.

**398.** Fel yr amlygodd Cyngor Sir Fynwy yn ystod y broses ymgynghori, mae'r themâu a nodwyd yn y Nodau Bwyd a'r Cynlluniau Bwyd Lleol dilynol yn cyd-fynd yn agos â ffocws y mudiad Lleoedd Bwyd Cynaliadwy – mudiad ledled y DU sy'n ymgyrchu dros newid systemau bwyd drwy syniadau strategol cydgysylltiedig a llywodraethiant bwyd yn lleol ac yn rhanbarthol.

**399.** Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn **cydgysylltu Cymdeithas y Pridd, Sustain and Food Matters – Synnwyr Bwyd Cymru yw'r partner cyflawni allweddol yng Nghymru**. Byddai defnyddio rhwydwaith sefydledig o bartneriaethau bwyd, sy'n ganolog

i fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, yn ffordd effeithlon o ddefnyddio'r arbenigedd a'r cydweithrediadau presennol i ddatblygu a chyflawni cynlluniau bwyd lleol.

**400.** Yng Nghymru ar hyn o bryd mae saith aelod yn rhan o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a gefnogir gan seilwaith Synnwyr Bwyd Cymru presennol, gan gynnwys Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy, Bwyd RhCT, Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent, Partneriaeth Bwyd Gogledd Powys a Bwyd Sir Gâr yn Sir Gaerfyrddin. Ariennir Lleoedd Bwyd Cynaliadwy gan Sefydliad Esmeé Fairbairn a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

**401.** Mae rhagor o enghreifftiau presennol o bartneriaethau bwyd a gweithio rhanbarthol yn cynnwys cydweithio rhwng Cyngor Sir Fynwy, **Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Thorfaen i gyflawni prosiect y Gronfa Adnewyddu Cymunedol "Food4Growth".** Nod y prosiect ar y cyd hwn yw cefnogi cynhyrchwyr, proseswyr a gwasanaethau tlodi bwyd i ddatblygu dull system gyfan o ddatblygu bwyd lleol.

**402.** Yn ystod trafodaethau bord gron â rhanddeiliaid, tynnwyd sylw at Fwrdeistref Sirol Caerffili fel enghraifft o arfer gorau ar gyfer rhaglenni bwyd cymunedol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r sefydliad arweiniol ar gaffael bwyd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff sector cyhoeddus eraill. Mae'r cyngor yn arwain ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer 16 awdurdod lleol ar gaffael bwyd gyda'r nod o ddatblygu mwy o gadwyni cyflenwi yn lleol. Mae wedi cael canmoliaeth genedlaethol am ei hagwedd tuag at **ddarparu dros 2 filiwn** o brydau ysgol iach a maethlon am ddim ers dechrau'r pandemig. Fel rhan o **Gynllun Corfforaethol y cyngor (2018-2023), mae wedi ymrwymo** i gynyddu ymwybyddiaeth o fwyd iach lleol a fforddiadwy, a'i argaeledd, drwy weithio ar draws sectorau gwahanol.

**403.** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i gynnwys Gwerth Cymdeithasol fel maen prawf pwysol ar gyfer caffaeliadau o fwy na £75,000, y mae'n rhaid iddynt fod ag isafswm o 10 y cant o werth cymdeithasol.

**404.** Fel y nodwyd yn gynharach, bydd angen i'r Comisiwn Bwyd ddarparu canllawiau ymarferol. Mae enghreifftiau da iawn eisoes o arfer da yn y maes hwn (gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Caerffili) y gellir eu defnyddio fel astudiaethau achos i rannu arfer gorau a sicrhau bod y broses o sefydlu a gweithredu cynlluniau yn effeithlon ac yn effeithiol.

**405.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol nodi cynllun bwyd lleol. Mae'r cynllun hwn yn destun ymgynghoriad, a bydd y corff yn ystyried

yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhaid adrodd ar gynlluniau bob dwy flynedd a'u hadolygu o leiaf bob pum mlynedd a gwneud diwygiadau yn ôl yr angen.

**406.** Felly, bydd costau ychwanegol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol er mwyn cyflawni gwaith cydgysylltu, ymgynghori lleol, cyhoeddi a chodi ymwybyddiaeth. Nid oes costau cyfalaf.

**407.** Bydd angen amser staff ychwanegol i gydgysylltu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau bwyd lleol; drafftio; ymgynghori ac asesu ymatebion; cyhoeddi dogfen derfynol; codi ymwybyddiaeth yn y sefydliad bod angen i swyddogion ystyried y cynlluniau wrth arfer swyddogaethau; a chydgysylltu ac adrodd ar gynnydd bob dwy flynedd.

**408.** Er y bydd rhai sefydliadau sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y meysydd hyn, tybir y bydd yr amser staff ychwanegol sydd ei angen i wneud y gwaith hwn yr un fath ym mhob corff cyhoeddus. Hefyd, mae potensial i gyrff cyhoeddus gydweithio, er enghraifft, mae cydweithio eisoes rhwng awdurdod Caerffili, awdurdodau lleol eraill a Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG. Gallai Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG hefyd roi arweiniad o ran cefnogi'r gwaith o lunio cynlluniau ar gyfer byrddau iechyd, i leihau unrhyw feichiau gweinyddol.

**409.** Mae'r costau amcangyfrifedig yn seiliedig ar raddfeydd cyflog awdurdodau lleol, gyda thybiaeth 3 y cant ychwanegol at gyflogau presennol. Asesiad o'r amser adnoddau staff gofynnol i ddatblygu'r cynlluniau bwyd lleol cyntaf a chyflawni gwaith cysylltiedig yw 20 y cant o aelod staff ar bwynt 40, sef £64,762 gan gynnwys £12,952 mewn argostau ac 20 y cant o aelod staff ar bwynt 25, sef £43,676 gan gynnwys £8,735 mewn argostau. Felly, y gost yw £21,687 fesul sefydliad sector cyhoeddus.

**410.** Mae cymhwyso'r ffigur hwnnw i bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r 7 bwrdd iechyd lleol yn rhoi cyfanswm cost o £628,923. Mae digon o adnoddau yn yr ystod cyllid cyffredinol a awgrymwyd yn gynharach yn yr asesiad effaith hwn i gefnogi cyrff cyhoeddus sy'n dymuno ymgynghori â'r Comisiwn Bwyd ynghylch drafftio'r cynlluniau hyn.

**411.** Amcangyfrifir bod costau ymgynghori yn unol â'r amcangyfrifon y cytunwyd arnynt ym Mil Cenedl Bwyd Da yr Alban. Y gost yw rhwng £500 a £2,500 y corff, yn ogystal â £2,000 ar gyfer dadansoddi'r ymgynghoriad. Amcangyfrifir y bydd y costau cyhoeddi rhwng £500 a £1,000. Yn ogystal, bydd costau cyfieithu rhwng tua £625 a £1,250.

***Tabl 9: Ystod amcangyfrifedig o gostau llunio'r cynllun lleol cyntaf ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, blwyddyn 3***

| Awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol | Costau staff | Ymgynghori | Cyhoeddi | Cyfieithu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystod isaf | 628,920 | 72,500 | 14,500 | 18,130 | 734,050 |
| Ystod Uchaf | 628,920 | 130,500 | 29,000 | 36,250 | 824,670 |

**412.** Yn dilyn cyhoeddi cynlluniau bwyd lleol, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad bob dwy flynedd. Rhagwelir y bydd cynlluniau bwyd lleol ac adroddiadau yn cael eu cydgysylltu a'u cyfuno â gofynion adrodd eraill o dan ddeddfwriaeth fel Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Tybir y bydd hyn yn cymryd 5 y cant o amser aelod staff ar bwynt 40, sef £3,238 gan gynnwys £15,432 mewn argostau a 5 y cant o amser aelod staff ar bwynt 25, sef £43,676 gan gynnwys £2,184 mewn argostau. Felly, y gost fydd £5,422 fesul sefydliad sector cyhoeddus. Ar gyfer y 29 sefydliad a fydd yn cyflwyno adroddiad, byddai hyn yn costio £157,238 bob dwy flynedd.

**413.** Bydd y costau i oruchwylio ac adolygu perfformiad swyddogaethau cyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r nodau bwyd a'r targedau bwyd a chraffu ar gynlluniau bwyd lleol ar gyfer y Comisiwn Bwyd yn rhan o'r gost gyffredinol a amcangyfrifwyd yn gynharach yn yr asesiad hwn.

**414.** Gwnaeth trafodaethau â rhanddeiliaid gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr amlygu'r angen am fecanweithiau adrodd sy'n dod dan gynlluniau bwyd lleol i gyd-fynd ag amserlenni adrodd presennol ac i osgoi dyblygu data sydd eisoes ar gael. Gallai uno â gofynion adrodd eraill o dan ddeddfwriaeth gyfredol (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)) arwain at fwy o effeithlonrwydd mewn penderfyniadau polisi bwyd ar lefel awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

**415.** Cost cymhwyso'r ffigurau a thybiaethau uchod i bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r 7 bwrdd iechyd lleol yw £157,238 y flwyddyn. Gallai costau cyhoeddi fod rhwng £14,500 a £29,000 yn ychwanegol at hyn. Felly amcangyfrifir y bydd y gost bob dwy flynedd rhwng £171,740 a £186,240.

**416.** Bydd costau mewn perthynas â'r adolygiad 5 mlynedd o gynlluniau yn disgyn y tu allan i'r amserlen ar gyfer costau'r asesiad effaith hwn.

**417.** Rhagwelir y bydd costau cynhyrchu'r cynlluniau bwyd ar gyfer cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn gwneud gwaith sylweddol gyda'u cymunedau yn llawer is. Hefyd, ar gyfer cyrff eraill, bydd y cynlluniau bwyd yn eu helpu i feintioli'r hyn y maent yn ei wneud, dysgu gan eraill, lleihau dyblygu a mynediad a defnyddio cyllid presennol yn fwy effeithlon.

***Tabl 10: Ystod amcangyfrifedig o gostau adrodd ar gynllun lleol ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, blwyddyn 5***

| Awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfanswm |
|---|---|
| Ystod isaf | 171,740 |
| Ystod Uchaf | 186,240 |

## Costau ar gyfer swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**418.** Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi darparu amcangyfrifon o gostau blynyddol ymgysylltu â'r Comisiwn Bwyd, o ran staff uwch ac adnoddau gweinyddol. Hefyd, darperir costau i gefnogi cyrff cyhoeddus i ddatblygu nodau bwyd a dyletswyddau. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar fewnbwn blynyddol o nifer y diwrnodau ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, arweinydd materion cyhoeddus (Gradd 5), tîm cymorth cyrff cyhoeddus (Gradd 5), dadansoddwr newid tîm cyrff cyhoeddus (Gradd 3) a chymorth tîm (gradd 1). Amcangyfrifir mai'r costau blynyddol cyffredinol yw £21,284.

## Gweithredu cynlluniau bwyd lleol

**419.** Bydd y Bil yn arwain y gwaith o ddarparu system fwyd fwy cynaliadwy, leol drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, a ddiffinnir fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, ddatblygu cynlluniau bwyd lleol.

**420.** Bydd cynlluniau bwyd lleol yn rhoi hwb i'r sector bwyd a diod yng Nghymru drwy:

- Gryfhau cydnerthedd cadwyni cyflenwi bwyd lleol
- Creu cyfleoedd economaidd newydd mewn cymunedau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus lleol yn cynyddu eu caffaeliad o fwyd a gynhyrchir yn lleol
- Gwella'r amgylchedd lleol drwy ganolbwyntio ar gynhyrchu cynnyrch mwy cynaliadwy

**421.** Gall cynlluniau bwyd lleol hefyd edrych ar ffyrdd o wella iechyd y cyhoedd a llesiant lleol, gan gynnwys prosiectau tyfu a rhaglenni cymorth wedi'u teilwra i'r rhai sydd mewn perygl o dlodi bwyd a diffyg maethiad.

**422.** Bydd cynlluniau bwyd lleol yn adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes ar waith ledled Cymru. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrthi'n arwain ar gaffael ar gyfer 16 o awdurdodau lleol ac yn gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gaffael. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd yn ymrwymo i ddefnyddio gwerth cymdeithasol fel paramedr allweddol o gaffael – yn 2020 enillodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gategori Gwerth Cymdeithasol Gwobrau GO Cymru am ei waith cadwyn gyflenwi leol.

**423.** Mae Cyngor Caerffili hefyd yn arwain y gwaith o fynd i'r afael â'r pwysau a roddir i bris ac ansawdd o ran caffael. Mae Cyngor Caerffili yn defnyddio 40 y cant pris a 60 y cant ansawdd yn ei dendrau ar gyfer llaeth, cig ffres a chig wedi'i goginio, a ffrwythau a llysiau – o'u cymharu â 70 y cant pris a 30 y cant ansawdd a ddefnyddir gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru.

**424.** Mae Strategaeth Bwyd Da Bwyd Caerdydd yn enghraifft arall o arfer da cyfredol. Cafodd y strategaeth ei chydgynhyrchu gan bron 2,500 o unigolion a sefydliadau yn y ddinas, gyda'r nod o geisio creu Caerdydd iach ac amgylcheddol gynaliadwy, economi leol ffyniannus, mudiad bwyd grymusol a system fwyd deg a chysylltiedig. Bu Bwyd Caerdydd yn gweithio gyda 15 o bartneriaid yn ystod 2021/22 i ddarparu dull amlochrog o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol diffyg diogeledd bwyd. Daeth Cyngor Caerdydd yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf yn y DU i gyhoeddi ei **Strategaeth Fwyd ei hun** yn 2019. O ran caffael, **nod y strategaeth** yw adolygu camau gweithredu, a chytuno arnynt, i sicrhau bod opsiynau bwyd yn iach, yn lleol ac yn cael effaith amgylcheddol isel. Mae Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnwys maes blaenoriaeth cymunedau iechyd ac ymrwymiad i ddatblygu partneriaethau bwyd cynaliadwy.

**425.** Mae **Cynllun Gweithredu Datblygu Bwyd** Cyngor Sir Fynwy yn ceisio cynyddu cyfleoedd cyflogaeth lleol a chreu cyfoeth, yn ogystal â lleihau milltiroedd bwyd amgylcheddol. Mae enghraifft o gydweithio rhwng Cyngor Sir Fynwy, Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Thorfaen i gyflawni prosiect y Gronfa Adnewyddu Cymunedol "Food4Growth". Nod y prosiect ar y cyd hwn yw cefnogi cynhyrchwyr, proseswyr a gwasanaethau tlodi bwyd i ddatblygu dull system gyfan o ddatblygu bwyd lleol. Mae'r prosiect hefyd yn treialu cynlluniau grantiau bach i weithredu fel catalydd ar gyfer

ymgysylltu, cael gwared ar stigma tlodi bwyd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion bwyd lleol. Mae Cyngor Torfaen hefyd yn arwain ar ddatblygu Rhaglen Gwydnwch Bwyd ledled Gwent dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**426.** Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei Strategaeth Bwyd Cymunedol. Bydd y cynlluniau bwyd lleol sy'n cael eu llunio o dan y Bil hwn yn ehangach eu cwmpas na'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a byddant yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn ôl anghenion eu hardaloedd lleol.

**427.** Mae'n debygol y bydd cynlluniau bwyd lleol yn cael eu cysoni â'r strategaethau caffael corff cyhoeddus sy'n ofynnol o dan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol ac i ddarparu cyfarwyddyd wrth weithredu'n lleol. O'r herwydd, bydd y cynlluniau bwyd lleol yn tynnu strategaethau ynghyd sy'n annibynnol ar hyn o bryd i wneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng amcanion cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod polisi ehangach cydlynol.

**428.** Bydd cynlluniau bwyd lleol yn cael eu cydgynhyrchu â'r bobl y byddant yn eu gwasanaethu. Dylai hyn gynnwys gwaith ymgysylltu cynhwysfawr â grwpiau cymunedol, busnesau, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd. Bydd hyn yn eu hymgorffori yn eu cymunedau ac yn adlewyrchu amgylchiadau unigryw pob rhan o Gymru.

**429.** Lle y maent ar waith, dylai Partneriaethau Bwyd Lleol fod â rôl ganolog wrth weithio gyda chyrff cyhoeddus i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau bwyd lleol. Lle nad yw Partneriaethau Bwyd Lleol ar waith, dylai eu sefydlu gael blaenoriaeth yn y cynllun bwyd lleol.

**430.** Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus adrodd ar effeithiolrwydd eu cynlluniau bwyd o leiaf bob dwy flynedd o'u dyddiad cyhoeddi cyntaf. Gall materion annisgwyl godi, felly nid yw'r Bil yn atal cyrff cyhoeddus rhag darparu diweddariadau interim os bernir bod hyn yn angenrheidiol.

**431.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adolygu eu cynlluniau bwyd lleol o leiaf bob pum mlynedd. Cânt adolygu'r strategaeth ar ôl cyfnod byrrach os bernir bod hyn yn angenrheidiol.

**432.** Adnoddau cyfyngedig sydd ar gael gan gyrff cyhoeddus. Ni ddylai cynlluniau bwyd lleol achosi dyblygu polisïau neu weithgareddau presennol sydd eu hangen eisoes o dan ddeddfwriaeth ar wahân. Dylid datblygu cynlluniau bwyd lleol yn unol â gofynion y Bil ond, lle y mae gweithgaredd priodol eisoes, dylai'r cynllun bwyd lleol gael rôl gydgysylltu.

**433.** Mae **Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006** yn rhoi rhyddid i awdurdodau lleol gynnig prydau bwyd am ddim, ffrwythau ffres, llaeth neu luniaeth arall i'r holl ddisgyblion yn ystod y diwrnod ysgol, ni waeth beth yw incwm y teulu. Pan fo awdurdod lleol yn arfer y pŵer i godi tâl am ddarpariaeth o'r fath, rhaid iddo godi'r un pris ar bob disgybl neu berson arall am yr un faint o'r un eitem. Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau arlwyo 'mewnol' i'r mwyafrif o ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol. Mae darparwyr prydau ysgol eraill yn cynnwys arlwywyr dan gontract ac ysgolion, sy'n cyflogi staff arlwyo'n uniongyrchol. Roedd gwariant net ar arlwyo ysgolion (gan gynnwys meithrin i uwchradd) yng Nghymru ar gyfer 2021-22 dros £34 miliwn.

**434.** Fel rhan o'r **Cytundeb Cydweithio** â Phlaid Cymru, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ymrwymiad** y gall yr holl blant ysgol gynradd yng Nghymru gael prydau ysgol am ddim erbyn 2024, gan ddechrau gyda dysgwyr yn y Flwyddyn Derbyn o fis Medi 2022. **Cafodd £225 miliwn ei ymrwymo** i sicrhau cyflawni'r ymrwymiad dros y tair blynedd nesaf.

**435.** Mae'r ffocws ar greu cadwyni bwyd mwy lleol drwy'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol a Chynlluniau Bwyd Lleol, fel y'i sefydlwyd yn y Bil, yn cyd-fynd â'r nodau, sef ehangu prydau ysgol am ddim i blant ysgol gynradd yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y Bil yn helpu i greu'r seilwaith sydd ei angen i alluogi cynhyrchwyr bwyd lleol i fanteisio ar gyfleoedd caffael lleol, megis y rhai a gaiff eu sefydlu drwy'r polisi hwn.

**436.** Mae'r Bil yn rhoi hyblygrwydd cyffredinol i Lywodraeth Cymru, y Comisiynydd Bwyd a'r sector cyhoeddus lunio'r strategaeth genedlaethol, polisïau cysylltiedig a nodau a fydd yn llywio cynlluniau lleol. Bydd y ffordd y bydd hyn yn llywio costau, mantais gymdeithasol a mantais economaidd yn y dyfodol yn dibynnu'n fawr ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y strategaeth hon, yn ogystal â pholisïau a nodau.

**437.** Bwriad y Bil yw helpu i gydgysylltu mentrau a ffrydiau ariannu presennol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, ar 11 Gorffennaf, **cyhoeddwyd cyfres o becynnau ymyrryd**, gan gynnwys cymorth ariannol ar gyfer partneriaethau bwyd traws-sector yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru yn werth £3 miliwn a bydd yn cefnogi datblygu partneriaethau bwyd traws-sector. Yn y dyfodol, bydd y Strategaeth Genedlaethol a phensaernïaeth y Bil hwn yn helpu i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn gydgysylltiedig ac yn adlewyrchu polisi cenedlaethol ac angen lleol. Felly, bydd angen ystyried costau a manteision rhoi cynlluniau lleol ar waith fel rhan o'r gwaith o lunio'r cynlluniau bwyd lleol hyn ac nid oes modd meintioli effaith cost y Bil yn y maes hwn tan ar ôl i'r strategaeth genedlaethol, polisïau a nodau gael eu penderfynu.

### Costau i sefydldiadau gwirfoddol a'r sector preifat

**438.** Nid oes costau yn deillio'n uniongyrchol o'r Bil fel y mae. Bydd effeithiau'r Bil yn bwydo drwy'r strategaeth genedlaethol, yn ogystal â nodau bwyd a chynlluniau bwyd lleol. Bydd y cyfleoedd, y manteision a'r costau yn dod i'r amlwg pan fydd y rhain yn cael eu nodi yn y dyfodol ac nad oes modd eu meintioli ar hyn o bryd.

## Manteision y Bil Bwyd (Cymru)

**439.** Rhoddwyd adborth sylweddol ar yr angen i gydgysylltu polisïau a gofynion gwahanol Llywodraeth Cymru yn y meysydd y mae'r Bil hwn yn ymdrin â hwy. Yn anffodus, ymdrinnir â pholisi bwyd presennol Llywodraeth Cymru mewn seilos ar draws sawl menter, heb ddull system gyfan trosfwaol. Felly, nid yw'n bosibl amcangyfrif costau presennol y status quo ac felly nid yw'n bosibl amcangyfrif yr arbedion o ran sut y byddai'r Comisiwn Bwyd yn lleihau'r baich ar staff presennol Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn y maes hwn.

**440.** At hynny, mae'n anodd meintioli'n union pa fanteision economaidd-gymdeithasol y bydd y Bil yn eu cyflwyno. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd polisïau sy'n cael eu creu drwy'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn ystyried y 'nodau bwyd', sy'n ystyried yr ystod o feysydd polisi y mae bwyd yn rhyngweithio â hwy – fel iechyd, yr amgylchedd a newid hinsawdd. O'r herwydd, rhagwelir y bydd y Bil yn helpu i annog canlyniadau cadarnhaol i gymunedau, ac yn helpu tuag at wella iechyd pobl, creu cyfleoedd economaidd ychwanegol i fusnesau lleol, a sicrhau manteision amgylcheddol.

**441.** Mae'r adran hon yn amlinellu'r manteision canfyddedig y gallai'r Bil hwnnw helpu i'w cyflawni pe bai'n cael ei ddeddfu. Wrth wneud hynny, mae'n cydnabod bod y Bil wedi'i gynllunio i ddwyn ynghyd ymrwymiadau deddfwriaethol a pholisi presennol, gan greu polisïau sy'n atgyfnerthu ei gilydd sy'n ceisio cyflymu'r gwaith o gyflawni eu nodau a'u hamcanion cyffredinol.

### Manteision Iechyd, Llesisnt a Chymdeithasol Posibl

**442.** Mae **bron i 60 y cant o oedolion a 27 y cant o blant Cymru dros eu pwysau neu'n ordew**. Mae gan Gymru'r gyfran uchaf o blant 4-5 oed sydd dros eu pwysau ac yn ordew ym Mhrydain Fawr. Gordewdra yw prif achos cyflyrau iechyd mawr gan gynnwys diabetes math 2, strôc, clefyd cardiofasgwlaidd ac amrywiaeth o ganserau.

**443.** Gwnaeth ein hymgynghoriad â **Diabetes UK Cymru** amlygu bod dros 200,000 o bobl yn byw gyda diabetes yng Nghymru, sy'n cyfateb i 1 o bob 13 o bobl – y nifer fwyaf

o achosion o unrhyw un o wledydd y DU. Roedd 57.2 y cant o blant â diabetes math 1 rhwng 4 a 5 oed yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew, sef cynnydd o 47.2 y cant yn 2019/20.

**444.** Un o'r materion sydd wedi arwain at fwy o achosion o ordewdra a materion iechyd eraill sy'n gysylltiedig â bwyd yw'r hyn y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ei ddiffinio yn ei **ymateb i'r ymgynghoriad** fel 'diffeithdiroedd bwyd'. Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi:

> *…Our most vulnerable in society are often left with the only feasible option being cheap, unhealthy highly processed foods that ultimately harm their and their families' health. Whilst there is a growing industry of online food delivery, research indicates that may not be the solution for people living in 'food deserts' with over 1/3 on low income indicating they would never use online shopping.*

**445.** Mae'r Bil hwn yn canolbwyntio ar wella seilwaith bwyd lleol drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried sut i hyrwyddo argaeledd a fforddiadwyedd bwyd cynaliadwy, iach a gynhyrchir yn lleol. Gall hyn gael yr effaith eilaidd o fynd i'r afael â 'diffeithdiroedd bwyd' drwy gynyddu dewis defnyddwyr yn y cymunedau, creu cysylltiadau cryfach rhwng pobl a chynnyrch bwyd lleol a helpu i greu agweddau iachach tuag at fwyd.

**446.** Gall lleihau ac atal gordewdra drwy maeth gwell a dewisiadau bwyd arwain at welliant mewn iechyd gwladol. Mae gwaith dadansoddi yn 2014 gan **McKinsey Global Institute**, fel yr amlygwyd gan Diabetes UK Cymru, yn archwilio ymyriadau polisi gwahanol ar effaith lleihau gordewdra, gan gynnwys cost-effeithiolrwydd.

**447.** Mae cost economaidd gordewdra i Gymru ar hyn o bryd tua **£3 biliwn** y flwyddyn. Efallai y bydd y Bil yn gweithio tuag at leihau'r baich economaidd ac iechyd hwn. Er y gallai'r gostyngiad economaidd gyfrannu at leihau'r gost flynyddol o £3 biliwn, y fantais fwyaf i'r gymdeithas fydd datblygu poblogaeth iachach sydd â risg is o gymhlethdodau iechyd hirdymor. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol gysylltiedig ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, gyda llai o angen am wasanaethau ac apwyntiadau, gan leihau'r pwysau staffio ac adnoddau wrth sicrhau bod arian ar gael i ddatblygu a gwella gwasanaethau eraill y mae mawr eu hangen.

**448.** Yn y cyfamser, yn ôl y **Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur,** mae 9 y cant o bobl yng Nghymru yn profi diogeledd bwyd isel ac mae un rhan o bump o bobl Cymru yn poeni am redeg allan o fwyd. Gallai'r Bil Bwyd (Cymru) alluogi sefydlu system fwyd fwy

cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogeledd bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr.

**449.** Yn ei thro, mae gan system fwyd fwy cynaliadwy, gyfartal y potensial i sicrhau manteision cymdeithasol ehangach – fel y potensial i wella hawliau plant sydd dan anfantais oherwydd tlodi drwy fesurau i fynd i'r afael â chyfraddau gordewdra yng Nghymru. Mae plant oedran derbyn yn llawer mwy tebygol o fod yn ordew na chyfartaledd Cymru os ydynt yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn **2018/19, roedd 15.2 y cant o'r plant a oedd yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn ordew o'u cymharu ag 8.5 y cant** yn y cwintel lleiaf difreintiedig. Nod y ddeddfwriaeth hon yw lleihau gordewdra a chynyddu cydraddoldeb drwy'r nod bwyd Iechyd a Llesiant, gan gyfrannu at cyfleoedd bywyd gwell i blant o aelwydydd incwm isel.

**450.** Ar ben hynny, canfu Dadansoddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) ar ddwy **raglen Bwyd am Oes** (Kirklees a Calderdale) fod £4.41 o werth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 o fuddsoddiad. Mae Bwyd am Oes yn gweithredu rhaglen o wobrau ysgolion i gefnogi gwaith i ymgorffori bwyd yn y cwricwlwm a'r lleoliad ehangach. Mae rhaglenni Bwyd am Oes a gomisiynir yn lleol yn cynnwys dull cydgysylltiedig rhwng rhwydweithiau o ysgolion, cynhyrchwyr bwyd, cyflenwyr, arlwywyr ac asiantaethau. Canfu dadansoddiad SROI fod cyflenwyr lleol (ffermwyr, proseswyr a chyfanwerthwyr) yn cadw neu'n ennill gwerthiannau newydd drwy gontractau gydag arlwywyr ysgol drwy raglen fel Bwyd am Oes. Yn ogystal, canfuwyd bod disgyblion o ysgolion yn Kirklees a Calderdale a oedd yn ymwneud â'r rhaglen ddwywaith yn fwy tebygol o fwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau neu lysiau o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion nad oeddent yn rhan o'r rhaglen.

## Manteision Amgylcheddol Posibl

**451.** Rhan ganolog o'r Bil yw hyrwyddo system fwyd sy'n lliniaru newid hinsawdd, yn ogystal ag addasu iddo, a hefyd yn lleihau ôl troed carbon Cymru drwy leihau effaith amgylcheddol cynhyrchu, prosesu a bwyta bwyd. Mae'n gwneud hyn drwy gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a newid hinsawdd, yn ogystal â gweithio gyda pholisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol fel y **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** arfaethedig. Gallai hyn leihau'r gost gyffredinol a ysgwyddir gan gymunedau wrth ymateb i newid hinsawdd, yn ogystal â chreu cyfleoedd ar gyfer ffyniant economaidd.

**452.** Mae **Adroddiad Diogeledd Bwyd 2021** diweddar Llywodraeth y DU yn amlygu'r risgiau ariannol sylweddol a achosir gan gamreoli adnoddau naturiol a'r diffyg ymateb i newid hinsawdd. Ar lefel Cymru a Lloegr, amcangyfrifwyd bod diraddio pridd yn costio £1.2 biliwn y flwyddyn, a bod erydiad pridd yn arwain at gosb cynnyrch bosibl £163 miliwn bob blwyddyn.

**453.** Ar y llaw arall, nododd ein hymgynghoriad â'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur y gallai camau amgylcheddol, y gellir eu cymryd tuag at gyrraedd nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, yn eu tro, fod o fudd i rywogaethau a chynefinoedd, gan wella iechyd y pridd ac ansawdd aer a dŵr. Am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi i wella safonau amgylcheddol, **profir bod o leiaf £3.20 o elw**.

**454.** Felly, drwy gryfhau'r fframwaith amgylcheddol y mae system fwyd Cymru yn gweithredu ynddo, gallai'r Bil hwn chwarae rhan mewn cynyddu potensial y tir i gynnal lefelau uwch o gynhyrchu cynaliadwy yng Nghymru wrth sicrhau manteision amgylcheddol. Mae gan y manteision hyn hefyd fanteision ariannol a chymdeithasol cadarnhaol ehangach, fel lleihau'r angen i ailgyfeirio gwariant cyhoeddus tuag at liniaru effeithiau newid hinsawdd.

**455.** Ymhellach, mae 'cyfrifoldeb byd-eang' yn un o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni'r nod cyfrifoldeb byd-eang a'i ystyried ar draws eu holl benderfyniadau.

**456.** Mae gwaith ymchwil a gyhoeddwyd yn 2021 – **Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang** – a gomisiynwyd gan Maint Cymru, WWF Cymru ac RSPB Cymru yn dangos bod 30 y cant o'r tir a ddefnyddir i dyfu mewnforion nwyddau o Gymru mewn gwledydd lle y mae risg uchel neu uchel iawn ar gyfer datgoedwigo a materion cymdeithasol, gan gynnwys llafur plant neu lafur gorfodol.

**457.** Yn y cyfamser, mae **Wrap yn amcangyfrif** ar lefel y DU, y byddai angen ardal bron yr un maint â Chymru i gynhyrchu'r bwyd a diod sy'n cael eu gwastraffu ar hyn o bryd. Yn ôl **Wrap Cymru**, cynhyrchwyd tua 525,000 tunnell o wastraff bwyd yng Nghymru yn 2018.

**458.** Rhagwelir y bydd y Bil arfaethedig yn sicrhau bod ein hôl troed byd-eang a'n rhwymedigaethau wrth wraidd penderfyniadau yng Nghymru. Mae'r Bil yn nodi dull cyfannol o ran y system fwyd, yn ogystal â chreu cyswllt cryf â nodau a darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gynnwys nodau bwyd – yn

enwedig y nod llesiant 'Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Yn ogystal â helpu i leihau effeithiau byd-eang negyddol ein dewisiadau, bydd yn hyrwyddo Cymru fel dinesydd byd-eang da sy'n gwneud penderfyniadau moesegol ynghylch ei system fwyd i fynd i'r afael â materion rhyngwladol.

## Manteision Economaidd Posibl

**459.** Mae’n bosibl y bydd ffocws y Bil ar leihau effaith cynhyrchu bwyd ar yr amgylchedd byd-eang drwy fyrhau cadwyni cyflenwi – fel y gobeithir ei sefydlu drwy’r Strategaeth Fwyd Genedlaethol a Chynlluniau Bwyd Lleol – yn dod â manteision economaidd cadarnhaol i gynhyrchwyr lleol.

**460.** Mae’n anodd meintioli yn union beth fydd yr effaith bosibl hon gan fod hyn yn dibynnu ar y graddau y mae cyrff cyhoeddus yn gallu cyrchu cynnyrch lleol, yn ogystal â chapasiti ac adnoddau cynhyrchwyr lleol i ateb y galw. Mae cyrff cyhoeddus hefyd wedi’u rhwymo gan eu contractau caffael presennol, a allai gyfyngu ar eu gallu i ddod o hyd i fwy o gynnyrch lleol yn y tymor byr i ganolig.

**461.** Fodd bynnag, wrth ddweud hyn, gallai caffael bwyd lleol yn gyhoeddus fod yn farchnad sylweddol i gynhyrchwyr yng Nghymru. Gellir dadlau bod cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd yn tanddefnyddio bwyd a gynhyrchir yn lleol wrth ystyried eu contractau caffael. Mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Tachwedd 2022, **dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y canlynol**:

> … *Mae gwariant ar gaffael bwyd y sector cyhoeddus oddeutu £84 miliwn y flwyddyn…*
>
> … *Ac er fy mod yn cytuno'n llwyr fod rhaid inni ddefnyddio caffael cyhoeddus i ysgogi newid eang, rhaid inni roi hyn yn ei gyd-destun hefyd: mae cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gaffael bwyd yng Nghymru yn debyg i wariant defnyddwyr mewn un siop archfarchnad fawr yn unig yng Nghaerdydd…*
>
> *…Felly.. mae angen newid patrymau prynu bwyd ar lefel cymdeithas.*

**462.** Felly mae’r Bil hwn yn canolbwyntio ar osod gofynion ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ganolbwyntio mwy ar sut y maent yn caffael bwyd lleol, ar y cyd â ffocws y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** ar ‘gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol’, gan helpu i greu mwy o gyfleoedd i gynhyrchwyr o Gymru gyflenwi eu

cynnyrch. Yn ei dro, gall hyn arwain at fwy o gyfleoedd i gwmnïau o Gymru ehangu eu gweithrediadau i ateb y galw a chreu mwy o swyddi yn eu cymuned.

**463.** Gallai'r nod gwastraff bwyd a sefydlwyd gan y Bil gael effaith gadarnhaol ar gyllid teuluoedd. Mae **Wrap** yn amcangyfrif – yn ôl lefelau gwastraff bwyd 2018 yn y DU – fod bwyd y gallai fod wedi'i fwyta ond sy'n cael ei daflu yn werth tua £14 biliwn ar lefel y DU. Mae hyn tua £60 y mis ar gyfer y teulu cyffredin â phlant. Yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, byddai gostyngiad o'r fath mewn biliau bwyd yn helpu i wella cyllid pobl, yn ogystal â rhoi mwy o incwm gwario iddynt ei roi yn ôl i economïau lleol.

## Manteision Posibl i Gyrff Cyhoeddus

**464.** At hynny, gallai'r Bil gael effaith ariannol gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus, fel Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, drwy'r bwriad o resymoli polisïau sy'n ymwneud â bwyd drwy'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol a Chynlluniau Bwyd Lleol. Bydd y darpariaethau hyn yn annog cyrff cyhoeddus i ystyried a chydgrynhoi eu polisïau a'u cynlluniau ariannu presennol sy'n gysylltiedig â chefnogi mentrau sy'n ymwneud â bwyd a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â bwyd.

**465.** Gall hyn olygu bod cyrff yn gallu nodi meysydd gwariant dyblyg, neu feysydd lle nad yw gwariant cyfredol wedi cyflawni ei nodau gwreiddiol. Felly, gallai'r Bil sicrhau bod mwy o gyllid ar gael y gellid ailgyfeirio adnoddau ychwanegol ynddo er mwyn cyflawni nodau'r Bil hwn a'i amcanion ehangach yn well.

**466.** Fel y trafodwyd mewn man arall yn yr adran hon, mae gan y Bil Bwyd (Cymru) fanteision cymdeithasol ehangach a allai helpu i leihau'r angen am wariant cyhoeddus ychwanegol sydd ei angen ar hyn o bryd i wynebu heriau cymdeithasol parhaus. Er enghraifft, gall ffocws y Bil ar sefydlu 'dosbarthiad tecach o fwyd iach a chynaliadwy o fewn cymunedau' – fel y nodir yn y nod bwyd Iechyd a Llesiant – helpu lefelau tlodi bwyd yng Nghymru. Er y byddai hyn yn amlwg yn cael canlyniad buddiol i gymunedau, gall gael effaith ganlyniadol o leihau gwariant Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan dlodi bwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £4.9 miliwn yn y flwyddyn ariannol bresennol i liniaru tlodi bwyd, ac i fynd i'r afael â'i achosion sylfaenol.

# 10. Asesiadau Effaith Penodol

Mae'r bennod hon yn nodi canlyniadau'r asesiadau effaith penodol a gynhaliwyd fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## A) Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder (Rheol Sefydlog 26.6 (xii))

**467.** Lluniwyd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gyfiawnder (yr Asesiad) yn unol ag adran 100 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 26.6(xii).

**468.** Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru na'r Rheolau Sefydlog yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i Asesiad ei gynnwys, nac ar ba fformat y dylai fod, dim ond ei fod yn ofyniad bod Asesiad yn cael ei gynnal. Wrth ystyried manylion yr Asesiad ar gyfer y Bil hwn, rwyf wedi ystyried yn fanwl ganllawiau profion effaith ar gyfiawnder y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ynghyd â'r ffurflen brawf berthnasol. Rwyf hefyd wedi ystyried canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder.

**469.** Er bod y ddwy set o ganllawiau wedi'u hanelu'n bennaf at Adrannau'r Llywodraeth, maent yn ffurfio sail dda o ran sut i fynd i'r afael â'r Asesiad ar gyfer y Bil hwn.

**470.** Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn nodi dau gwestiwn allweddol y mae'n rhaid eu hystyried wrth gadarnhau a oes rhaid cynnal Prawf Effaith ar Gyfiawnder llawn. Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi:

> *"Do I need to complete a JIT?*
>
> *A JIT needs to be completed for all new policy proposals that could potentially have an impact on any aspect of the justice system. Even if the impacts are expected to be minimal, this must be supported by evidence and agreed between MoJ and the policy-owning department via the JIT process.*
>
> *The key questions that policy-makers should ask themselves are:*

*• Is it possible that the policy will increase or decrease the volume of cases going through the courts or tribunals? and/or*

*• Will the policy change the way that cases are dealt with by the justice system?*

*If the answer to either question is yes, there will be a justice impact however small the change in volume or process might be."*

**471.** Rwyf wedi ystyried effeithiau posibl y cynigion a nodir yn y Bil Bwyd (Cymru) ar y system gyfiawnder, gan gynnwys ar:

a. llysoedd (troseddol a sifil);

b. tribiwnlysoedd heb eu datganoli;

c. tribiwnlysoedd datganoledig;

d. cymorth cyfreithiol;

e. y farnwriaeth;

f. cyrff erlyn; ac

g. carchardai, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau prawf.

**472.** Nid yw'r Bil Bwyd (Cymru) yn creu unrhyw droseddau, sancsiynau na chosbau newydd. Rwy'n fodlon na fydd yn cael effaith ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Na clir yw'r ateb i'r ddau gwestiwn allweddol a nodir yng nghanllawiau'r Llywodraeth.

## B) Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

### Cyflwyniad

**473.** Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant yn ystyried effaith y Bil Bwyd (Cymru) ar blant yng Nghymru a'u hawliau hwy o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

**474.** Fe'i drafftiwyd gan gyfeirio at **fframwaith Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru Comisiynydd Plant Cymru** a **thempled ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant: canllawiau i staff Llywodraeth Cymru**.

**475.** Wrth lunio'r Bil, mae hawliau plant wedi cael eu hystyried o ran y ffordd y bydd yr amcanion polisi y mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni, yn cael effaith gadarnhaol neu i'r gwrthwyneb ar erthyglau'r confensiwn.

### Crynodeb

**476.** Asesir bod effaith y ddeddfwriaeth hon ar hawliau plant yn un gadarnhaol ac felly y dylid ei phasio a'i deddfu.

**477.** Caiff y ddeddfwriaeth ei chymhwyso'n gyffredinol i hyrwyddo hawliau pob plentyn yng Nghymru drwy'r mesurau cyffredinol a nodir yn ddiweddarach yn yr asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant. Nid oes grwpiau o blant a fydd yn cael eu heithrio, neu a fydd dan anfantais yn sgil y polisi hwn, naill ai'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol.

**478.** Mae ganddi'r potensial i wella hawliau plant sydd dan anfantais oherwydd tlodi drwy fesurau i fynd i'r afael â chyfraddau gordewdra yng Nghymru. Mae plant oedran derbyn yn llawer mwy tebygol o fod yn ordew na chyfartaledd Cymru os ydynt yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Yn 2018/19, roedd 15.2 y cant o blant a oedd yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn ordew, o'u cymharu ag 8.5 y cant yn y cwintel lleiaf difreintiedig. Nod clir y ddeddfwriaeth hon yw lleihau achosion o ordewdra a gwella cydraddoldeb drwy Nod Bwyd Eilaidd 2, gan gyfrannu at gyfleoedd bywyd gwell i blant o aelwydydd incwm isel.

### Diben y Bil

**479.** Mae'r Bil Bwyd (Cymru) yn ceisio sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogeledd bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Mae'r Bil hefyd yn darparu fframwaith sy'n galluogi dull trawslywodraethol sy'n gydlynol, yn gyson ac yn strategol ar gyfer ymdrin â pholisi ac arfer ar bob agwedd ar y system fwyd.

**480.** Prif ffocws y Bil – y Nod Bwyd Sylfaenol yw – "*darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru*". Mae'r Nodau Bwyd Eilaidd yn sail i hyn a bydd Gweinidogion Cymru yn gosod targedau penodol mewn meysydd allweddol gan gynnwys 'Iechyd a Chymdeithasol', 'Addysg' a'r 'Amgylchedd'.

**481.** Yna, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi Strategaeth Fwyd Genedlaethol a bydd yn rhaid iddi nodi'r strategaeth gyffredinol a'r polisïau unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd.

**482.** Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd, lunio a chyhoeddi cynllun bwyd lleol sy'n nodi'r polisïau unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyfrannu at hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd.

**483.** Mae'r polisïau sy'n sail i'r Bil, felly, yn gyffredinol a'r effaith fydd gwella'r system fwyd ar lefel genedlaethol a lleol, ac ar draws pob agwedd arni. Credwn y bydd hyn o fudd i bobl o bob oed, ac y bydd gweithredu darpariaethau'r Bil yn llwyddiannus yn arwain at effaith gadarnhaol ar blant.

## Y gofynion ar Weinidogion Cymru

**484.** Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Opsiynol wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gamau y bydd angen eu cymrud o ganlyniad i'r Bil.

**485.** Mae'r Bil hefyd yn mynd gam bach ymhellach ac mae'n gosod gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru, wrth lunio'r strategaeth fwyd genedlaethol, i roi sylw i gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig a ganlyn:

- *Erthygl 11 (i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd digonol) o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol,*

- *Erthygl 24(2)(c) (i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu bwydydd maethlon digonol) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,*

- *Erthygl 27(1) a (3) (i'r graddau y mae'n ymwneud â maeth) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,*

*- Erthygl 12(2) (i'r graddau y mae'n ymwneud â maeth digonol yn ystod beichiogrwydd a llaetha) o'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod.*

**486.** Bydd y fframwaith a nodir yn y Bil, a'r gofynion penodol a osodir ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, yn ein tyb ni, yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant.

## Effaith y Bil ar blant

### a) Hawl i oroesi a'r hawl i gael eich amddiffyn rhag llygredd amgylcheddol: erthyglau 6 a 27

**487.** Mae UNICEF wedi datgan bod yr argyfwng hinsawdd yn argyfwng hawliau plant. Mae hawliau sylfaenol mynediad at ddŵr glân, aer glân ac iechyd dan fygythiad oherwydd newid hinsawdd ac mae plant yn agored i niwed mewn modd anghymesur. Mae'r DU wedi cael sgôr 'canolig' ar y mynegai risg oherwydd cysylltiad uchel â sioc a pheryglon amgylcheddol, sy'n dangos bod hawliau plant yn y DU dan fygythiad oherwydd newid hinsawdd.

**488.** Dylai unrhyw gamau a gymerir i liniaru'r newid yn yr hinsawdd a lleihau cysylltiad â pheryglon llygredd aer o'r fath a thywydd eithafol leihau bygythiadau i hawliau plant yng Nghymru a gwella llesiant.

**489.** Mae'r Nod Bwyd Eilaidd yn y Bil ar gyfer yr Amgylchedd yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru osod targedau ar gyfer:

- Gwella ac adfywio'r amgylchedd naturiol drwy gynhyrchu bwyd
- Adfer a chynnal bioamrywiaeth a chynefinoedd drwy gynhyrchu bwyd
- Hybu system fwyd sydd—

  a) yn lliniaru ac yn addasu i newid hinsawdd; a

  b) lleihau ôl troed amgylcheddol byd-eang Cymru.

**490.** Bydd hyn yn sicrhau y gall y Bil chwarae ei ran i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a fydd yn cael mantais gadarnhaol i blant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**491.** Rydym hefyd yn gwybod bod gorbryder hinsawdd yn bryder cynyddol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn eisoes wedi cael ei drafod yn y Senedd mewn cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Rydym yn nodi mai'r Hinsawdd a'r Amgylchedd yw un o'r tair blaenoriaeth a ddewiswyd gan Aelodau'r Ail Senedd Ieuenctid.

**b) Hawl i iechyd a datblygiad: erthygl 6, erthygl 24, ac erthygl 27**

**492.** Mae darparu bwyd iach wedi'i gynnwys yn Nod Bwyd Sylfaenol y Bil. Mae'r Nod Bwyd Eilaidd yn y Bil ar Iechyd a Chymdeithasol yn cynnwys nifer o feysydd y bydd Gweinidogion Cymru yn gosod targedau ar eu cyfer. Credwn y bydd y rhain oll hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant. Er enghraifft, wrth fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer Cymru gyfan yn dangos bod 12.6 y cant o blant yng Nghymru wedi'u nodi yn y categori gordew.

**493.** Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Lleihau diffyg maeth, tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd.
- Lleihau gordewdra.
- Annog dosbarthiad teg o fwyd iach a chynaliadwy o fewn cymunedau.
- Hybu manteision llesiant cymdeithasol bwyd, er enghraifft drwy dyfu cymunedol a thrwy randiroedd.
- Hybu pwysigrwydd bwyta bwyd iach er mwyn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.

**c) Hawl i ddatblygiad, addysg bwyd a maeth: erthygl 6 ac erthygl 24**

**494.** Mae Nod Bwyd Eilaidd arall yn y Bil yn ymwneud ag Addysg, ac unwaith eto, mae'n cynnwys nifer o feysydd y bydd Gweinidogion Cymru yn gosod targedau ar eu cyfer. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Cynyddu ansawdd a hygyrchedd darpariaeth addysgol ar faterion sy'n ymwneud â bwyd.
- Datblygu sgiliau bwyd er mwyn sicrhau deiet gwell ac iachach a llesiant gwell.

**495.** Bydd gwella addysg ar fanteision bwyd iach yn cynnig manteision i bob oedran. Dylai darparu addysg i gynnwys plant a phobl ifanc fanteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd i ddatblygu ffyrdd iach o fyw pan maent yn ifanc. Er mai Llywodraeth Cymru fyddai'n gosod unrhyw dargedau sy'n ymwneud â'r meysydd hyn, ac i gyrff cyhoeddus wreiddio'r rhain yn eu cynlluniau bwyd lleol, mae lle amlwg i dargedau estyn i ysgolion, meithrinfeydd, a lleoliadau eraill lle y darperir bwyd i blant.

### Ymgynghori

**496.** Cynhaliwyd dau ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth arfaethedig hon. Bydd rhai o'r manteision sy'n cael eu nodi yn yr ymatebion hyn yn cael effaith glir a chadarnhaol ar hawliau plant - fel hawliau o ran iechyd a'r amgylchedd. Dywedodd Tîm Iechyd y Cyhoedd Aneurin Bevan Gwent y canlynol:

> *the recent commitment to provide universal Free School Meals to all Primary aged children also included the desire to increase the amount of locally produced food. This ties in with the commitment to produce a Community Food Strategy to strengthen local food supply chains.*

**497.** Ni chodwyd pryderon yn benodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

## C) Effaith ar y Gymraeg

### Diben y Bil

**498.** Mae'r Bil Bwyd (Cymru) yn ceisio sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogeledd bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Mae'r Bil hefyd yn darparu fframwaith sy'n galluogi dull trawslywodraethol sy'n gydlynol, yn gyson ac yn strategol ar gyfer ymdrin â pholisi ac arfer ar bob agwedd ar y system fwyd.

**499.** Ni wnaeth ymgyngoriadau cyhoeddus ar y cynigion, gan gynnwys ymgynghori ar y Bil drafft, arwain at unrhyw ymgynghorai yn amlinellu ffordd y gallai'r cynigion hyn niweidio'r Gymraeg. Ni fydd y cynigion yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith nac ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran.

**500.** Er na fydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith uniongyrchol ar bolisïau Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg, credaf y gallai'r Bil arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol ar draws y sector amaethyddiaeth.

**501.** Er gwaethaf maint bach y sector amaethyddiaeth (2 y cant o holl weithwyr Cymru), mae amaethyddiaeth yn cyfrif am gyfran gymharol fwy o'r holl siaradwyr Cymraeg (5 y cant o'r holl siaradwyr). Y sector amaethyddiaeth sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru, sef 43 y cant, o gymharu hynny â'r cyfartaledd o weithwyr ar draws pob sector sef 16.6 y cant.

**502.** Ceir tystiolaeth bod busnesau bwyd-amaeth, gan gynnwys amaethyddiaeth, yng Nghymru yn darparu amodau mwy ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o'i gymharu â diwydiannau eraill,

gyda chyfrannau uchel o'r gweithlu yn gallu siarad Cymraeg, yn ogystal â'i defnyddio yn y gweithle. Mae ymchwil yn dangos bod bron i ddwy ran o dair (65 y cant) o siaradwyr Cymraeg ar ffermydd bach a bach iawn yng Nghymru yn siarad yr iaith bob dydd.

**503.** O ystyried y gyfran gymharol uchel o Gymry Cymraeg mewn amaethyddiaeth, pa mor gyffredin yw'r Gymraeg ar ffermydd teuluol bach, a'r dystiolaeth bod y gweithwyr yn y diwydiant yn siarad Cymraeg bob dydd, mae'n bosibl y gallai'r Bil gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

**504.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru wneud Strategaeth Fwyd Genedlaethol, a gosod targedau penodol ar gyfer cyflawni'r 'Nodau Bwyd' a ragnodir yn y Bil. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru i ystyried yn llawn effeithiau ei gwaith ar y Gymraeg.

**505.** Mae dyletswydd statudol hefyd ar gyrff cyhoeddus eraill sydd â dyletswyddau sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil i gyrraedd safonau'r Gymraeg a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Bil hefyd yn darparu i'r Comisiwn Bwyd sydd newydd ei greu gael ei ychwanegu at y rhestr o gyrff cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt gyrraedd safonau'r Mesur hwnnw.

## D) Asesiadau effaith eraill

**506.** Bydd amcanion polisi'r Bil yn cael effaith uniongyrchol ar sawl agwedd ar fywyd. Mae manteision a goblygiadau hyn wedi eu cynnwys yn fanwl ym mhrif gorff y Memorandwm Esboniadol.

**507.** Mae'r effaith benodol ar feysydd gwahanol wedi'i chynnwys yn Rhan 1, Pennod 3: Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael; a Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys yr effeithiau ar y canlynol a'r manteision iddynt:

- Iechyd a llesiant
- Gwledig
- Datblygu Cynaliadwy

# 11. Rhan 3: NODIADAU ESBONIADOL

## Cyflwyniad

**508.** Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer y Ddeddf Bwyd (Cymru), y rhoddwyd caniatâd i Peter Fox AS ei chyflwyno ar 17 Tachwedd 2021, a gyflwynwyd ar 12 Rhagfyr 2022 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar [XXXX]. Fe'u lluniwyd gan Peter Fox AS er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.

**509.** Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf.

## Sylwadau ar yr adrannau

### Nodau bwyd

**510.** Mae adrannau 1 i 3 yn nodi'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd.

### Adran 1

**511.** Mae adran 1 yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus (fel y'i diffinnir yn adran 22) i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo'r nodau bwyd. Y nodau bwyd hyn yw'r nod bwyd sylfaenol (yn adran 2) a'r nodau bwyd eilaidd (yn adran 3).

### Adran 2

**512.** Mae'r adran hon yn nodi'r nod bwyd sylfaenol. Y nod bwyd hwnnw yw darparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru.

### Adran 3

**513.** Mae'r adran hon yn nodi'r nodau bwyd eilaidd. Mae pum nod bwyd eilaidd, ac mae'r tabl yn adran 3 yn disgrifio'r nodau hyn yn fanylach. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio'r disgrifiadau hyn o nodau bwyd eilaidd. Cyn gwneud unrhyw ddiwygiadau, rhaid iddynt ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru yn gyntaf (fel y'i sefydlwyd yn adran 8).

### Targedau bwyd

**514.** Mae adrannau 4 i 7 yn nodi dyletswyddau penodol i Weinidogion Cymru osod ac adolygu targedau bwyd.

### Adran 4

**515.** Rhaid i Weinidogion Cymru osod un neu ragor o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd. Rhaid nodi'r targedau hyn mewn rheoliadau (math o is-ddeddfwriaeth). Rhaid i dargedau fod yn gadarn, hynny yw rhaid bod modd eu mesur a rhaid iddynt gynnwys dyddiad erbyn pryd y cânt eu cyflawni. Rhaid i'r rheoliadau cyntaf sy'n gosod targedau gael eu gwneud o fewn 2 flynedd i'r adran ddod i rym. Rhaid gosod targed ar gyfer pob nod bwyd eilaidd unigol.

### Adran 5

**516.** Cyn gosod y targedau, rhaid i Weinidogion Cymru gael cyngor gan Gomisiwn Bwyd Cymru ac arbenigwyr annibynnol yn gyntaf. Rhaid i dargedau fod yn realistig, hynny yw, rhaid bod modd eu cyflawni.

### Adran 6

**517.** Rhaid i dargedau gynnwys dyddiad adrodd. Ar y dyddiad adrodd hwnnw, neu cyn hynny, rhaid i Weinidogion Cymru wneud datganiad sy'n nodi pa un a yw'r targed hwnnw wedi'i gyflawni ai peidio. Os nad yw'r targed yn mynd i gael ei gyflawni, rhaid i'r datganiad nodi’r rhesymau dros hynny, a pha fesurau sy'n cael eu cymryd i'w gyflawni. Rhaid cyhoeddi’r adroddiad hwn a’i osod gerbron y Senedd.

### Adran 7

**518.** Rhaid adolygu targedau o leiaf unwaith bob 5 mlynedd i benderfynu a fyddai'r targed yn cyfrannu tuag at gyrraedd y nod bwyd sylfaenol. Rhaid cyhoeddi adolygiadau a’u gosod gerbron y Senedd. Rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan Gomisiwn Bwyd Cymru wrth gynnal adolygiadau.

### Comisiwn Bwyd Cymru

**519.** Mae adrannau 8 i 11 a'r Atodlen yn sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru.

### Adran 8

**520.** Mae Adran 8 yn sefydlu corff cyhoeddus newydd, sef Comisiwn Bwyd Cymru, neu the Welsh Food Commission yn Saesneg.

### Adran 9

**521.** Prif ddiben y Comisiwn yw hyrwyddo'r nodau bwyd a hwyluso cyflawni'r targedau bwyd.

## Adran 10

**522.** Mae'r adran hon yn nodi'n fanylach sut y mae'r Comisiwn i gyflawni ei rôl. Yn gyffredinol, mae'n cynghori ac yn hysbysu'r Llywodraeth, yn craffu ar bolisïau swyddogol ac yn addysgu'r Llywodraeth a'r cyhoedd ar faterion bwyd.

## Adran 11

**523.** Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen. Mae'r Atodlen yn nodi manylion prosesau gweinyddol y Comisiwn.

## Strategaeth fwyd genedlaethol

**524.** Mae adrannau 12 i 16 yn nodi dyletswyddau newydd i Weinidogion Cymru wneud strategaeth fwyd genedlaethol, adrodd arni a'i hadolygu. Rhaid i bob corff cyhoeddus weithio tuag at y strategaeth hon.

## Adran 12

**525.** Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu strategaeth fwyd genedlaethol o fewn 2 flynedd. Rhaid i hyn gwmpasu'r dull cyffredinol y byddant yn ei gymhwyso fel Llywodraeth, yn ogystal â pholisïau penodol er mwyn datblygu'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd. Rhaid cyflwyno'r strategaeth gerbron y Senedd.

## Adran 13

**526.** Wrth wneud y strategaeth fwyd genedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried barn grwpiau eraill: Comisiwn Bwyd Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac arbenigwyr annibynnol eraill. Rhaid iddynt hefyd ystyried safonau rhyngwladol amrywiol ar fwyd.

## Adran 14

**527.** Wrth gyflawni eu swyddogaethau, rhaid i bob corff cyhoeddus gadw'r strategaeth fwyd genedlaethol mewn cof.

## Adran 15

**528.** Bob dwy flynedd, rhaid i Weinidogion Cymru adrodd ar effeithiolrwydd y strategaeth fwyd genedlaethol, a pha un a yw'n cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau bwyd a'r targedau bwyd ai peidio. Rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn gerbron y Senedd.

### Adran 16

**529.** Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth fwyd genedlaethol bob pum mlynedd. Os yw'n briodol, rhaid diwygio'r strategaeth wedyn. Os yw'r strategaeth i'w diwygio, rhaid iddi ddilyn yr un drefn o ran ymgyngoriadau ag y gwnaeth pan gafodd y strategaeth ei gwneud.

### Cynlluniau bwyd lleol

**530.** Mae adrannau 17 i 21 yn nodi'r gofynion i wneud cynllun bwyd lleol - y lefel sy'n is na'r strategaeth fwyd genedlaethol. Rhaid i bob corff cyhoeddus wneud cynlluniau bwyd lleol.

### Adran 17

**531.** Rhaid i bob corff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru) wneud cynllun bwyd lleol o fewn dwy flynedd. Diffinnir cyrff cyhoeddus yn adran 22. Bydd y cynllun bwyd lleol yn amlinellu'r polisïau y bydd y corff cyhoeddus yn eu dilyn er mwyn cyflawni'r nodau bwyd a'r targedau bwyd.

### Adran 18

**532.** Wrth wneud cynllun bwyd lleol, mae gan gorff cyhoeddus y pŵer i ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac eraill. Wrth wneud y cynllun bwyd lleol, rhaid i'r corff cyhoeddus hefyd gadw'r strategaeth fwyd genedlaethol mewn cof.

### Adran 19

**533.** Wrth wneud gwaith sy'n ymwneud â materion bwyd, rhaid i'r corff cyhoeddus gadw'r cynllun bwyd lleol mewn cof.

### Adran 20

**534.** Bob dwy flynedd, rhaid i gyrff cyhoeddus adrodd ar eu cynlluniau bwyd lleol. Rhaid i'r adroddiad ddatgan sut y mae'r cynllun wedi cyfrannu at y nodau bwyd a'r targedau bwyd.

### Adran 21

**535.** Bob pum flynedd, rhaid i gyrff cyhoeddus adolygu eu cynlluniau bwyd lleol. Yna, cânt ddiwygio eu cynllun. Os yw'r cynllun i'w ddiwygio, rhaid iddo ddilyn yr un drefn o ran ymgyngoriadau ag y gwnaeth pan wnaed y cynllun.

### Darpariaethau cyffredinol

**536.** Mae adrannau 22 i 26 yn nodi darpariaethau cyffredinol

## Adran 22

**537.** Mae cyrff cyhoeddus yn cynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae pŵer i ddiwygio'r rhestr hon, ond ni chaniateir dileu Gweinidogion Cymru oddi ar y rhestr.

## Adran 23

**538.** Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon oni bai bod Senedd Cymru wedi cymeradwyo drafft o'r rheoliadau hynny yn y lle cyntaf.

## Atodlen – Comisiwn Bwyd Cymru

**539.** Mae'r Atodlen yn cynnwys darpariaethau gweinyddol a thechnegol safonol am y Comisiwn. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau ar statws, aelodaeth, tâl, staff, prosesau mewnol, cyllid, adroddiadau, cyfrifon a threfniadau archwilio’r Comisiwn a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

# 12. Atodiad: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

**540.** Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn ei gwneud yn ofynnol bod dogfennaeth benodol yn cyd-fynd â Bil. Mae'r mynegai a ganlyn yn nodi lle y mae'r rhain i'w gweld yn y Memorandwm Esboniadol.

***Tabl 11: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog.***

| **Rheol Sefydlog** | | **Adran** | **Tudalen** |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | Tudalen i |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 - Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael<br>Pennod 4 – Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham | Tudalennau 2 hyd at 40<br>Tudalennau 41 hyd at 58 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 71 hyd at 104 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil; ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau). | Pennod 5 – Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus | Tudalennau 59 hyd at 65 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 5 – Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus | Tudalennau 59 hyd at 65 |

| **Rheol Sefydlog** | | **Adran** | **Tudalen** |
|---|---|---|---|
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Ddim yn berthnasol ar gyfer y Bil hwn gan iddo gael ei gyhoeddi yn flaenorol ar ffurf ddrafft. | |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Rhan 3 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 113 hyd at 117 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 71 hyd at 104 |
| 26.6(ix) | Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol<br><br>*sylwer: Ni nodwyd bod anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol yn deillio o'r Bil, ac felly nid yw hyn yn cael sylw yn y Memorandwm Esboniadol. | Pennod 3 -<br>Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael<br>Pennod 4 –<br>Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham<br>Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 2 hyd at 40<br><br>Tudalennau 40 hyd at 57<br><br>Tudalennau 71 hyd at 104 |

| **Rheol Sefydlog** | | **Adran** | **Tudalen** |
|---|---|---|---|
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall) | Pennod 5 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 66 hyd at 69 |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf | Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder | Tudalennu 105 hyd at 106 |
| 26.6A | Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6, drwy gyfrwng mynegai neu rhyw ffordd arall | Atodiad: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog | Yr Atodiad hwn |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, | Nid oes darpariaethau sydd yn y Bil yn | |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| | rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â’r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio’n glir beth yw’r berthynas rhwng y Bil a’r fframwaith cyfreithiol presennol | deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol. Felly, nid oes angen y tabl tarddiadau a nodir yn Rheol Sefydlog 26.6B. | |
| 26.6C | Pan fo’r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â’r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n glir sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil | Nid yw'r Bil yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol. Felly, nid oes angen yr atodlen a nodir yn Rheol Sefydlog 26.6C. | |